

Ennill Cystadleuaeth Cantorion Cymru



Llongyfarchiadau enfawr i Jess Robinson o Landysilio ar ennill cystadleuaeth Cantorion Cymru 2022, gynhaliwyd yn Neuadd y Dora Stouzker yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd ar nos Sul, Hydref 30ain.

Cynhaliwyd clyweliadau ar gyfer y gystadleuaeth nol yn yr Haf a cafodd 5 ei dewis i gystadlu yn y rownd derfynol sef Jess, Erin Rossington, Dafydd Allen, Kieran Connor Valentine ac Osian Bowen. Bu Jess yn canu'r canlynol:-

Chacun le sait, Donizetti Hear ye Israel, Mendelssohn Zur Rosenzeit, Grieg Ein traum, Grieg It's my wedding, Jonathan Dove.

Mae Jess yn ddiolchgar iawn i bawb ddaeth i'w chefnogi ac yn enwedig i Dyf a Sblot y ci am roi lan gyda'r holl ymarferion gartref!

Bydd Jess yn mynd ymlaen i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Canwr y Byd BBC yng Nghaerdydd ym Mehefin 2023 a dymuna papur bro y Cardi Bach bob llwyddiant iddi yno - cer amdani Jess!



Jessica yng nghwni ei theulu

Cadair Eisteddfod C.Ff.I. Cymru

Tomos Lewis o Langlydwen oedd gwneuthurwr cadair Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Cymru 2022 eleni.

Yn athro Dylunio a Thechnoleg yn Ysgol Caer Elen, Hwlfordd disgrifiodd y profiad fel "braint ac yn anrhydedd". Dyma'r gadair gyntaf iddo ei chreu ar gyfer Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc.

Am y tro cyntaf ers deng mlynedd, Sir Benfro oedd sir westeio'r Eisteddfod a gynhaliwyd yn Ysgol Bro Gwaun, Abergwaun ar y 19eg o Dachwedd. Does rhyfedd felly bod hanes a diwylliant yr ardal hon mor amlwg yn nyluniad y gadair.

Yn ôl Tomos, sydd hefyd yn is-gadeirydd ar y Sir, roedd portreadu Waldo Williams yn y cynllun, un o feirdd lleol, mwyaf poblogaidd yr ugeinfed ganrif, yn hollbwysig iddo.



Cofeb Waldo, cofeb hanesyddol sydd wedi'i leoli ger Mynachlog-ddu oedd y brif ysbrydo-
liaeth felly tu ôl i siâp y gadair.

parhad ar dudalen 2

Y CARDI BACH

Golygydd,
Cadeirydd a Eurfyl Lewis
Dosbarthwr 01994 419495

Is-gadeirydd: Iola Wyn
 07870 100831

Ysgrifennydd: Beti Wyn James
 01994 230966

Trysorydd,
Ffotograffydd,
Dosbarthwr
drwy'r post a Roy Llewellyn
Hysbysebion: 01994 448283

Trysorydd y Rhian White
Clwb '200': 01994 231338

Cysodwyr: Wyn a Meirwen
 Evans
 01994 448447

Cystadleuaeth John Arfon Jones
 01994 240536

Cornel y Albie Abbott
Dysgwyr:: 01239 831641

Tudalen y Plant: Llinos Mair Thomas

Llewyrch i'm Llwybr: Eurfyl Lewis

Cornel Coginio: Winnie James
 01239 831754

Cornel Llên: Nansi Evans
 01994 448392

Cornel Garddio: John Davies
 01994 240059

Newyddion, Lluniau, Erthyglau
 a Hysbysebion i'w hanfon erbyn
10fed o bob mis, drwy e-bost os
 yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin,
 Cwmfelin Mynach, Hendygywyn-ar-
 Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol
 o angenrheidrwydd yn
 cytuno ag unrhyw farn a
 gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan: Gwasg Aeron Cyf.
 Aberaeron. 01545 571115

CYMRAG



Ariennir yn
 rhannol gan
 Lywodraeth
 Cymru'.

Colofn y Mis

gan Iola Wyn, San Cler

O Gapel Madog i Bendyrus i Qatar

Difyr yw coed teuluol, ond yn aml, mae mwy o gwestiynau nac atebion. A phan fo'r Beibl Mawr yn y cartref teuluol ers chwe chenhedlaeth, a stôr o luniau, tystysgrifau a darnau papur newydd wedi eu cadw'n daclus ynddo, mae modd treulio oriau yn pori drwy'r cynnwys a darganfod gwybodaeth ddifyr.

Roedd fy Mam-gu wedi ei geni yn y tyddyn lle mae fy rhieni bellach yn byw yng Nghapel Madog, uwchben Aberystwyth. Ac roeddwn i wastad yn gwybod nad oedd teulu fy Nhad-cu i gyd yn hannu o'r ardal, gyda'i fam yn dod o Abercwmboi yng Nghwm Cynon. Yr hyn nad oeddwn yn sylweddoli tan yn ddiweddar iawn oedd bod tylwyth fy Mam-gu hefyd â chysylltiadau â'r cymoedd. Roeddwn wastad wedi meddwl bod ei gwreiddiau'n ddwfn yng nghefn gwlad gogledd Sir Aberteifi.



Yn y Beibl, mae tystysgrif priodas o 1904 sy'n nodi 42 Edmond Street Tylorstown, yng Nghwm Rhondda fel cyfeiriad tad fy Mam-gu ar yr adeg honno. Ac er bod cyswllt agos rhwng Sir Aberteifi â'r palmant aur i Lundain, mae'n amlwg hefyd fod y cymoedd wedi denu nifer, ac yn benodol y gweithfeydd glo. Glowr oedd fy hen Dad-cu yn ôl ei dystysgrif priodas.

Beth oedd y dynfa i gefn gwlad Sir Aberteifi ar droad y ganrif ddiwetha' ? Neu tybed ai dychwelyd adref oedd e, ar ôl treulio cyfnod penodol yn gweithio yn y pyllau glo ?

Ac wrth gwrs ar Dachwedd y 9fed 2022, fe hawliodd Pendyrus, neu Tylorstown y penawdau, wrth i hyfforddwr tîm pêl-droed Cymru, Rob Page gyhoeddi ei garfan oddi yno ar gyfer pencampwriaeth gyntaf Cymru yng Nghwpan y Byd ers 1958. Ac fe ddewisodd ei gartref genedigol i ddatgelu'r cyfan.

Felly dyma dyrchu eto yn y Beibl teuluol i ddarganfod y cyfeiriad. Ac yn wir, mae Neuadd Les Pendyrus lle cyhoeddwyd pwy fydd y 26 chwaraewr ar yr awyren i Qatar, dafliaid carreg o'r cyfeiriad ar y dystysgrif briodas ar yr aelwyd yng Nghapel Madog.

Felly gyda mwy o gwestiynau nac atebion, bydd angen tyrchu ymhellach nawr, gan afael yn y mymryn lleiaf o obaith fy mod yn perthyn i Rob Page! Ond gall y gwaith ymchwil hwnnw ddim dechrau tan i mi ddychwelyd o Qatar fy hun! Ac fe gewch chi'r hanes hwnnw yn y rhifyn nesaf ! Yn y cyfamser, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi holl ddarlennwyr Y Cardi Bach, a diolch am eich cefnogaeth gydol y flwyddyn.

parhad o dudalen 1

Wedi ei gwneud o dderw, gorchuddiwyd rhan o'r gadair hefyd gan garthen Melin Tregwynt, carthen a wnaed yn lleol. Dewiswyd lliwiau'r garthen yn benodol i gyd-fynd â lliwiau'r Sir, glas a melyn.

Ddyddiau cyn Eisteddfod CFfi Cymru, cafwyd cyfle i gael cipolwg ar y Gadair mewn noson ddadorchuddio yng Nghanolfan Hermon ar yr 16eg o Dachwedd. Yn bresennol, roedd noddwr y gadair, Granville John o gwmni Cware ac Olew Trefigin ynghyd â noddwr y garthen, Delme Harries.

Wedi cryn ganmoliaeth, roedd teilyngdod yn Abergwaun ar y 19eg o Dachwedd, gyda chadair Eisteddfod CFfi Cymru 2022 bellach wedi'i lleoli ym Mhwlheli, cartref y bardd buddugol.

GOHEBWYR LLEOL

ALMA:	Margaret Evans 01994 230761
BANCYFELIN:	Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA	Parch, Beti-Wyn James beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN:	Tegwen James 01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun)	Meinir Eynon 01437 563540 meiniireynon@gmail.com
CEFNYPANT:	Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN:	Lynys Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk
CWMBACH:	Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com
CWMFELIN	Nansi Evans
MYNACH:	01994 448392
EFAILWEN:	Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN:	Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN:	Heather Jenkins 01994 240138 jenkinsh2809@gmail.com
(Newyddion Tabernacl)	Parch. Guto Llywelyn 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG:	Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES	Meinir Eynon 01437 563540 meiniireynon@gmail.com
LLANBOIDY:	Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO:	Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN:	Jill Lewis 01994 419495 jill.llest@gmail.com
LLANGYNIN:	Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@googlegmail.com
MEIDRIM:	Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
PENYBONT:	Linda Davies 01994 484657 lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP:	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID:	Doreen Adams 01994 240581
RHYDWILYM:	Eilir Davies 01994 419649 eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER:	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
TRELECH:	Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com

Cyflwyno arian cyngerdd er cof am Undeg


Tudur, Rhodri, Ffion, Gwyndaf a Nia yn cyflwyno swm o £12000 i'w rannu rhwng Ymatebydd Cynta Crymmych a Cronfa Ifan Phillips. Gwelir Ifan Phillips ac Euros Edwards yn derbyn eu sieciau.

Diolch i bawb am eich cefnogaeth i'r noson.

**Gŵyl y Geni 2022**

Hon yw Gŵyl ein Hanwyllyn, - a geni
Y gân ddaw i'w ganlyn.
Â'i gariad yn flaguryn
Ffynna'n deg er ffiniau dyn.

Wyn Owens



LLEWYRCH I'M LLWYBR

gan Euros Rhys Evans

Wrth i fi ysgrifennu hwn, â hithau'n fis Tachwedd, mae dail y coed yn newid eu lliw ac mae 'na garped trwchus, amryliw ar lawr ym mhobman. Mae'n olygfa hyfryd a heddychlon. Dwi hefyd yn ymwybodol y bydd brigau'r coed yn gwbl noeth erbyn i chi ei ddarlenn e, a bydd y Cardi Bach yn frith o negeseuon a chyfarchion Nadoligaidd.

Wrth i ni nesáu at fis ola'r flwyddyn, mae'n naturiol i ni edrych yn ôl ac i hel atygfion am hynt a helynt y misoedd a aeth heibio. Sut flwyddyn fuodd hi i chi tybed? Mae'n profiadau chi fel rhai pawb arall siwr o fod, yn gymysg o'r llon a'r lleddf ac mi fydd y llawenydd a'r tristwch yn plethu drwy ei gilydd, yn debyg i liwiau'r dail sydd ar y llawr tu fas.

Yn draddodiadol, mae hwn yn gyfnod o edrych ymlaen hefyd - adeg yr Adfent pan y'n ni'n cael cyfle i droi'n golygon at y Nadolig ac i baratoi'n hunain yn feddyliol ac yn ysbrydol i ddatlu dyfodiad Crist i'n byd. Ond tybed a ydy neges yr Adfent yn berthnasol i ni yn y dyddie cythryblus, helbulus ry'n ni'n byw ynddyn nhw?

Mae'r ateb i'w weld yn gwbl glir ym mhrif themâu'r Adfent, sef ffydd, gobaith, heddwch, cariad, trugaredd, llawenydd a goleuni. Mae'n hawdd weithiau i ni ddigalonni'n llwyr wrth weld cymaint o ddiodde, anghyfartaledd ac annhegwch o'n cwmpas, ond mae'n bwysig i ni drio profi'r hyn y mae'r Adfent yn ei ddysgu i ni.

Dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, fe aned Crist i fyd a oedd hefyd yn hynod ranedig, cythryblus a pheryglus, ond mae'n bwysig cofio fod ei ddysgeidiaeth a'i Efengyl yn llawn newyddion da a chadarnhaol. Felly, beth bynnag yw'ch amgylchiadau wrth i chi wynebu Nadolig arall, cofiwch fod cyfnod yr Adfent yn ein hannog i obeithio a bod yn ffyddiog; i allu profi heddwch mewnol ac i deimlo cariad, llawenydd a goleuni Crist yn ein llenwi. Ac wrth i ni eu teimlo, mae gyda ni gyfle wedyn i geisio'u rhannu â phobl eraill.

Dwi'n cloi gyda geiriau a luniwyd gan Robin Gwyndaf ar gyfer Suliau cyfnod yr Adfent. Felly, wrth i chi gynnau canhwylau'r Adfent yn eich gasanaethau eleni, beth am ganu'r geiriau hyn ar y dôn Y Preseb (I orwedd mewn Preseb)?

Dwi'n gobeithio y cewch chi gyd fendith yn ystod yr Adfent a ga'i hefyd ddymuno Nadolig Llawen, bendithiol i bawb. Does gan yr un ohonom ddim syniad beth sydd gan 2023 i'w gynnig, ond boed i neges yr Adfent ein hysbrydoli a'n cynnal, beth bynnag â fydd yn rhaid i ni ei wynebu.

Tôn: Y Preseb

Mae'n dymor yr Adfent a'r nos yn ein tir,
Goleuwn y gannwyll sy'n t'wynnu mor glir;
mae'n gannwyll ein Gobaith, ac Iesu, Fab Duw
yn rhoi inni'r golau i'n harwain i fyw.

Mae eto yn Adfent a'r gannwyll o hyd,
goleuo mae hon yn nhywyllwch y byd;
mae'n gannwyll ein Heddwch, ac Iesu, Fab Duw,
yn D'wysog Tangnefedd i'n dysgu i fyw.

Mae geni yr Iesu fel twf brigyn ir,
neu haul cynta'r gwanwyn, rôl gaeaf mor hir;
a'r gannwyll sy'n olau, mae honno o hyd
yn gannwyll sy'n rhannu Llawenydd i'r byd.

Mae'r gannwyll sy'n olau yn dweud ag un llais
nad ymladd y gelyn yw'r ateb i drais;
mae'n gannwyll Trugaredd sy'n datgan o hyd
mai cymod a chariad sy'n achub y byd.

A 'nawr mae'r canhwylau yn olau i gyd
Yn dweud bod yr Iesu'n Oleuni i'r Byd;
A bydded i ninnau yn llawen mewn ffydd
Oleuo un gannwyll o gariad bob dydd.

(Gellir canu'r pennill cyntaf ar Sul cyntaf Adfent a goleuo un gannwyll; canu'r ddau bennill cyntaf ar yr ail Sul a goleuo dwy gannwyll; ac felly o Sul i Sul gan oleuo'r canhwylau i gyd a chanu'r penillion oll ar ddydd Nadolig).



CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CYSTADLEUAETH gan John Arfon

Hoffwn yn gyntaf ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch a chan obeithio y bydd y flwyddyn sydd i ddod ychydig yn well na'r dair blynedd ddiwethaf oni de.

Fel y dywedais yn y rhifyn diwethaf mai y tro hyn fydd y diwethaf imi roi cystadlaethau gyda gwobryon ichwi. Er hynny wedi aml berswad efallai y byddaf yn gosod posau er mwyn eich diddori pob hyn a hyn ichwi. Fe gawn weld sut mae'r golwg yn dod ymlaen.

Dyma atebion cystadlaethau mis Medi.

1af - Croesair

Ar Draws: 1. Blino, 4. Afal, 7. Cath, 8. Cyfrwys, 9. Robin, 11. Nant, 12. Gwr, 13. Cnaf, 16. Doctor, 18. Gwario, 20. Niwl, 21. Llaw, 22. Smwt, 27. Modur, 28. Wylofus, 29. Oer, 30. Moel, 31. Neges.

I Lawr: 1. Bifan, 2. Iawn, 3. Ocsiwn, 4. Athro, 5. Albanwr, 6. Acen, 10. Nofio, 14. Môr, 15. Cwt, 16. Diwall, 17. Crwydro, 19. Sadwrn, 23. Mefus, 24. Tost, 25. Trol, 26. Clog.

Rwyf wedi derbyn y gair smot yn 22 ar draws am fod rhai ardaloedd y Gogledd yn ei ddefnyddio fel talfyriad o smotyn.

2il - datrys dinasoedd o'r allwedd-bad.

1. Kabul, 2. Stockholm, 3. Cairo, 4. Melbourne, 5. Ottawa, 6. Copenhagen, 7. Nairobi, 8. Caerdydd, 9. Wellington, 10. Budapest, 11. Kiev, 12. Beijing.

Yn anffodus cafwyd un neu ddau wall yn y croesair ond diolch i bawb am eu hymdrechion. Y cyntaf allan o'r het y tro hyn ac yn ennill y wobr o £5 oedd Jane Evans, Blaenwaun, gyda'r llyfr yn mynd i Meryl Jones, Talog. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonynt ac hefyd i'r canlynol am eu hatebion cywir: Dorothy Williams, Efailwen; John Lewis, Meidrim; Tegwen James, Blaenwaun; Olwen Gibbon, Heol Llysonnen; Eilyr Thomas, Llandysilio; Nesta Rees, Huw Davies, Pwlltrap; Gwlithyn Jones, Dryslwyn a Peter Crowdie, San Cler.

Dyma atebion y Cwros a Chwilrif mis Medi

O	X	O	X	X	O
X	O	X	O	O	X
X	O	X	O	X	O
O	X	O	X	O	X
O	X	O	X	O	X
X	O	X	O	X	O

6	8	5	3	7	9	1	4	2
7	9	1	4	2	6	5	8	3
3	2	4	8	1	5	9	7	6
1	4	9	7	6	2	3	5	8
8	3	6	5	4	1	7	2	9
2	5	7	9	3	8	4	6	1
9	1	8	2	5	4	6	3	
4	6	3	1	8	7	2	9	5
5	7	2	6	9	3	8	1	4

Dyma ddau arall i'ch difyrnu


	X				
O				O	
					X
		X	X		
			O		
O	X			O	

			1	8		6		
	5			2				
						8	5	1
			6	7			4	
	9							8
	2	8		9		7		
3								
4	6				2		1	
				6	4		9	2

****DALIER SYLW****

Hoffwn ymddiheuro am y gwall yn un o gystadlaethau mis Hydref. Ni roddais ddigon o wybodaeth ichwi ym mhôs "Rhifau'r Pyramid", felly, anghofiwch hwn ac anfonwch eich atebion i'r ddau bôs arall sef B ac C.

Mae tri rhan i'r gystadleuaeth gyntaf (**A**) y mis hwn, ac am mai hon fydd y ddiwethaf i gynnig gwobryon, bydd £8 i'r cyntaf, £5 i'r ail a llyfr i'r trydydd am yr atebion cywir i'r dair rhan a ddaw allan o'r het. →

A(1) Y gyntaf yw Croesair y Goeden Nadolig

Cymerir ch, dd, ff ac yn y blaen fel un llythyren

Ar Draws


2. Pennaeth yr Eglwys Gatholig. (3)
3. Offeryn i naddu a thorri coed. (5)
- 5 a 23. Cyfarchion y Tymor. (7, 5)
7. Awn i siopa i ymofyn y rhain. (7)
12. Gweler 19.
14. Defnyddio offeryn crwn i dorri rhywbeth.
18. "I ---- fo'r nôd".
- 19, 21, 15 i lawr, 10 i lawr a 12.
Dihareb yn ein cymell i beidio bod yn farus.
(4,6,4,3,2,3,4,4)
20. Meithrinfa. (7)
21. Gweler 19.
22. Un tro yn unig. (6)
23. Gweler 19.

I Lawr

1. Gobeithio y cysgwn hyd yr amser hyn (3,1,4)
3. Cysylltir hwn â saeth yn y Gemau Olympaidd. (3)
4. Anifeiliaid ifainc ar fferm. (3)
5. Mam Dewi Sant. (3)
6. Ffals neu'n wrthwyneb i'r gwir. (3)
8. Cawn orffwys mewn cae sgwar. (5)
9. Ymwelydd y nos cyn y Nadolig. (5)
10. Gweler 19 ar draws.
11. Lle i fyw ynddo. (2)
13. Siawns. (5)
14. Y ni sy'n perthyn i'r wlad hon. (5)
15. Gweler 19 ar draws.
16. Dau ddeg. (5)
17. Gall hon fod yn un llwynog neu drysor. (5)

A(2) Yr ail ran yw datrys y Croesair Diemwnt

Cymerir ch, dd, ff ac yn y blaen fel un llythyren

**Ar Draws**

2. Y pen uchaf neu'r brig. (3)
3. Tymor o'r flwyddyn. (3)
5. Heb fod yn od, mae 3 i lawr yn rhoi sialens inni. (3)
6. Dôl neu weirglodd. (3)
8. "Eu henwau'n -----sydd, a'u hun mor dawel yw." (9)
9. "----, Mam Cymru" (3)
10. Y rhan isaf o'r fraich. (3)
11. Rhan o'r corff. (3)
12. Ein planed ni. (3)

I Lawr

1. Coffadwriaeth. (3)
2. Terfysg wedi'r fellten. (5)
3. Roedd hwn am ladd pob un cyntaf-anedig. (5)
4. Anghredadun. (5)
5. Ymyl isaf y ffrog. (3)
6. Gwelir hwn a 7 i lawr mewn llyfr cyfrifon. (5)
7. Gweler 6 i lawr. (3)
11. Had planhigyn yn yr ardd. (3)

A(3) Y trydydd rhan yw Chwilair y Nadolig

Canfyddwch a chroeswch allan yn y grid y geiriau a ddangosir odditano sydd yn ymwneud â'r amser y Nadolig. Os gwnewch hyn yn gywir fe fydd nifer o lythrennau yn weddill heb eu croesi allan. Darllenwch y rhain o'r dechrau i'r diwedd mewn trefn a dylech gael ateb o bwys. Dyma'r ateb sydd ei eisiau.

Addurniadau	Carw	Eglwys	Iesu	Parti
Angei	Celyn	Eira	Joseff	Plygain
Aur	Cnau	Emyn	Mair	Preseb
Baban	Cracer	Ffws	Myrrh	Pwdin
Brenin	Cyflaith	Geni	Nadolig	Rhew
Bugeiliaid	Dawns	Gras	Noel	Santa
Carol	Doethion	Gwynos	Oerni	Seren
Sosej	Stabl	Tawel Nos	Thus	Tinsel
Tôn	Uchelwydd			

Th	I	A	L	F	Y	C	S	A	R	G	P	A
A	U	A	N	C	E	L	Y	N	Rh	E	W	T
R	A	S	O	N	L	E	W	A	T	N	D	N
I	D	Dd	S	P	Y	S	L	R	I	I	I	A
E	O	O	U	A	E	M	G	D	A	W	N	S
Dd	E	H	R	R	Y	M	E	I	S	C	T	G
Y	Th	N	E	T	N	R	L	O	M	A	I	R
W	I	N	C	I	E	I	N	N	B	L	N	O
L	O	R	A	C	E	L	A	L	O	I	S	J
E	N	I	A	G	Y	L	P	D	N	E	E	O
Ch	R	R	U	W	E	N	A	E	A	S	L	S
U	C	B	G	Ng	I	N	R	E	O	U	W	E
T	O	N	A	B	A	B	E	S	E	R	P	Ff

Yn yr ail gystadleuaeth (B) mae'n rhaid cwblhau dau Chwilrif a bydd gwobrau o £5 i'r cyntaf a llyfr i'r ail cywir a ddaw allan o'r het.

B(1) Y Chwilrif mawr

Mae'n rhaid i bob llinell, colofn a 'r blwch 4x3 gynnwys yr holl rifau o 1 i 12.

	11			7	8				2	10		
4	2									11		
6	5	9										
				9								7
				12	10	8	5	11				9
9		4	3						10			8
10	9	2							1			
8	7			3		5	12	6				
11						6		2	7			
			9		5				4			1
	8		10		11	1		12		6		
12				8	6	7	2		9			

B(2) Y Chwilrif X neu'r Samurai fel ei gelwir yn Siapan.

Mae pum grid yn y Chwilrif X, ac mae eisiau llenwi pob grid fel bo pob rhes a cholofn o'r blychau 3x3 yn cynnwys y rhifau o 1 i 9. Fe welwch fod y grid canol yn gorgyffwrdd â'r gridiau o'i amgylch a dylai hynny fod o help ichwi i gwblhau y dasg.

Cofiwch: peidiwch â cheisio datrys pob grid yn eu tro oherwydd mae eisiau taclo y pŵs yn gyfan os am lwyddiant.

Mae hwn yn eithaf caled ac fe gymerais i tua un prynhawn yn ei ddatrys, ond gyda pen clir a dyfal barhad dylech ei gwblhau yn rhwydd cyn y dyddiad cau.

[illegible]

Diolch unwaith eto i bawb sydd wedi cystadlu dros yr holl flynyddoedd. Fel y dywedais eisioes byddaf yn ceisio rhoi posau i'ch difyrru yn unig o hyn ymlaen.

Anfonwch eich atebion i John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd, Hen Dŷ Gwyn- ar-Daf, SA34 0AX, erbyn Chwefror 1af 2023, **ynghyd a'ch enw, cyfeiriad llawn a'ch rhif ffôn os gwelwch yn dda**. Peidiwch a gadael anfon eich cynigion i mewn tan y funud olaf. Cofiwch fod ym rhaid ichwi fod yn aelod o'r Clwb 200 os am y siawns o ennill gwobr.

CORNEL Y DYSGWYR

gan Albie Abbot

Dyma rywbeth i chi bendroni drosto dros y Nadolig. Gobeithio y cewch amser da gyda'ch ffrindiau a theulu.

Nadolig llawen oddi wrth Albie, Dee a'r teulu.

Dewiswch y gair gorau o'r pum dewis i gwblhau'r frawddeg.

Roedd ei galon yn curo fel

- a) cloch b) ffôn c) llif; ch) morthwyl; d) dwrn.

Wrth iddo edrych ar ei hen gartre annwyl, llanwyd ei lygaid

- a) a chwys; b) a dagrau; c) a phoer; ch) a sudd; d) a diod'

Pan welodd yroedd yn gwybod bod tân wedi dechrau yn rhywle.

- a) niwl; b) cesair; c) lludw; ch) mwg; d) blas

Roedd y ffermwr wedi rhoidan yr anifeiliaid iddi nhw orwedd arno

- a) gwellt; b) llwch; c) chwyn; ch) hadu; d) porfa

Teimlau fod eisiau.....rhywbeth

- a) datgan; b) dweud; c) mynegi; ch) siarad; d) tybio

Roedd e'n meddwl bod y gwin wedi dechrauarno

- a) effeithio; b) ymosod; c) meddwl; ch) sylwi; d) tyfu

Cerddodd hi dros y lawntmân

- a) a chmau; b) a grisau; c) a charnau; ch) a graddau; d) a sodlau

Dihunodd y teulu.....y nos.

- a) yn nyfnder; b) yng nghwynder; c) yng ngwaelod; ch) yng ngawr; d) yn ymyl

Gan fod ei mam a minnau'n frawd a chwaer ,.....yw hi i mi.

- a) modryb; b) cyfnither; c) wyres; ch) nai; d) nith

Dechreuwyd mynd atii geisio cael gwybod beth oedd wedi digwydd

- a) o leiaf; b) o ddigon; c) o ddifri; ch) o lawer; o bell

Roedd rhyw ddyn o'r pentre'n digwydd bod yn myndar y pryd.

- a) heibio; b) wrth; c) agos; ch) ymlaen; d) erbyn

Roedd hi fel petai'r ddaear wediSarah Hughes.

- a) boddi; b) llyncu; c) llorio ch) suddo; d) claddu

Does dimam neb yn dod i fyw i'r ty drws nesa.

- a) swyn; b) son; c) sain; ch) si; d) swyn

Allwch chi byth arhywun am wneud beth wnaeth e.

- a) digio; b) deall; c) synnu; ch) beio; d) bodloni

Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen,
Llangynin, San Clêr, SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338

e-bost:

rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarlennwyr,

Dyma 2022 yn dod at ei therfyn a chofiw'n annwyl am y rheini a gollwyd, boed yn aelodau'r Clwb 200 neu'n ffrindiau i'r Cardi Bach.

Diolch am eich cefnogaeth i'r clwb drwy gydol y flwyddyn ac hyderaf y gwnewch ymuno eto'r flwyddyn nesaf, i gefnogi'n papur bro.

Dyma restr o'n haelodau newydd:-

Merrill Spratt, Cote Villa, Cross Inn, Talacharn.

Angela Marie, Yr Hen Swyddfa Bost, Trelech.

Llongyfarchiadau i enillwyr lwcus mis Hydref:-

738 - Arwel a Ceris Llewellyn,
Wernhyfryd, Llandysilio - £20
385 - William Beards, d/o Wilma
Robins, Rhyd-y-Gors, San
Clêr - £10

Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ddedwydd ac heddychlon i chi gyd.

Cadwch yn ddiogel,

Rhian

Pwyllgor Adloniant Llanwinio

OEDFA GAROLAU

yn Eglwys Llanwinio

**Nos Sul, Rhagfyr 18fed 2022
am 7 o'r gloch**

Arweinyddion:

Phillip a Jiwli Higginson

Organyddes: Mrs Marianne Phillips

Casgliad tuag at gael Diffibriliwr
i'r gymuned

Lluniaeth ysgafn i ddilyn yn y
Neuadd

Croeso i bawb

**Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf**



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
== CLUDIANT ==



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎: 01437 563725 • 07798 885305



**COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig**

Hendygwyn

01994 240254

www.llewelyndavies.co.uk

Cyfarfod Blynyddol Y Cardi Bach

Cynhaliwyd y cyfarfod ar brynhawn Sul, Hydref 30ain 2022 am 4 y.p. yng Nghanolfan Hywel Dda.

Yn bresennol roedd Eurfyl Lewis (Cadeirydd), Wyn a Meirwen Evans, Rhian White, Iola Wyn, Mel Jenkins, John Arfon Jones, Jane Evans, Meinir Eynon, Tegwen James, Beti-Wyn James, Delyth Roblin

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Eurfyl Lewis, y Cadeirydd.

Derbyniwyd **ymddiheuriadau** oddiwrth Roy Llewelyn, Llinos Mair Thomas a Susan Phillips

Cofnodion

Cynigiwyd gan Iola ac eiliwyd gan Meinir fod cofnodion cyfarfod 2021 yn gywir.

Materion yn codi

Braf yw deall fod Heather Jenkins wedi cymryd drosto fel gohebydd Hendygywyn.

Mae'r erthyglau chwaraeon wedi cynyddu a sawl clwb nawr yn danfon adroddiadau rheolaidd i'w cynnwys yn y Cardi Bach. Mae tua 4 tudalen o newyddion chwaraeon nawr.

Gohebiaeth

Derbyniwyd llythyr oddiwrth Nansi Evans yn hysbysu'r cyfarfod ei bod yn ymddeol o fod yn gyfrifol am "Colofn Llên" y Cardi Bach. Mae Nansi wedi bod yn gyfrifol am y Golofn Llên am flynyddoedd maith ac mae'r Pwyllgor yn hynod ddiolchgar iddi am ei holl waith yn darparu rhyddiaith neu gerddi gogyfer â bob rhifyn.

Adroddiad y Cadeirydd

Diolchodd Eurfyl i bawb sydd wedi cefnogi'r Cardi Bach eleni, i Wyn a Meirwen am eu holl waith fel cysodwyr, y swyddogion, y colofnwyr, y gohebwyd, a phawb sydd wedi bod ynghlwm â llwyddiant Y Cardi Bach dros y flwyddyn diwethaf. Mae'r erthyglau chwaraeon wedi bod yn llwyddiant ysgubol.

Argraffwyd 10 rhifyn, 700 copi bob tro ac mae gwerthiant yn gymharol gyson a gwerthiant San Cler i fyny eleni.

Mae'r tudalen Gweplyfr yn boblogaidd hefyd. Soniodd John Arfon na fydd gwobrau ariannol i'r gystadleuaeth ar ôl y rhifyn nesaf..

Adroddiad y Trysorydd

Dosbarthwyd y fantolen a baratowyd gan Roy. Gwerthwyd 6608 copi o'r papur gyda'r gwerthwyr yn cael 10c y copi o gomisiwn. Mae 39 yn derbyn copi drwy'r post.

Derbyniwyd y fantolen fel un cywir. Diolchwyd i Roy am ei holl waith.

Adroddiad y Cysodwyr

Mae'r cysodwyr yn ddiolchgar i dderbyn y newyddion erbyn y 10fed o bob mis. Mae'r newyddion o'r ardaloedd yn cyrraedd yn dda ond dyw rhai ysgolion ddim yn cyfrannu. Bydd Beti-Wyn yn cysylltu â nhw.

Adroddiad y Clwb 200

Mae 689 o aelodau, sef 27 yn fwy na'r llynedd yn cynnwys 36 o aelodau newydd. Diolchodd Rhian i Wyn a Meirwen am eu help bob mis i dynnu rhifau ar Google Random.

Ethol Swyddogion

Etholwyd swyddogion fel a ganlyn:

Cadeirydd – Eurfyl Lewis

Is-gadeirydd – Iola Wyn, sydd hefyd yn fodlon cyfieithu.

Ysgrifennydd – Beti-Wyn James

Is-ysgrifennydd – Iola i gamu mewn os bydd angen.

Trysorydd – Mae Roy wedi penderfynu ymddeol fel trysorydd. Dyw Rhian ddim yn barod i fod yn drysorydd oherwydd dyletswyddau'r Clwb 200 ond bydd yn parhau fel is-drysorydd. Cynigiwyd rhai enwau a bydd Eurfyl yn holi.

Is-drysorydd – Rhian White

Trefniadau tynnu gwobrau'r Clwb 200

Penderfynwyd symud trefniadau'r llynedd ymlaen flwyddyn, sef cwis wedi ei drefnu gan Iola ar Chwefror 10fed yng Nghlwb Cymdeithasol Llanboidy

Hysbysebion Nadolig

Mae'r hysbysebion wedi eu dosbarthu i'r rhai sy'n eu dosbarthu i'r busnesau. Danfonir ffurflenni ychwanegol ar e.bost i'w rhoi i fusnesau newydd.

Unrhyw fater arall

Penderfynwyd hysbysebu ar Facebook gyda hamper o gynnyrch Cymraeg yn wobwr.

Soniwyd fod copiau sbar yn mynd i'r cartrefi gofal gyda Beti-Wyn ac Eurfyl yn eu dosbarthu. Bydd Beti-Wyn yn ychwanegu Waungron at ei chartrefi hi.

Mae Rhian, Susan a Iona yn darllen y Cardi Bach i llyfrau llafar bob mis.

Clwb Cymdeithasol Llanboidy
NOSON FAWR
CLWB 200 Y CARDI BACH
a Noson Gwis

yng ngofal Iola Wyn

Nos Wener, Chwefror 10fed, 2023
am 7.30 y.h.

Tîmau o 4 - £50 i'r tîm buddugol



MERCHED Y WAWR



Blwyddyn y Llywydd



Mae'n ddiwedd blwyddyn arall, ac erbyn hyn mae pawb mae'n siŵr yn brysur yng nghanol y paratoadau ar gyfer y Nadolig. Ond yng nghanol y prysurdeb ac wrth wynebu blwyddyn newydd, mae'n braf cael edrych yn ôl dros y flwyddyn a'r hyn sydd wedi digwydd. Fel pob

Llywydd Cenedlaethol arall o'm blaen, mae'n bur debyg mai Merched y Wawr sydd wedi cael y flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn a bod yna uchafbwyntiau a fydd yn aros yn y cof am byth. I finnau, mae'r holl weithgareddau Cenedlaethol wedi bod yn arbennig, ond eleni roedd y ffaith ein bod yn cael cwrdd wyneb yn wyneb wedi creu rhyw gyffro a naws arbennig iawn o agosatrwydd a llawenydd na wnâi fyth anghofio. Gwelwyd hynny yn bennaf yn y Ffair Aeaf y llynedd ac wrth ysgrifennu hwn, rwyf yn edrych ymlaen yn fawr iawn i gael ymweld a'r Ffair eleni eto a phrofi'r naws Nadoligaidd hyfryd yna ar ddechrau tymor Gŵyl y Geni.

Yn ôl at yr uchafbwyntiau, Gŵyl y Pum Rhanbarth yn Rhydymain; Yr Ŵyl Haf a'r Cyfarfod Blynnyddol ym Machynlleth a Ffynnongroes yn ennill tlws Mair Penri; Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych: Y Teithiau Cerdded a Phrosiect Cerdded, Cerdd a Chynefin ac yna yr Eisteddfod hir ddisgwyliedig yn Nhregaron. Dyna fu wythnos i'w chofio, y stondin, y Gwlân, Gwlân, Gwlana, y Côr Hwyllog ar Lwyfan y Maes, yr Enfys o Obaith a'r pinael i mi yn bersonol oedd Cyfarch y Llywydd a Geraint Lovegreen.... yn dod i ganu - i fi! Dwi ddim wedi cael cyfle i ddiolch yn iawn iddo am wneud, dwi'n amau na chafodd fawr iawn o ddewis, a chael ei ddal ar hop ar fan gwan ond beth bynnag yr amgylchiadau, mi fyddaf yn fythol ddiolchgar ac mae arnaf beint ...neu ddau iddo!

Ar ôl bwrwm yr Eisteddfod wedyn, daeth y Penwythnos Preswyl yng Nghaerfyrddin, y cyntaf ers 2019, felly unwaith eto teimlwyd y llawenydd o gael cyd gwrdd a bu'n benwythnos arbennig iawn. Braf fu cael cwmni nifer o aelodau ardal y Cardi Bach yn ystod y penwythnos.

Ac yna, mae'r holl ymweliadau a'r canghennau; dathlu'r hanner cant gyda sawl un, ciniawau a the Prynhawn gydag eraill (Te Prynhawn San Cler yn sefyll allan!) cynnal nosweithiau mewn canghennau a bod yn wraig wadd. I'r rheina ohonoch sydd yn fy adnabod, fe wyddoch chi mod i'n gallu siarad (gormod braidd falle ond mae'n rhaid pan chi'n byw da Eurfyl!) ac yn aml iawn, er bod braslun o'r hyn dwi am ddweud ar ddarn o bapur, anaml iawn y byddaf yn ei ddilyn a bydd yr hyn oedd fod cael ei ddweud yn mynd allan drwy'r ffenest ar sawl achlysur! Ond fel y

dwedaf yn aml, er fod yna uchafbwyntiau sydd yn sefyll allan, megis yr Eisteddfod ag ati, dyma sydd yn gwneud y Llywyddiaeth yn unigryw, cael cyfarfod a'r aelodau a dod i'ch adnabod a cael hwyl, diolch felly i bawb am fy ngwahodd ac am y croeso a'r adborth hyfryd bob amser. Dwi wir yn ddiolchgar.

A dyma ni felly, fel y soniais ar y dechrau, mae pawb yng nghanol prysurdeb y Nadolig. Ac unwaith eto mae'r bocsys 'Quality Street' a'r Celebrations wedi bod ar y sillfoedd ers ddechrau Hydref! (Mae yna siocledi arall ar y farchnad wrth gwrs!!) Gymaint ag yr wyf yn mwynhau'r Nadolig ac yn edrych ymlaen i gael cwmni teulu a ffrindiau dros gyfnod yr Ŵyl, dwi ddim yn hoffi'r ffordd mae'r gwerthwyr mawr yma yn rhoi pwysau ar bawb i brynu a phrynu ac i fod 'yn barod' am y Nadolig bron iawn cyn ein bod i fewn i fis Rhagfyr!

Eleni felly, fy mwriad a'm neges i aelodau Merched y Wawr oedd 'i beidio a gadael i neb arall, nag i chithau chwaith roi'r pwysau diangen yma ar eich hunain - i fod yn 'barod', ond yn syml i wneud yr hyn o fewn eich gallu, a mwynhau a thrysori'r cyfnod.

A'r un yw fy neges felly i bawb arall, anwybyddwch hysbysebion crand y siopau mawr a cefnogwch y busnesau bach lleol, byddan nhw yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn llawer mwy.

Gwnewch y pethau bychain sy'n costio dim, treuliwch ychydig o amser gyda chymdogion sydd ar eu pennau ei hunain, rhowch alwad ffôn i ffrind neu berthynas pell neu agos, neu gwahoddwch rhywun draw i rannu eich cinio neu swper. Dwi'n siŵr y bydd pawb yn ei werthfawrogi a byddwch chithau yn cael budd a phleser ohono hefyd.

Bydd hi'n Nadolig anodd i lawer am amryw o resymau, eleni yn fwy na dim oherwydd tloedi, ac felly os nad yn 'Llawen', gobeithio'n wir y caiff pob yr un ohonoch o leiaf Nadolig Dedwydd ag Heddychlon.

Pob hwyl i chi gyd a chofion cynnes.

Cangen Beca

Gwnaeth nifer ohonom gyfarfod ar brynhawn Iau, Tachwedd 10fed. Estynodd Eryl George, ein llywydd, groeso i bawb i'r cyfarfod. Gwnaeth gydymdeimlo ag Ann Thomas ar ôl iddi golli ei mam yn ddiweddar. Hefyd gwnaeth ddymuno'n dda i Gloria, a fydd yn cael llawdriniaeth ar ei phenglin yn fuan. Buom yn trafod rhai o faterion y gangen, a diolchodd Eryl i bawb wnaeth gyfrannu i fanc bwyd Arberth.

Croesawyd Helen Davies a Sian Phillips Jones atom i'r cyfarfod. Dangos ffordd i bacio anrhegion wnaeth Helen, drwy ddefnyddio pob peth sydd yn iach i'r amgylchedd, ac a fydd yn ddiogel i ail gylchu. Tro yr aelodau oedd paratoi ei hanrhegion hwythau, a mawr bu'r hwyl a'r mwynhad.

Mwynhau eto wrth i Sian ddangos sut i wneud cardiau cyfarch y Nadolig. Eto, yn meddwl am yr amgylchedd a

sut i ail gylchu. Diolchodd Eryl i'r ddwy am brynhawn wrth fodd pawb. Enillodd Rhiannon Davies y raffl misol.

Gwnaeth Angharad, Ann, Jill a Eilir gymeryd rhan dros y gangen yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol.

Edrychwn ymlaen yn awr i Ginio Nadolig y gangen, brynhawn Rhagfyr 8fed, am 1 o'r gloch yng Nghaffi Beca.

Cangen San Cler

Cydymdeimlwn â Pat ar farwolaeth ei brawd yn ddiweddar.

Ymweliad â'r Ardd Fotaneg oedd cyfarfod mis Hydref a chyfarfu 12 o'r aelodau yn yr Ardd ar fore Sadwrn, Hydref 22ain. Roedd y tywydd yn ffafriol i gerdded o amgylch a mwynhawyd gweld y rhaedrau a'r pontydd a gwefreiddiol oedd y ffwngau oedd yn tyfu ymhob man ar hyd y teithiau, y patrymau arnynt yn gelfydd a'r lliwiau yn hyfryd. Bonws annisgwyl i'r cerddwyr. Teithiodd rhai o gwmpas ar y buggy a chawsant hwy lawer o hwyl a'u canu i glywed o bell! Gyda phaned ganol bore a chinio ar ôl cerdded cafwyd amser difyr a mwynhawyd y dydd.



Rhai o'r aelodau yn cerdded yn yr Ardd Fotaneg.

Bu tîm o'r gangen yn cystadlu yng Nghwis Hwyl Cenedlaethol ar Dachwedd 11eg. Cynhaliwyd cwis Rhanbarth Caerfyrddin yn Neuadd y Tymbl lle bu 14 o dîmau yn cystadlu. Llongyfarchiadau i Iona, Lilwen, Eileen a Beti-Wyn ar ddod yn gydradd 2il gyda Changen Bro Elfed yn y Rhanbarth.

Cangen Gronw

Pleser o'r mwyaf oedd cael cwrdd eto fel cangen Gronw ar brynhawn Iau y 27ain o Hydref yn Siop Pethau Olyv yn San Cler. A dyna i chi groeso a gawsom gan Olive ac Yvonne y ddwy gymeriad hynaws ac hoffus. Mae'n glod iddynt am fentro a llwyddo yn eu busnes a sefydlwyd 'nol yn 2012 wedi iddynt ymddeol ar ôl cyfnod hir o gydweithio fel Nyrsys Seiciatryddol yn Ysbyty Dewi Sant yng Nghaerfyrddin.

Mae'r ddwy 'ma'n gymeriadau poblogaidd ac yn adnabyddus drwy Gymru ben baladr, Mae croeso yn y siop o hyd ac mae wastad yn hynod bleserus i droi

mewn a sgwrsio dros goffi ac wrth gwrs llygadu'r arlwy'n y siop - yn ddillad, bagiau, hetiau, sgarffiau a gemwaith o bob lliw a llun a nifer helaeth o 'nic nacs' eraill. Mae yna ddarpariaeth diddorol at ddant pawb ac unrhyw achlysur. Dished o de a chacen flasus ar ein cyrhaeddiad ac amser hamddenol i fynd rownd i ffansio a phrynu wrth gwrs wedi hynny. Trafodwyd rhai materion y gangen dros y te o dan lywyddiaeth Susan, a derbyniwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb oddi wrth saith o'r aelodau. Cydymdeimlwyd â Susan Davies ar farwolaeth ei chyfnither, Margaret Gallon.

I orffen diolchodd Susan am y croeso twymgalon, am y te hyfryd ac am brynhawn bendigedig. Mae'n galonogol i weld llwyddiant mewn busnes ac yn arbennig yn yr oes sydd ohoni. Mae'r ddwy 'ma i'w hedmygu am eu mentergarwch a phob lwc a llwyddiant iddynt i'r dyfodol.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 24ain pan edrychwn ymlaen i groesawu Delyth Robinson i siarad a chyflwyno sebon 'Mootifull' i ni. Croeso cynnes i bawb.



Aelodau'r gangen yng nghwmni Olive

Cangen Hendygywyn

Cyfarfu Merched y Wawr Hendygywyn yng Nghanolfan Hywel Dda ar Hydref 18fed. Teifryn Williams o Aberdaugleddau oedd ein gŵr gwadd a threiliom orig ddifyr iawn yn gwrandao arno'n siarad am ei deithiau yn seiclo yn Llydaw a Sbaen. Mae'n debyg taw llyfrau teithio Ambrose Bebb a'i hysbrydolodd i fentro ar ei deithiau. Anne James oedd yn llywyddu'r prynhawn a diolchodd yn gynnes iawn iddo. Casglodd ein trysorydd, Ann Glanville, ein tâl aelodaeth am eleni a braf oedd gweld bod 23 ohonom wedi ymaelodi.

Roedd Mefin ac Eilir wedi paratoi pancws a bara brith i ni fwynhau 'da'n te a Yvonne a Angharad enillodd y raffl. Bydd y cyfarfod nesa ar Tachwedd 15fed. pan fydd Owenna Davies, Llywydd Rhanbarth Ceredigion, yn dangos y ffilm 'Gwlan, gwlan, gwlan' i ni.

◇◇◇◇

Pleser pur oedd croesawu Owenna Davies, Llywydd Rhanbarth Ceredigion fel gwraig wadd ein cyfarfod mis Tachwedd. Bu'n sôn am yr hyn a'u sbardunodd i wneud

cais am gymorthdal loteri i ariannu gwneud ffilm am hanes y diwydiant gwlan yng Ngheredigion ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron eleni. Buon nhw'n ddigon lwcus i gael £10,000 ac fe wahoddwyd pob cangen yng Ngheredigion i gymryd rhan. Y canlyniad oedd 'Gwlan, gwlan, gwlan' ac fe dreulion ni hanner awr ddifyr iawn yn gwylio cynnyrch eu llafur.

Diolchodd Margarette yn gynnes iawn iddi ar ran yr aelodau ac yna, dros gwpanaid o de a chacennau a baratowyd gan Ann Lewis a Rose Saer, llongyfarchodd Margarette, Rose ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed yn ddiweddar ac hefyd ar Briodas Ddiemwnt Elgar a hithau.

Dymunwyd gwellhad buan i Mefin a Doreen a dosbarthwyd llyfrau raffl Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri flwyddyn nesa'.

Bu Ann Glanville yn fisi yn gwerthu cardiau Nadolig a dyddiaduron y Mudiad ac enillwyd y raffl gan Gwyneth Davies.

Ein cinio Nadolig fydd ein cyfarfod nesa' ar Ragfyr 13eg, yn Hen Ysgol y Board yn Sancler am 12.30. Bydd y ceir yn gadael maes parcio Hywel Dda am 12 o'r gloch.



TORTH CIG TWRCI

Cynhwysion

12 owns o gig twrci wedi ei falu
3 owns o friwsion bara
1 winwsin wedi ei dorri'n fân
1 llwy de o saws 'Worcester'
1 wy wedi ei guro
½ llwy de o 'herbs' cymysg
Halen a phupur.

Dull

Cymysgwch y cyfan a'i bobi mewn tun bara am 1 ½ awr.

CORLAN AR Y LLWYFAN



Ar nos Fowrth y 25ain o Hydref cafodd criw Corlan y pleser a'r fraint o gael mynd i'r Mwldan, Aberteifi, i fod yn rhan o gynhyrchiad 'Y Tylwyth' gan y dramodydd amryddawn Daf James. Cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr y Sherman oedd hwn, oedd i fod i gael ei gynnal yng Ngwanwyn 2020, ond daeth Covid i darfu ar hynny wrth gwrs. Roedd yn anodd credu bod 12 mlynedd wedi mynd heib ers i Corlan gymryd rhan yn nrama 'Y Llwyth' sef rhagflaenydd i'r 'Tylwyth'.

Roedd ymateb y gynulleidfa ar y diwedd yn adrodd cyfrolau am safon y perfformiad. Braff iawn i ni oedd gweld Daniel Jones o Landysilio, sy'n gymysgwr sain heb ei ail erbyn hyn, yn rhan mor bwysig o'r cynhyrchiad. Pob llwyddiant iddo.

Diolch i Daf James am y cyfle i gael bod yn rhan o'r perfformiad arbennig hwn ac i Arwel a Twm am ofalu amdanon ni. Ar ôl bennu canu, roedd chwant bwyd ar bawb, felly draw â ni am bryd blasus yn Abdul's cyn troi sha thre.

Mae Corlan yn ymarfer ar nos Lun yn neuadd Ysgol Bro Brynach, Llanboidy ac rydym yn chwilio am aelodau newydd. Os oes diddordeb gyda chi mewn ymuno, cysylltwch â'n harweinyddes, Ceirios Jenner ar 077736 75207.

Côr Corlan

Bydd y côr yn mynd o amgylch pentref Llanboidy i ganu carolau ar Nos Lun, Rhagfyr 19eg gan gychwyn ar y sgwâr am 7 o'r gloch.



Cylchfan Heol Llanboidy, Hendygywn

Agor bob dydd o 8y.b. - 10y.h.

Brecwast, cinio a bwyd gyda'r nos

Arlwyo ar gyfer unrhyw achlysur arbennig

Ffôn: 01994 241193

GAREJ WYN CYF

Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG



MOT

Gwasanaeth • Atgyweirio
Teiars • Batris

Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853



AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00

MASNACHWYR ADEILADU

Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr

Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

Yr anrheg delfrydol - y rhodd o fywyd

Mae'r Nadolig yn agoshau a byddwn ni'n mynd ati gered i geisio prynu'r anrheg delfrydol i aelodau o'r teulu a ffrindiau dros yr wythnosau nesaf.

Beth am roi rhodd gwahanol, ond rhodd arbennig iawn yn y cyfnod yn arwain lan i'r Nadolig eleni, neu hyd yn oed addunedu i roi rhodd arbennig yn y flwyddyn newydd?

Y rhodd rwy'n son amdano wrth gwrs yw rhoi gwaed. Mae wastod galw mawr am gyflenwadau gwaed er mwyn galluogi llawfeddygfon i gwblhau llawdriniaethau hanfodol ar gleifion. Rhoddir trallwysiaidau gwaed hefyd i bobol sydd yn dioddef o salwch megis leukaemia neu anaemia neu wedi dioddef anafiadau difrifol mewn damweiniau.

A wyddoch chi taw dim ond 2% o'r boblogaeth sy'n cyfrannu gwaed yn rheolaidd? Meddyliwch o ddifrif am hyn, dim ond 2%. Os yw rhoi yn eich gwaed, apeliaf arnoch i ymweld a gwefan Gwasanaeth Gwaed Cymru, er mwyn trefnu apwyntiad mewn canolfan leol, cyn gynted a phosib.

Mae'n broses syml iawn, sy'n cymryd tua hanner awr o'ch amser. Falle bod hanner awr yn swno'n amser hir pan mae gymaint o bethau i'w gwneud, ond wrth gyfrannu uned o waed, rydych yn rhoi y rhodd o fywyd i bobol sydd wir mewn angen.



Ces i'r fraint o gyfrannu fy 165ed uned o waed yn San Cler yn ddiweddar – a gwneud hynny wrth eistedd gerllaw Rebecca Lee-Phillips o Lanboidy, oedd yn gwneud hynny am yr ail waith.

Fe wnes i holi Rebecca pam neu sut ddechreuodd hi rhoi gwaed a dyma ddywedodd :- “ Ces i dipyn o sioc sbel fach nol i ddeall taw dim ond tua 2% o'r

boblogaeth sy'n rhoi gwaed. Nid oeddwn yn teimlo'n gyfforddus ynglyn a hyn, felly es ati'n syth i wneud apwyntiad.” Gobeitho bydd llawer ohonom yn dilyn esiampl Rebecca dros yr wythnosau nesaf. Dyma restr o'r sesiynau gwaed lleol, o nawr tan ddiwedd mis Ionawr :-

Caerfyrddin – Rhagfyr 14eg a Ionawr 3ydd.

Aberteifi – Ionawr 17eg

Arberth – Ionawr 19eg

Hendy Gwyn – Ionawr 25ain

Colofn Garddio *gan W John Davies*

Rwy'n eistedd lawr i ysgrifennu yng nghanol mis Tachwedd, diwrnod braf heulog ar ôl noswaith o law trwm. Rwy'n gwerthfawrogi'r glaw ar ôl profi'r flwyddyn sychaf erioed, ers dechrau'r Ail Ryfel Byd - profiad a wnaeth i mi sylweddoli gwerth glaw, a dŵr yn gyffredinol. Heb law ni fydd unrhyw fywyd, yn cynnwys bywyd gwyllt, sydd yn siŵr yn fwy pwysig i'n hamgylchedd na dim arall. Mae'n hollol debyg fod hyd yn oed morgrug yn cyfrannu rhan helaeth i gadw ein bywydau i fynd yn ei flaen. Mae'n siŵr fod y pridd yn ein gerddi hefyd yn ddi-ffrwyth heb ddŵr glaw bob amser o'r flwyddyn. Mae eleni ar gyfartaledd wedi bod yn flwyddyn odidog i'r garddwyr brwd, a gyda gofal, fe gefais rhai o'r cnydau gorau a welais gydol fy mywyd, yn enwedig letys, sydd yn dal i dyfu nawr tu allan. Mae'r betys a'r moron wedi bod yn anhygoel a'r peth gorau yn awr, os oes gennych rai ar ôl yn tyfu tu allan, yw eu codi a'u clau. Bydd y moron yn cadw'n iawn hyd fydd eu heisiau yn ystod y gaeaf. Am y betys, bydda nhw yn ddigon hapus allan, oherwydd mae gofyn cael rhew caled iawn i'w difetha ac os bydd ambell un ar ôl yn y gwanwyn, fydd y dail ffres cyntaf yn dderbyniol iawn mewn salad.

Rhai blynnyddoedd yn ôl, roeddwn yn golchi'r llwybr o amgylch y tŷ drwy ddefnyddio diheintydd cryf i'w

lanhau. Roedd hwn yn rhedeg bant o'r llwybr dros forder lle'r oedd amryw o goedach a blodau yn tyfu. Roedd hwn mor gryf a dylai fod wedi difa popeth trwy losgi'r gwreiddiau. Ond nid felly y bu a gwnaeth hyn i mi ddechrau meddwl, a dyma ddechrau arbrosi, a wir, ni laddodd y diheintydd hwn yr un planhigyn. Ar ôl tipyn mwy o archwilio, roedd yn amlwg fod bron popeth yn tyfu llawer gwell, a'r canlyniad, ar ôl sawl blwyddyn o ymchwil, mae'n llesol iawn i lanhau pridd eich gardd trwy ddefnyddio 'Domestos'. Dyma'r drefn - ychwanegwch chwe llawn llwy ford o 'domestos' i bob galwyn o ddŵr, yna chwistrellwch bum galwyn o hwn i bob llathen sgwâr o bridd er mwyn ei lanhau a gwnewch hyn ar ôl palu, unrhyw amser sych yn y gaeaf.

Yn bersonol, rwyf yn hau hadau mân, ddeg diwrnod ar ôl y driniaeth, a hyd yn awr, heb ofidio a methu. Rwy'n falch i ddweud fod hyn wedi cael gwared ar y 'Carrot fly' yn gyfan gwbl, ac am ryw reswm, mae nifer y mwydon wedi cynyddu, ac maent i weld yn gryfach. Mae hyn yn ddigon i mi fod yn hapus fod gennyf bridd iachus ar raddfa fechan yr ardd acw.

*Nadolig hapus a blwyddyn newydd dda
i'r darllenwyr i gyd.*

GELLYWEN

Pleser anfon dymuniade gorau i ddau o hen ddisgyblion ysgol Cwmbach a fydd yn dathlu eu pen blwydd yn 80 oed y mis hwn. Eric Hughes, (Ec Boars Head Gellywen) a David Evans, (Dai Glyn Elwyn, Blaenwaun, yna Dai Rhydyceisiaid ac yn awr Dai Llanllwch) yw'r ddau. Wedi gadael ysgol bu'r ddau yn gwasanaethu ar wahanol ffermydd am ychydig cyn symud ymlaen i fod yn yrrwyr loris drwy weddill eu bywyd cyflogedig.

Dymunwn gwell iechyd i'r ddau yn y dyfodol oherwydd maent wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar ac felly gobeithio caiff y ddau amser i'w gofio yn ystod y mis.

Mae llawer o ddisgyblion y pedwardege wedi, ac ar fin dathlu yr achlysur hwn a dymuniade gorau iddynt i gyd pan ddaw'r diwrnod mawr. Ond hefyd gwaetha'r modd mae llawer un wedi ein gadael yn llawer rhy fuan. Cofion hiraethus amdanynt i gyd.

Cynhaliwyd ein oedfa ddiolchgarwch yn Aionon ar Hydref 4ydd o dan arweiniad y Parch Emyr Gwyn Evans a chafwyd casgliad swmpus fydd yn cael ei drosglwyddo at achos Parkinsons. Diolch i bawb am eu cyfraniade.

Gobeithio erbyn byddwch yn darllen hwn y bydd Phyllis Hughes, sef gwraig Eric wedi cael gwellhad llwyr ar ôl treulio rhai wythnosau yn yr ysbyty o dan oruchwyliaeth ac y bydd hefyd wedi derbyn unrhyw driniaeth anghenrheidiol.

Nadolig llawen a Blwyddyn newydd dda i bawb wrth pawb yn Aionon.

MEIDRIM

Henoed

Cwrdd Diolchgarwch oedd ein cyfarfod diwetha dan arweiniad y Parch. Wyn Maskell. Cawsom wybod ganddo am wir ystyr "diolchgarwch" a sut y dylem fod yn ddiolchgar am bopeth yn ein bywydau. Diolchwyd iddo gan Glen Lewis. Casglwyd £120 i ysbyty Arch Noa.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Rhagfyr 6ed. Cawn ddarlleniadau a charolau cyn cael te parti. Gofynnir i bawb i ddod ag anrheg i sach Santa ac hefyd eitem bwrpasol o fwyd ar gyfer y parti.

PENYBONT



Cynhaliwyd gwasanaeth Ddiolchgarwch yng nghapel Penybont. Diolch i'r aelodau gymerodd ran a diolch hefyd i'r Parch Eirian Wyn Lewis am ei neges.

C.Ff.I.

Eisteddfod



Bu'n Eisteddfod lwyddiannus i C.Ff.I. Penybont. Enillwyd Tarian Mr T Davies Blaenteg, am y marciau uchaf yn yr adran lwyfan a chipiwyd yr ail safle yn y darian gwaith cartref. Llongyfarchiadau i'r holl aelodau.

Unawd dan 16 - Celyn Richards 1af
 Unawd dan 28 - Daniel O'Callaghan 1af
 Unawd Alaw Werin - Celyn Richards 1af, Daniel O'Callaghan 2il, Hannah Richards 3ydd
 Canu Emyr - Hannah Richards 2il, Daniel O'Callaghan 3ydd.
 Unawd Offerynnol - Daniel O'Callaghan 1af
 Deuawd - Hannah a Celyn Richards 1af
 Unawd Sioe Gerdd - Daniel O'Callaghan 1af, Hannah Richards 3ydd

C J Waste cyf.

Carl Britton
 01994 238367
 07506 482007
 cjwasteltd@yahoo.com



Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
 Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
 J. K. Lewis a'i Fab
 Glandy Cross.

SPAR

Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol,
 Gwin a Chwrrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy,
 Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar
 unrhyw achlysur.

Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.
 Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.

Ffôn: 01994 419230



G WILLIAMS
 a'i FEIBION

Monumental Masons

SEIRI MEINI COFFA

Pentre Yard

San Clêr

Ffôn: (01994) 231390



Ensemble - 2il
 Parti Deulais - 1af
 Côr - 1af
 Llefaru dan 16 - Olwen Roberts 3ydd
 Llefaru dan 28 - Daniel O'Callaghan 2il
 Parti Llefaru - 1af
 Cyflwyniad Dramatig - 1af
 Triawd Doniol - 1af
 Stori a Sain - Carwyn Jones a Mared Evans - 1af
 Dawnsio Gwerin - 1af

Gwaith Cartref

Y Gadair - Daniel O'Callaghan 3ydd
 Cystadleuaeth i aelodau 16 neu iau - Celyn Richards 1af
 Cystadleuaeth i aelodau 21 neu iau - Celyn Richards 1af
 Brawddeg - Lleu Pryce 3ydd

Llongyfarchiadau hefyd i aelodau'r clwb a fu'n cystadlu yn y gystadleuaeth Wyn ar y bachyn.

Llongyfarchiadau arbennig i Elan Thomas am ddod yn 3ydd yn yr adran dan 18 mlwydd oed ac i Gilbert Roberts am ddod yn 3ydd yn yr adran dan 16.

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y clwb nos Lun, y 7fed o Dachwedd. Codwyd £155 tuag at Fanc Bwyd Caerfyrddin.

RHYDWILYM

Diolch i'r Parch. Judith Morris am ei gwasanaeth mewn Oedfa Gymun ar Dachwedd 13eg.

Rhagfyr

4ydd: 10.30 (Cymun) - Lyndon Lloyd
 18fed: 10.30 - Cyfarfod Nadolig yng ngofal yr aelodau.

Yr ydym yn falch i glywed fod Brian Llewelyn adref, ac yn gwella ar ôl treulio peth amser yn yr ysbyty.

Estynwn ein cydymdeimlad gyda theulu Myfanwy James o Langendeirne. Yr oeddwn yn ei hadnabod a'i chofio fel Myfanwy, Glyn Llewelyn, Llanycefn. Cynhaliwyd yr angladd, yn ôl ei dymuniad, yn y fynwent yn Rhydwilym gyda'r Parchedig Eirian Wyn Lewis yn gwasanaethu.

Yn ystod mis Hydref gwnaeth Sian Bryan sgipio 100 waith pob dydd, er mwyn codi ymwybyddiaeth ac arian ar gyfer elusen Ymchwil Cancr. Bydd Sian yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniad at yr elusen.

Dymuniadau da i bawb yn ystod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

HENLLANFALLTEG

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Elen Mai Gibbin, Fferm Drefach, Henllan-fallteg ar dderbyn LLB yn y Gyfraith a Ffrangeg gydag Anrhydedd Dosbarth Cyntaf. Cynhaliwyd y seremoni yn ystod yr haf er iddi raddio'r flwyddyn cynt.

Ar hyn o bryd mae Elen yn byw yn Saint Omer,

Ffrainc ac yn gweithio fel cynorthwydd iaith yn y 'lycée'. Cyfle euraidd i ymarfer y Ffrangeg.

CWMFELIN MYNACH

Ramoth

Ar Sul, Tachwedd 13eg cafwyd gwasanaeth Cy-mundeb dan ofal y Parchg Ken Thomas. Diolch iddo am lenwi'r bwlch ar Sul y Cofio.

Rhagfyr

11eg: Oedfa dan ofal y Parchg. Huw George - 2.00
 18fed: Cwrdd Nadolig am 10.30.

Ionawr

8fed: Oedfa Gymun - Y Parchg Huw George - 2.00

Ar Dachwedd 8fed bu Wyn Evans yng nghyfarfod hanner-blyneddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion a gynhaliwyd yn Seion, Llangadog.

Mae Rhoswen Llewellyn wedi dod adref o'r ysbyty ac yn derbyn gofal. Dymunwn yn dda iddi yn ei salwch.

Llyfrau Llafar Cymru. Mae Susan Davies yn un o'r tîm sy'n darllen 'Y Cardi Bach' yn fisol ar gyfer y deil-lion neu pobl sydd a nam ar eu golwg. Gwerthfawrogi'r gwasanaeth yn fawr gan y rhai sy'n ei dderbyn.

Penblwydd Hapus i Brian John, Rose Cottage a fydd yn dathlu ei benblwydd yn 70 ar Ionawr 20fed.

Rhys Jones
Glanhau Simnai

Glanhau Simneiau • Cynnal a Chadw
 Arolygiad Teledu Cylch Cyfyng
 Tynnu nythod adar • Gwiriadau diogelwch
 Gosod larymau Carbon Monocsid
 Gwasanaethu/atgyweirio stôffiau a lleoedd tân
 Yswiriant a chymhwysiaid llawn

☎ 07554 647544
www.rhysjoneschimneysweeping.co.uk

AM Y DEWIS GORAU
 GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
 Y Farchnad, Caerfyrddin

Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy

Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen

GWASANAETH DOSBARTHU
 AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni

Ffôn: 01437 563228
 Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe,
 Clunderwen. SA66 7NP

BANCYFELIN

Capeli Cana a Bancyfelin



Aelodau'r Ysgol Sul yn ymweld a'r Banc Bwyd

Capeli Cana a Bancyfelin



Llawenydd mawr i bawb oedd derbyn tri aelod newydd yng Nghapel Cana ac un aelod newydd yng Nghapel

Ymunodd nifer o aelodau Capeli Cana a Bancyfelin mewn cinio dydd Sul hyfryd yn Y New Cross Inn, Dryslwyn. Mwynhawyd pryd blasus tu hwnt gan deulu'r Blakeman. Nid ar chwarae bach mae bwydo 50 o aelodau llwglyd! Ac yn dilyn y ginio, mwynhawyd cyfle i ganu sawl emyn adnabyddus i gyfeiliant Heather Williams ar y piano. Prynhawn llawn hwyl. Diolch yn fawr iawn i Mari Jones ac aelodau Cana am drefnu.

Cana

Aeth aelodau o Ysgol Sul Capel Cana ar ymweliad â Banc Bwyd Caerfyrddin yn ddiweddar. Yn dilyn eu casgliad o fwyd i'r banc bwyd yn y cyrddau diolchgarwch, braf oedd gweld y broses o dderbyn, paratoi pecynau a dosbarthu'r bwyd. . Diolch yn fawr iawn am y croeso.



Bancyfelin yn ystod y mis. Mae rhain yn ychwanegol i'r naw aelod a dderbyniwyd yng Nghapel Y Priordy, Caerfyrddin sydd hefyd yn rhan o'r un ofalaeth o eglwysi. Testun llawenydd a diolch yn wir. Pob bendith i'r aelodau newydd.

arwyddion eaglesigns

Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau...

01994 231749

post@eaglesigns-wales.co.uk

www.eaglesigns-wales.co.uk

UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

WYN HOWELLS

Dandre Llanboidy

 Paentiwr ac Addurnwr

Ffôn: 01994 448478

STEVE DANIELL

 **Monraker** 

Plymiwr a gwaith cyffredinol

"Handyman"

 Tir y Bont Llanglydwen HENDY GWYN AR DAF 

Ffôn: 07837 089648

Swper yng Nghaffi'r Mart.

Mwynhaodd rhai o aelodau Bancyfelin a Cana swper hefyd yng Nghaffi Mart Caerfyrddin i godi arian i Apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Chymorth Cristnogol, 'Hadau Gobaith'. Trefnwyd y noson gan eglwysi Dosbarth Myrddin. Daeth dros 50 ynghyd a chafwyd pryd o fwyd blasus tu hwnt a chymdeithas felys o amgylch y byrddau

Gibeon

Cynhaliwyd y Gwasanaeth Diolchgarwch ar fore Sul, Hydref 16eg a braf oedd gweld y capel yn gyffyrddus lawn. Thema'r oedfa oedd adeiladau a bu'r plant yn sôn am eu gwaith yn yr Ysgol Sul yn dysgu am y capel ac am ddameg y ddau dŷ a Iesu'n iachau y claf o'r parlys. Cafwyd dwy gân a ganwyd yn swynol iawn gan y plant. Rhoddodd Beti-Wyn anerchiad byr i'r plant, eto'n sôn am ein diolch am ein cartrefi a'r capel a'r bendithion a dderbyniwn.



Plant yr Ysgol Sul fu'n cymryd rhan yn yr Oedfa Ddiolchgarwch

Cafwyd darlenniadau gan Annalyn, Meirion a Iona a chyfeiliwyd gan Hilary. Cafwyd gair gan y gweinidog, y Parch. Rhodri Glyn Thomas, cyn iddo fedyddio dwy o ferched yr Ysgol Sul, yr efeilliaid, Fern a Daisy Mackay. Braint oedd cael bod yn bresennol ar achlysur bedydd a diolchwn am y llawenydd a'r gobaith mae plant yr Ysgol Sul yn ei gyfrannu i'r Eglwys. Croeso i unrhyw blant ymuno â'r Ysgol Sul ar fore Sul. Cysylltwch â Beti-Wyn James 01994 230966 am fwy o fanylion.



Fern a Daisy Mackay gyda'r Gweinidog yn dilyn eu bedydd

Cynhelir yr Oedfa Nadolig ar Fore Sul, Rhagfyr 18fed am 10.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Pwll Trap

Mae Huw Nicholas yn derbyn triniaeth mewn ysbyty yn Llundain. Dymunwn wellhad buan iddo.

Llongyfarchiadau i Marlene Lewis, Hafan Glyd ar enedi-gaeth gor-wyres, Diana Eleri, merch i Rhodri a Vicky. Llongyfarchiadau, hefyd, i Geraint a Geraldine Phillips, Myddfai, ar enedigaeth wyres fach newydd, Livi.

Bu farw Chris Green o Clos Nathaniel, yn 71 oed, wedi salwch byr. Cydymdeimlwn â'i gŵr a'r teulu ar eu colled.

Bethlehem Newydd

Cafodd Phil Jones, Cwm Teg driniaeth ar ei ddwy lygad yn ystod yr haf. Da deall ei fod wedi gwella'n dda.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Iris Morgan, Gors fach. Roedd yn aelod ffyddlon ym Methlehem Newydd tra roedd ei hiechyd yn caniatáu ac yn weithgar iawn gyda Chymdeithas y Chwiorydd. Cydymdeimlwn â'i merched Ann, Ruth a Meril a'u teuluoedd yn eu hiraeth.

Rosemarie Davies

Cyfrifydd Technegol

Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon

Cyflogau
Hunan Asesiad

Fferm Blaenwaun, Hebron

Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799

Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians



Delwedd
07814 543634

Salon Harddwch a Chyflenwol
Crymch

Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion

POBYDDION
COUNTY STORES

San Clêr

Bara a chacennau ffres yn ddyddiol



Ffôn: 01994 230474

Tŷ Croeso

Yn dilyn y Darllenathon llwyddiannus i godi arian i Llyfrau Llafar Cymru cynhaliwyd swper yn Hen Ysgol y Bord i ychwanegu at yr elw. Daeth Rhian Evans o Llyfrau Llafar Cymru i annerch. Mor belled casglwyd dros £1500 at yr elusen gydag arian yn dal i ddod mewn. Diolch i bawb sydd wedi cefnogi.



Annalyn yn cyflwyno Rhian Evans o Llyfrau Llafar Cymru yn dilyn codi arian yn y Darllenathon a'r swper.



Swper yn Ysgol y Bord i gloi'r Apêl i godi arian at Llyfrau Llafar Cymru.

Ar Ddydd Sadwrn, Rhagfyr 10fed o 2y.p. tan 4 y.p. cynhelir "Gŵyl y Gân – Gŵyl y Geni," sef cyfle i wrando ar yr organ mewn naws Nadoligaidd. Darperir gwin poeth, te neu goffi a mins pei. Croeso cynnes i bawb.

Fe fydd Tŷ Croeso yn cefnogi Apêl Plant Dewi dros yr wythnosau nesaf. Mae'n nhw'n gofyn am offer i fabanod mewn cyflwyr da e.e. buggy, pram, cadair uchel; hefyd

dillad addas i blant o 12 i 18 mis oed. Dydyn nhw ddim am deganau ar hyn o bryd. Os medrwcw gyfrannu a wnewch chi gysylltu â Annalyn, os gwelwch yn dda.

SAN CLER

Dymunwn benblwydd hapus i Ben Evans, The Elms, a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 90 oed ar Hydref 12fed.

Llongyfarchiadau i Glyn a Christine Anthony a fu'n dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

....hefyd i Ffion a Ieuan Evans ar enedigaeth eu merch fach, Cadi Jane.

**Pencampwr Coets Prydain
Llongyfarchiadau**

Pencampwr yng nghystadleuaeth Coets Prydeinig eleni yw **Dorian Thomas** o dîm Cymru sy'n hen ben yn y twrnament erbyn hyn. Cynhaliwyd y gystadleuaeth eleni yn yr Alban yn Stonhaven, a braf oedd gweld

cynifer yn dod ynghyd i chwarae'r gêm hanesyddol.

BLAENWAUN

Cydymdeimlwn â dau deulu yn y pentref gan i Lon Morgan, Cadwyn Aur a Rhonwen Morris, Brynhyfryd golli eu mamau yn ddiweddar. Rydym fel ardal yn meddwl am y ddau deulu.

Moriah: Diolch i'n gweinidog y Parchedig Gareth Ioan am ei wasanaeth ar Sul, 6ed Tachwedd.

Trefn yr oedfaon:

Rhagfyr 4ydd 10.30 oedfa Adfent Parch. Gareth Ioan
Rhagfyr 18fed. 2 o'r gloch Cymun Elonwy Phillips
2023 Ionawr 8fed. 3 o'r gloch Cymun. Parch Gareth Ioan.

 **the LONDON HOUSE** butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygywn ar Daf
SA34 0AN

01994 240705 / 240055

Galwch mewn am y dewis gorau

Dilynwch ni ar Facebook 

 **GERALD BLAIN**
CYMDEITHRION CYF

15 Stryd St Ioan, Hendygywn,
Safon Gaeafydd, SA34 0AN

01994 240 366

GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK

GERALDBLAINASSOCIATES.COM

 @GBAssociates

RUSSELL THOMAS

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR

Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen

Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

LLANGYNIN

Capel y Bryn

Nos Wener, 14eg Hydref, cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Capel Bedyddwyr y Bryn, Llangynin. Dyma'r tro cyntaf i'r aelodau gynnal oedfa yn y capel oddi ar ddechrau 2020 oherwydd y pandemig ac roedd hi'n hyfryd i gael bod yn ôl gyda'n gilydd yn y Bryn unwaith eto, a chael croesawu nifer o gyfeillion o'r pentref i ymuno â ni.

Croesawyd pob un gan y Parch. Huw George, llywydd y noson. Y bregethwraig wadd oedd Annalyn Davies, Swyddog Cymunedol Prosiect Tŷ Croeso Bethlehem Newydd, Pwlltrap, a chafwyd oedfa fendithiol iawn o dan ei harweiniad. Casglwyd tuag at Feddygfa'r Coach and Horses, Sanclêr, oherwydd bod nifer o aelodau'r capel wedi cael triniaeth a gofal arbennig yno yn ddiweddar. Casglwyd y swm anrhydeddus dros ben o £81. Wedi'r oedfa, cafodd pob un gyfle i sgwrsio dros baned, a mwynhau'r cwmni a'r cyfle i gymdeithasu unwaith eto.

Gwellhad buan

Mae sawl un wedi bod yn anhwylus a rhai wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ystod y mis a aeth heibio. Cofiw am Roy Reynolds, Tymore a Gwennie Rees, Cheerio, a dymunwn wellhad buan i Eifiona Lewis, 3 Llyscoed, yn dilyn llawdriniaeth. Dymuniadau gorau hefyd i Rhianon Thomas, 4 Llyscoed, sydd wedi torri'i garddwrn yn dilyn cwmp.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Hefina ac Aled Jones a'r teulu, Ger-y-Bryn, ar farwolaeth tad Hefina yn ddiweddar.

Cofiw hefyd am John Lewis, Maes Mebyd, a Paul a Wendy, Min-yr-Awel, ar farwolaeth perthynas, sef John Lynch o Dalacharn.

Cartref newydd

Pob dymuniad da i Myra Davies, Llain, sydd wedi symud i fyw ym Mryntirion, Pwlltrap. Dymunwn ddyfodol hir a hapus iddi yn ei chartref newydd.

Pen-blwyddi mis Tachwedd a mis Rhagfyr.

Llongyfarchiadau i Glyndwr Davies, Cartref y Garreg Lwyd (Llys Meini gynt), yn 94 oed ar Dachwedd 1afi Jim Martin, Brychan, yn 86 oed ar Dachwedd 27aini Gwennie Rees, Cheerio, yn 89 oed ar Dachwedd 29ain.....

....ac i Mary Davies, Angorfa yn 92 oed ar Ragfyr 7fed. Pen blwydd hapus iawn i'r pedwar ohonynt!

Diolch

Mae Don a Susan Phillips, Gorwelion, am ddiolch o galon i bob un am yr holl gyfarchion, cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur. Gwerthfawrogwyd y cyfan yn fawr iawn.

Clwb 60+

Ar brynhawn Iau gwyntog y 10ed o Dachwedd daeth nifer dda iawn ohonom ynghyd i Neuadd Capel y Bryn i'n cyfarfod misol. Wedi materion busnes ar ddechrau'r cyfarfod, croesawodd Verian Williams y cadeirydd, ein gwystai gwadd sef Mr Bruce Wallace o Bancyfelin sydd wedi ysgrifennu traethodau lawer ar hanes Bancyfelin ac ardal Merthyr yn ystod y ddeugain mlynedd ddiwethaf. Gyda chymorth technoleg cawsom dystiolaeth o'r Bancyfelin a fu, yn amlygu Bancyfelin isaf ac uchaf a'r ffordd A40 yn mynd drwy ganol y pentref.

I gychwyn gwelsom lun o un o anwyliaid Llangynin sef Hetty Williams y Mount a briododd Lyn ac wedi priodi ymgartrefu yn Fferm Pontcowin. Roedd Bancyfelin yn le llawn o weithgaredd a bwrlwm bro yn ei anterth, gyda Chapel Methodistaidd., Ysgol, Ffatri Wlan, Melin Flawd, Siop, Efail, Teiliwr, Garej a Gorsaf Betrol, Tafarn a mwy 'nôl yn y bedwaredd ganrif ar ddeg ac mae llawer o'r adeiladau rhain wedi goroesi hyd heddiw.

Gwelsom luniau o gymeriadau mawr diweddar y pentref hefyd ac yn eu plith Delme Thomas, Mike Phillips, a Jonathan Davies. Cafwyd prynhawn diddorol dros ben a diolchwyd i Bruce am y gwaith trylwyr a gyflawnodd yn yr holl ymchwiliadau a'r cofnodi manwl mae wedi cyflawni ac yn dal i'w cyflawni wrth ymestyn ei ffiniau ymhellach. Gwych a chanmoladwy.

Marian Davies a Vanw Thomas oedd yng ngofal y te ac Ivy Phillips enillodd y raffl. Cinio Nadolig fydd y mis nesaf ar Ragfyr yr 8ed yng Ngwesty'r Savoy yn Sancler. Os nad ydych eisioes wedi archebu lle, croeso i chi gy-sylltu a Mary Phillips ar 01994 448333.

Cyfraniad

Mrs Dorothy Jenkins, Hendygywyn £20
Diolch yn fawr

DH

DAVID HARRIES & Co

CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD

Westgate, West Street,
Hendygywyn ar Daf

Ffôn: 01994 241100

Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

DH

Bysiau Cwm Tâf

"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"

PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH

01994 240 908

www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR

Arbenigwyr yn gysylltu â chi os oes gennych chi unrhyw bryder neu gwestiynau.

- + Gwasanaethu a gysylltu â chi os oes gennych chi unrhyw bryder neu gwestiynau.
- + Gwasanaethu a gysylltu â chi os oes gennych chi unrhyw bryder neu gwestiynau.
- + Gwasanaethu a gysylltu â chi os oes gennych chi unrhyw bryder neu gwestiynau.
- + Gwasanaethu a gysylltu â chi os oes gennych chi unrhyw bryder neu gwestiynau.

01994 240 908 | 01994 240 908

jtl@jtlplymiwr.co.uk | jtl@jtlplymiwr.co.uk

CWM MILES

Capel

Tristwch yw cofnodi bod y capel wedi colli un o'i hael-dau anwylaf, sef Nan Evans, Delfryn, Llanddewi (Ffynnon Iago, Login gynt). Bu farw ar 20fed Hydref. Cynhaliwyd yr angladd ar ddydd Mawrth, 1af o Dachwedd yn Amlogfa Parc Gwyn. Cydymdeimlwn yn fawr â'i brawd Dewi a'r teulu ehangach.

....hefyd â Janet Harries, Spring Cottage a Geraint James, Coedllys ar farwolaeth eu cefnder Robert Benjamin, Raven House, Hendygywn ar daf.

LOGIN

Calfaria.

Oedfaon.

Diolch o galon i Mr Arwel Evans a'r Parchedig Judith Morris am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.

Rhagfyr

4ydd - Lyndon Lloyd Cymun 2 o'r gloch

18fed - Cwrdd Nadolig 10.30 o'r gloch

Ionawr

8fed - Tudur Dylan Jones Cymun 2 o'r gloch

15fed - Sul y Beibl yng Nghapel Glandwr 2 o'r gloch

22ain - Hefin Wyn 10.30 o'r gloch

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad pennaf a diffuant gyda Ann, Janet, Faith, Kelly a'r teulu ar farwolaeth mam, mam yng ngyfraith, mamgu, hen famgu ac hen hen famgu annwyl iawn sef Eiriannydd (Nin) Lewis. Bu Nin farw ar Hydref 28ain a chynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Calfaria Login ar Tachwedd 5ed. Bu Nin yn ffyddlon iawn yng Nghalfaria ar hyd y blynyddoedd. Mae'n gadael bwlch mawr ar ei hôl yng Nghalfaria, o fewn y gymuned ond yn bennaf ymysg ei theulu oedd mor annwyl iddi. Cysgwch yn dawel Nin fach, coffa da amdanoch.

Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Mefin Lewis, sydd wedi bod yn anhwylyd yn ddiweddar.

Hefyd James Morris, wedi iddo dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforys.

Penblwydd hapus

Dymunwn benblwydd hapus hwyr i Mari Brame, Llandre fu'n dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar Tachwedd 19eg, Hywel Llewellyn, (Dancawre gynt) yn 90 oed ar Tachwedd 17eg a Gerwyn Eynon, Penralltffach yn 80 oed ar Rhagfyr 1af.

Penblwydd Arbennig



Pwy fu'n dathlu ei benblwydd yn 80 oed ar Ragfyr 1af?

Dymuniadau gorau a chariad wrth y teulu i gyd.

Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r pwyllgor, ers y Covid, ar nos Fercher, 26ain Hydref. Roedd nifer dda yn bresennol a hyfryd oedd cael ail ddechrau trefnu gweithgareddau.

Pleser oedd ail ddechrau gweithgareddau hyn ar nos Wener, 25ain Tachwedd drwy gynnal noson gymdeithasol "Cwrdd am Glonc". Hyfryd oedd gweld hen wynebau a nifer o rai newydd sydd wedi symud i'r ardal. Cafwyd hwyl yn cymdeithasu, rhywbeth i ni wedi ei golli yn fawr.

Cynhelir noson o ganu carolau ar nos Wener, 23ain Rhagfyr yng Nghapel Cwm Miles am 7.30yh. Bydd y Parchedig Huw George yn arwain a Ceirios Jenner wrth yr organ.

Bydd mins peis a gwîn poeth yn dilyn ar y Ffestri.

Croeso cynnes i bawb. Edrychwn ymlaen yn fawr gan

SPAR 

Jerry Williams a'i Feibion

GROSER a SWYDDFA BOST

 **CLOTH HALL**
LLANBOIDY

Ffôn: 01994 448364 / 448221 

 **Adeiladwyr**
DORIAN PHILLIPS

Crefftwyr o bob math yn y diwydiant adeiladu o hen i newydd

Arbennigwyr mewn ail wneud Capeli, Eglwysi ac Ysguborau

Dolau Gronw, Llanboidy, Hendygywn, Sir Gar. SA34 0EE
Rhif: 01994 448435 Rhif Symudol: 07899 186036
e.bost: dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp **MASNACHWYR ADEILADU**

Plymio - Addurno - Coed - Draeniad Insiwleiddio - Ceginau - Bathrwm A Llawer Mwy!

LLANBOIDY - ARBERTH
01994 448435 - 01834 861118
www.dpbuidingsupplies.co.uk

bod pawb wedi colli'r digwyddiad blynyddol hwn yn fawr iawn. Eleni byddwn yn derbyn eitemau ar gyfer Banc Bwyd lleol. Gwerthfawrognwch eich cyfraniadau ond gwnewch yn siwr bod y bwydydd yn mynd i bara.

Bydd y cinio blynyddol ar nos Wener, 4ydd Chwefror 2023, yng Nghaffi Beca.

Rhagor o fanylion i ddilyn. Unrhyw gwestiwn cysylltwch â'r ysgrifennydd.

Cylch Meithrin Ffynnonwen



Llongyfarchiadau mawr i'r Cylch Meithrin am ddod yn drydydd yng nghategori "Cylch Meithrin y De-Orllewin" yn seremoni gwobrau Mudiad Meithrin 2022. Hysbys da iawn i'r Cylch Meithrin. Diolch am ei gwaith caled.

LLANBOIDY

Chwaeroliaeth Trinity

Cyfarfu'r aelodau yn y festri ar Hydref 19eg o dan lywyddiaeth Wenfys Rees. Cyn cychwyn y cyfarfod, bu'n cydymdeimlo â Delyth Dent ar ôl iddi golli ei mam yng nghyfraith, ac hefyd a Susan Davies ar golli ei chyfneither, roedd yn falch i ddweud fod Marion Davies a Merle Evans adref o'r ysbyty ac yn llawer gwell. Croesawodd y gwestai sef Emyr Phillips sydd wedi ymddiddori yn hanes y Cardi Bach. Gyda chymorth sleidiau bu'n olrhain taith yr hen drên o Hen dy Gwyn i Aberteifi. Diolchodd Dorothy Morris iddo am noson ddiddorol. Cafwyd te a bisgedi wedi eu paratoi gan Anne Lewis a Rose Saer.

Ar Tachwedd 16eg daeth yr aelodau ynghyd i'r festri,

gyda'r llywydd Wenfys Rees yn cydymdeimlo â Ivy Phillips wedi iddi golli ei brawd. Hyfryd oedd croesawu Merle a Marion i'r cyfarfod. Croesawodd Wenfys y gwestai sef Janet Harries, a rhoddodd arddangosfa goginio ac addurno cacenau ar gyfer y Nadolig. Rhoddodd gacen Nadolig i'w rafflo, gyda Merle yn lwcus i'w hennill. Diolchodd Dorothy i Janet am arddangosfa wrth fodd pawb. Cafwyd te a bisgedi wedi eu paratoi gan Myfanwy Thomas a Marion Davies.



Janet Harries gyda aelodau'r Chwaeroliaeth

Penblwydd hapus yn 40 oed



Roedd un o aelodau y capel sef Sarah Jones, yn dathlu ei phenblwydd yn 40 yn ddiweddar. Pob dymuniad da wrth pawb yn y capel.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bob un wrth pawb yn y Trinity Llanboidy.

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Legin
Hen Dy Gwyn ar Daf
Ffôn. 01437 563300

IFAN DAVIES
Saer Coed

Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469

W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU

Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

Sefydliad y Merched

Daeth aelodau Grŵp Rebecca ynghyd yng Nghaffi Beca ar Hydref 8fed i gymdeithasu a mwynhau te wedi ei paratoi gan Robert a'r staff. Roedd cwis i'r merched gan Carwen Earles. Diolchodd y llywydd, Jan Griffiths i bawb am eu cefnogaeth a cafwyd prynhawn hyfryd.

Ar Hydref 13eg, cyfarfu'r aelodau yn Neuadd y Farchnad o dan lywyddiaeth Denise Harris. Croesawodd y gwesteion, sef Lynne a Davina Watson. Gyda'r ddwy wedi gwisgo mewn gwisgoedd Fictorianaid, buont yn rhoi hanes y cyfnod, a diolchodd Denise iddynt am noson ddiddorol. I gloi'r noson chwaraeodd yr aelodau gêm Kim's a'r enillydd oedd Jayne Evans.

Ar Dachwedd 8fed cafwyd cyfarfod blynyddol y mudiad gyda'r swyddogion newydd yn cael ei hethol - Llywydd - Denise Harris, Ysgrifennydd - Jan Griffiths, Trysorydd - Valerie Dixon, Ysgrifennydd Rhaglen - Gwen Collard, Ysgrifennydd Cadw Cofnodion - Chris Murrell. Paratowyd bwffe i ddilyn gan yr aelodau, ac enillydd y gystadleuaeth am y gwiniadur pertaf oedd Norah Heseltine.

Cydymdeimlwn

Cydymdeimlwn ag Ivy Phillips a'r teulu ar ôl iddi golli ei brawd yn ddiweddar.

Ennill Medal Aur

Llongyfarchiadau i **Morgan Batten**, Wern, Llanboidy a gafodd ei ddewis i daflu'r waywffon i dîm Cymru yng nghystadleuaeth Athletau Rhyn-gwladol o dan 20 a gynhaliwyd yn Abertawe ar 17eg o Awst.



Bu Morgan hefyd yn cystadlu ym Mhencampwriaethau Cymru yng Nghasnewydd y penwythnos cynt, lle enillodd fedal aur.



Mae Morgan wedi bod yn taflu'r waywffon i Glwb Athletau Harriers Caerfyrddin ers iddo fod yn 9 oed, dan hyfforddiant Ralph ac Alison Siggery. Mae bellach wedi mynd i Brifysgol yn America i astudio Busnes a pharhau â'i hyfforddiant taflu gwaywffon.

Dymuniadau gorau i'r dyfodol



Neuadd y Farchnad Llanboidy

Ffair Nadolig

Rhagfyr 9fed 2022
am 7 y.h.

Plant Ysgol Bro Brynach

Raffl, Cacennau, Twba Iwcus

Stondin poteli, Mêl, Crefftau

Mynediad:

Oedolion £2 / Plant am ddim

Elw tuag at gynnal a chadw'r neuadd

FFILM LLANBOIDY

Yn dangos

Ffilm ELF

Prynhawn Sul,

Rhagfyr 11eg

£2 yn cynnwys lluniaeth

amser i ddilyn



GWASANAETH CEIR HENDYGWYN

Canolfan
atgyweirio ceir



Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb

Dai James - Steven Owens

Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r
Ffynnon, Hendygywyn ar Daf

01994 240230 / 07972 725193

SIOP SIAN CRYMYCH



Crefftau Cymreig

Gemwaith Rhiannon

Crisial Brenhinol Cymru

Crefftau Lleol

Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau

Crymch, SA41 3QF

FFÔN: 01239 831230



- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus

- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
 - Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
 - Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
 - Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn
- 1 Prospect Place, Crymch, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

HENDYGWYN AR DAF

Tabernacl

Dyweddodd rhywun fod gweithio dros Gristnogaeth yng Nghymru heddiw fel ceisio tyfu bresych mewn concrit! Braf felly yw rhannu ychydig o newyddion llawen wrth i ni dderbyn saith aelod newydd yn y Tabernacl, Hendy-gwyn yn ddiweddar. A hyn ar ôl i ni fod yn gweddïo yn gyson y misoedd diwethaf yma am i aelodau newydd ymuno gyda ni.

Mae Bleddyn, Jonathan a Geraint yn blant yr Ysgol Sul. Mae'r tri yn byw yn yr ardal ac yn cyfrannu yn fawr yn lleol yn eu gwahanol feysydd. Merch o Lanybydder ac o gapel Aberduar yw Hedydd. Mae'n briod â Jonathan ac mae wedi setlo yn ardderchog yn Hendy-gwyn. Un o famau cefnogol yr Ysgol Sul yw Sophie ac mae'n gweithio yn yr Ysgol Gynradd leol. Un o blant y capel yw Mai Giles hefyd. Mae'n gweithio ym myd addysg ac mae'r teulu wedi dychwelyd i'r ardal ar ôl byw yng Nghaerdydd am nifer o flynyddoedd. Mae Phil yn byw ac yn gweithio yn Hendy-gwyn ac yn ymuno gyda gweddïll y teulu sydd yn aelodau yn barod.



Derbyn 7 aelod newydd - o'r chwith, Bleddyn Thomas, Jonathan Thomas, Hedydd Thomas, Sophie Oepfen, Geraint Phillips, Mai Giles a Phil Davies.

Hefyd fe gafwyd arwydd newydd o flaen y capel yn ddiweddar. Rhoddwyd yr arwydd er cof am John a Margaret James, Dyffryn Taf, Pengawse. Bu'r ddau yn weithgar yn y Tabernacl ar hyd y blynyddoedd gyda John James yn ysgrifennydd y capel am bron i ugain mlynedd rhwng 1982 a 2001. Ac mae'r chwe phlentyn sef Meurig, Meryl,

Meirion, Meinir, Menna a Mair yn parhau gyda chysylltiad â'r capel. Gwnaethpwyd yr arwydd yn gelfydd iawn gan gwmni Boomerang, Crymbych. Ar geiriau pwysicaf ar yr arwydd yw 'Croeso cynnes i bawb'.



Arwydd newydd i'r capel.

Trist yw cofnodi i ni golli aelod yn ystod mis Hydref sef Mr. Robert Benjamin. Fe rhoddodd Robert oes o wasanaeth i Glwb Rygbi a Chlwb Criced Hendy-gwyn ac fe welir ei eisiau yn fawr yn y clybiau yma. Rydym yn cydymdeimlo yn ddifffuant gyda Ann-Marie, Gethin a Sion yn eu galar.



Ken Rees a Heather Jenkins, cadeirydd cymdeithas y capel

Mae Cymdeithas y capel yn parhau i gyfarfod unwaith y mis a'r gŵr gwadd yn mis Tachwedd oedd Mr Ken Rees, Hendy-gwyn. Cafwyd prynhawn diddorol iawn yn ei gwmni pan roddodd hanes sefydlu Canolfan Hywel Dda yn Hendy-gwyn. Cafwyd hefyd llawer o wybodaeth ddiddorol am Hywel Dda ei hunan a'r cyfreithiau a luniodd.

FFENESTRI/
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, Pŵl
YSTAFELLOEDD GWYDR
A GWTERI
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587

Caffi Beca
Oriau Agor 9.00yb-2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
01994
419735

WYN'S TYRES
BRECIU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol
a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

Mrs Morfydd Price, Hendygywn

Dymuna Haulwen a Howie Roberts a theulu Llwyn-drissi ddiolch i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau a phob arwydd o gydymdeimlad caredig a ddangoswyd iddynt yn ystod eu profedigaeth yn ddiweddar. Diolch i bawb a oedd yn bresennol yn angladd urddasol Morfydd yng Nghapel Carfan. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad y teulu agos a'r cleirigwyr a gymerodd rhan: Parchedigion Hywel Brown, Nigel Griffin, Kingsley Taylor a Guto Llywelyn. Roedd eu geiriau o gysur yn arbennig iawn. Diolch o galon hefyd i'r organyddes Mrs Sheila Brown, ffrind agos i'r teulu, ac i Mr Ken a Mrs Lynys Davies am eu gwaith proffesiynol ac ystyrlon ynghyd â'u caredigrwydd.

Diolch arbennig i staff Cartref Gofal Waungron am y gofal ardderchog a thrylwyr a dderbyniodd Morfydd yno trwy gydol yr amser y bu yno. Bendith arnoch. Diolch yn fawr.

Cylch Meithrin Hywel Dda

Llwyddiant i'r Cylch

Yn ystod mis Hydref cynhaliwyd Seremoni Wobrwyo flynyddol arbennig Mudiad Meithrin yn y Drenwydd. Seremoni yw hon a gynhelir yn flynyddol i wobrwyo a chlodfori'r holl waith da mae'r staff a gwirfoddolwyr yn ei gyflawni ar lawr gwlad yn ein Cylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Dydd.

Daeth llwyddiant eto eleni i Gylch Meithrin Hywel Dda. Ar ol dod yn ail neu'n drydydd am sawl blwyddyn yng nghategori Dewin a Doti, daeth Cylch Meithrin Hywel Dda i'r brig eleni gan ennill y wobwr gyntaf.



Llwyddod y Cylch i ddangos sut mae Dewin a Doti (sef cymeriadau y Mudiad) yn chwarae rôl ganolog mewn annog defnydd iaith o fewn y Cylch Meithrin; Sut mae Dewin a Doti yn cael eu plethu mewn i weithgareddau dyddiol y Cylch Meithrin e.e. bwrdd emosiynau, ymarfer corff, amser snac; defnydd creadigol o Dewin a Doti sydd uwchlaw gweithgareddau dyddiol y Cylch Meithrin;

Manteisio ar ddigwyddiadau cenedlaethol i gael defnydd pellach o Dewin a Doti e.e. parti pyjamas, parti pen-blwydd Dewin a Doti. Dyma ond ychydig o engreiffiau o sut mae'r Cylch yn defnyddio Dewin a Doti a phaham felly y maent mor haeddiannol o'r wobwr gyntaf.

Balchder mawr i'r Cylch hefyd oedd bod Jayne Williams, yr arweinydd wedi dod yn ail yng Nghategori Arweinydd Cylch Meithrin. Mae pawb sydd ynglwm a'r Cylch, yn riant neu'n aelod o'r gymuned yn Hendygywn yn gwybod am y gwaith arbennig mae Jayne yn ei gyflawni ac yr ydym oll yn ei llongyfarch yn fawr iawn ac yn gwybod ei bod yn haeddu pob clod a chanmoliaeth.

Llongyfarchiadau mawr iawn i ti Jayne ac i'r Cylch, yn staff a Phwyllgor ar eich llwyddiant.

Siop y Co-op yn cefnogi'r Mudiad Meithrin



Mae Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi Hywel Dda yn gofyn, yn garedig, i gwsmeriaid y Co op i gefnogi eu hachos trwy gofrestru eu cardiau aelodaeth ar y wefan coop.co.uk neu trwy ffonio 0800 023 4708 a'u dewis nhw i dderbyn 2% o Gronfa y Gymuned Leol, bob tro y byddant yn siopa yn y Co-op.

Bu rhai o blant y Cylch Meithrin yn ymweld â'r Co-op yn Hendygywn yn ddiweddar ac yn y llun gwelir hwy gyda Helen Ryan, 'local member pioneer' a Jayne Williams, arweinyddes y Cylch.

Mae'r Cylch yn ddiolchgar i'r Co-op a staff ac i bawb yn y gymuned sydd yn eu cefnogi, diolch yn fawr iawn.

Ffair Nadolig



Ar ran pwyllgor Cylch Meithrin Hywel Dda hof-fem ddiolch i bob ston-din ac aelod o'r cyhoedd a ddaeth i gefnogi ein Ffair Nadolig yn y Neuadd Goffa ar nos Fercher Tachwedd 9fed. Rydym yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth barhaus. Bu'n noson arbennig yn codi £700 i'r Cylch Meithrin a Ti a Fi. Mrs Margarette Hughes enillodd hamper bendigedig o London House Butchery Hendygywn yn y raffl.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda wrth pawb yn y Cylch.

Enillwyr Clwb 200 Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi Hywel Dda

Hydref

1af - £40 - Rhif 104 - Myfanwy Chapman
2ail - £20 - Rhif 140 - Sioned c/o Sian Dyer
3ydd - £10 - Rhif 2- Nathan Evans

Tachwedd

1af - £40 - Rhif 28 - Emma Powell
2il - £20 - Rhif 12 - Lyn ac Eleri Lewis
3ydd - £10 - Rhif 40 - Kelly c/o Crystal

Hoelion Wyth - Cangen Hendydwyn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Tachwedd, fel arfer, yn lolfa Clwb Rygbi Hendydwyn pryd daeth nifer dda o aelodau ynghyd. Y siaradwr gwadd oedd y brawd Hefin Wyn o Faenclochog ac estynnwyd croeso cynnes iddo gan y Cadeirydd, Claude James.

Mae Hefin yn Gymro i'r carn ac yn weithgar iawn yn ei fro. Mae'n hanesydd ac wedi ysgrifennu nifer o lyfrau yn cynnwys rhai am gymeriadau'r ardal. Un o'r cymeriadau hynny a gwrthrych ei lyfyr diweddaraf 'Twm Carnabwth' oedd testun ei gyflwyniad. Mae hanes Terfysgoedd Beca (1839) yn enwog ac yn bwysig i'r ardal. Mae'n amlwg fod ymchwil hir a manwl wedi mynd mewn i'r cynnwys sydd o fewn cloriau'r llyfr yma. Cawsom glywed am Twm Carnabwth yn arwain Merched Beca a gan pwy y cafodd fenthyg dillad menywod; ei dorri allan o gapel Bethel, Mynachlogddu oherwydd ei feddwod - a'i dderbyn yn ol ugain mlynedd yn ddiweddarach.

Cafwyd hanes diddorol wedi ei gyflwyno'n hamddenol ac yn llawn hiwmor. Noson ddifys dros ben a diolchwyd i Hefin, ar ran yr aelodau, gan Ithel Parri Roberts.

ENILLWYR CLWB 100 HYWEL DDA

Mis Hydref	Mis Tachwedd
£50 - Ann a Gwyn Lewis.	£50 - Aelona Evans.
£40 - Davies Builders.	£40 - Dai Kirk.
£30 - Wynne Phillips.	£30 - Lisa Hughes.
£20 - Lyn a Marion Davies.	£20 - Dafydd Ebsworth.

LLANDDEWI

Cwrdd Diolchgarwch Bethel



Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Bethel yn ystod mis Hydref. Fe wnaeth cyfeillion o'r eglwys ac o sawl capel arall ymuno gyda ni. Cafwyd oedfa dan ofal y gweinidog ac yna cyfle i gymdeithasu ac i fwynhau y wled oedd wedi cael eu paratoi.

Nadolig Llawen i bob un wrth pawb yn Bethel, Llanddewi

LLANGLYDWEN



Llongyfarchiadau i Tomos Lewis, Lluest, am gael ei ddewis i greu Cadair Eisteddfod Genedlaethol y Ffermwyr Ifanc eleni. Cafwyd noson i gyflwyno'r gadair a'r goron, yng Nghanolfan Hermon ychydig cyn yr Eisteddfod a braf oedd croesawu Cwmni Cware ac Olew Trefin, noddwyr y gadair, a Sasha Davies ar ran cwmni MDS yn Llanfyrnach, noddwyr y goron a wnaed gan y gof

Eifion Thomas. Da iawn Tomos, mae'r Gadair yn hyfryd ac wedi cael canmoliaeth mawr iawn.

Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Cymuned Llanglydwen yn Nhafarn y Bont yn ystod y mis. Cynhelir nosn Tip It ar Ionawr y 13eg i godi arian i Ymatebydd Cyntaf Crymch. Elusen dewisiedig y gymuned.

TRELECH

Penblwydd Hapus iawn yn ddeunaw oed i Mari James, Rhos y Gawnen. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Phil a Beverley Thomas, Treparciau ar golli wyres fach. Roedd Liliwen Iris yn ferch i Rhodri ac Emily, Caerdydd.

Gwellhad buan i Ffion Harries, Bryn Ambor ar ôl derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cafwyd prynhawn coffi llewyrchus ym mis Hydref i godi arian at elusen Clefyd y Siwgr. Trefnwyd y prynhawn gan Mrs Maureen Rees, Blaendewi Fach a Mrs Joy Anthony, Glyn Dewi.

Mae C.Ff.I. Penybont yn cynnal Taith Dractorau Nadoligaidd ar nos Lun 12fed o Ragfyr. Bydd y daith yn dechrau yn Talog am 7yh gan ymweld â Phenybont, Alma a Meidrim cyn gorffen yn Nhrelech. Bydd yr arian â godwyd yn mynd tuag at apel Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2023 Trelech, Meidrim, Talog, Penybont ac Alma.

Nadolg Llawen i drigolion yr ardal gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

Elusen William Davies Plwyf Trelech a'r Betws

YSGOLORIAETH

Mae'r Ymddiriedolwyr yn fuan yn bwriadu dyfarnu ysgoloriaethau y flwyddyn 2022/2023 ar gyfer personau sydd wedi cychwyn ar addysg bellach neu brentisiaeth crefft. Gellir gwneud ceisiadau ar ffurflen osodedig erbyn yr 28ain Chwefror 2023. Gellir cael y ffurflen cais wrth y clerc:

Mrs Liza Jones, Treto Isaf, Trelech, Caerfyrddin, SA33 6SH. 01239 698601 clerc@trelecharbetws.cymru

YSGOLORIAETH

Eleni eto mae Cyngor Cymuned Trelech a'r Betws yn cynnig ysgoloriaeth i'r myfyrwyr hynny sydd yn byw o fewn y gymuned, ac yn dilyn cwrs llawn amser, di-dâl mewn addysg bellach.

Dylai'r cais gynnwys manylion y cwrs, yn ogystal a llythyr gan diwtor y myfyriwr i gadarnhau'r manylion penodol. Bydd yr ysgoloriaeth yn cael ei roi yn mis Mawrth, a bydd rhaid i'r ceisiadau gyrraedd y clerc erbyn 28ain o Chwefror 2023.

Os hoffech unrhyw wybodaeth pellach, cysylltwch â'r clerc sef Mrs Liza Jones (clerc@trelecharbetws.cymru neu 01239 698601).

Capel y Graig, Trelech

Ar nos Fawrth, 18fed o Hydref cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch a phleser oedd cael croesawu'r Parchg Gareth Ioan atom. Diolch iddo am neges bwrpasol ac amserol. Dymunir iddo a'r eglwys o dan ei weinidogaeth pob bendith ar y berthynas newydd yn eu hanes. Ar ôl y gwasanaeth, aethpwyd i Dafarn Beca i gael bwffe blasus. Diolch yn fawr iawn i Dafarn Beca ac i Mrs Alyson Harries am drefnu.



Cwrdd Diolchgarwch

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, bu Mrs Annalyn Davies a'r Parchg Catrin Ann Thomas yn gwasanaethu yng Nghapel y Graig am y tro cyntaf. Diolch iddynt am oedfaon bendithiol a dymuniadau gorau i'r ddwy sydd wedi dechrau ar bennod newydd yn eu hanes yn ddiweddar.

Teithiwyd i Gapel Blaen y coed ar gyfer Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Undebol, Cylch Trelech a Thalog, ar 30ain o Hydref lle bu'r plant a'r bobl ifanc yn cymryd rhan.

Ar 7fed o Dachwedd, cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch gan y plant a'r bobl ifanc gyda Chymun yn dilyn. Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gymryd rhan a chyfrannu nwyddau tuag at Fanc Bwyd Caerfyrddin. Diolch yn fawr i Eirlys Phillips ac Eleri Rees am hyfforddi'r plant ac am gyfeilio.

Rhannwyd casgliad y ddau wasanaeth diolchgarwch rhwng Clefyd y Siwgr Cymru a Tŷ Croeso Bethlehem Newydd.

Braf oedd cael croesawu Ysgol Hafodwenog i gynnal eu Gwasanaeth Diolchgarwch ar bnawn 26ain o Hydref.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau

Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid

Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygywn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED

Plymio a Gwresogi

07792 947227

ebost: hywel Davies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i Gwmni

SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen

Ffôn: 01437 563217

Cafwyd gwasanaeth gydag eitemau amrywiol a graenus ganddynt a bu swyddogion o Feiciau Gwaed Cymru yn sôn wrth y gynulleidfa am eu gwaith yn cludo gwaed. Diolch i bawb fu'n gysylltiedig gyda'r gwasanaeth.

Dyma fydd yn cymryd lle yn ystod yr wythnosau nesaf: Rhagfyr – 4ydd am 7.00 yh Gymanfa Fodern Dathlu 50 Ysgol Hafodwenog; - 11eg, am 10.30 yb neu 1.30 yp Gwasanaeth Nadolig Plant yr Ysgol Sul a'r Bobl Ifanc; - 24ain am 11.30 yh Plygain; Ionawr - 8fed am 1.30 yp Gwasanaeth Cymun Undebol ym Mhen y bont.

Sefydliad y Merched

Fe wnaeth aelodau Sefydliad y Merched Trelech blannu coeden ddraenen wen ym mharc Ysgol Hafodwenog ar ddydd Mawrth, Medi 18fed. Roedd aelodau a chyn aelodau wedi gwneud hyn i ddathlu Jiwbili Platinwm y Frenhines. Hefyd yn bresennol oedd Mrs Helen Bowen a rhai o ddisgyblion Ysgol Hafodwenog.



Yn y llun gwelir Julie Jolliffe a Mrs Ceri Saer (Cadeiryddes)

CLUNDERWEN

Priodas Dda



Llongyfarchiadau i Joe ac Eden Morris a briodwyd yn ddiweddar. Mab Toyo a Sam Morris, Bryn Dewi, ŵyr Kathy Phillips, Central a'r diweddar Eddie.

Llongyfarchiadau i Meinir a Mike Thomas Barah, ar enedigaeth eu ŵyr cyntaf. Mab bach, Alfie, i Rebecca a Matthew Kiff, Hwlfordd.

Diolch

Hoffai Ann Thomas, Clunderwen, a'r teulu, ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad ar ôl colli gŵr, tad, tadcu a hen ddadcu, sef Russell Thomas yn ddiweddar. Bu cymorth a chefnogaeth teulu a ffrindiau o gymorth mawr iddynt dros yr adeg anodd yma. Diolch o galon i bob un.

Diolch hefyd i bawb wnaeth gyfrannu tuag at ein elusennau sef :- Alzheimer's Cymru, Paul Sartori, Nyrsys Arberth a Meddygfa Taf, Hendy Gwyn ar Daf. Gwerthfawrogwn yn fawr y swm o £1000 a dderbyniwyd i'w rannu rhwng y bedair elusen.

Cydyndeimlwn ac Ann, Janet a'u teuluoedd wedi iddynt golli eu mam, sef Eirianydd neu Nin fel oedd pawb yn ei hadnabod. Bu farw yn dawel gyda Ann ym Min-y-ddol, yn 95 oed. Bu'r angladd yng Nghapel Calfaria, Login gyda'r Parch. Eirian Wyn Lewis yn gwasanaethu.

LLANDYSILIO

Graddio



Llongyfarchiadau mawr i Iwan Lewis, mab Colin a Carina Lewis, Danderi, Llandysilio ar dderbyn Gradd Dosbarth 1af gyda Anrhydedd ym mis Hydref o Brifysgol Plymouth. (Bu'n astudio 'e Screenology' ym Mryste o dan Prifysgol Plymouth). Da iawn wir.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau enfawr i un o enwogion y pentref, sef Jess Robinson, merch Julian a Sonia Robinson, Parc y Bryn, ar ennill Cystadleuaeth Cantorion Cymru 2022. Bydd yn cynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Canwr y Byd yn Mehefin 2023. (Llun ar dudalen flaen)



Fe drefnodd Maes gwyliau carafanau Llandysilio, daith feicio elusennol, o Landysilio i Llysyfran er mwyn codi arian tuag at yr uned HDU yn Ysbyty Llwynhelyg. Roedd perchennog un o'r carafanau, sef Brian Baxer wedi cael y gofal gorau bosib yno am chwe wythnos, ond yn drist, bu farw ar 1af o Fehefin. Roedd pawb yno yn ei adnabod fel Santa ac mae mainc coffa iddo yn y maes



carafanau. Codwyd y swm bendigedig o £4738.04 trwy wneud y daith feicio. Diolch i bawb.
Dros y 15eg mlynedd diwethaf, roedd Brian wedi codi llawer o arian tuag at Ysbyty Plant yn Birmingham.



Cyflwyno siec i'r HDU, ysbyty Llwynhelig

Penblwyddi



Penblwydd Hapus i Edith Davies, Brynglas, Llandysilio (gynt o Glasfryn Llanboidy) yn 90 oed ar Ragfyr 17eg. Cariad wrth Ken a Nia, Aled, Diane a Catrin, Rhys, Bethany ac Elis, Llyr a Lynfa.

.... hefyd i'r canlynol wrth iddynt ddathlu penblwydd arbennig:

Catrin, merch Cerys a Arwel Llewellyn, Fferm y Bush, yn 30 oed.

Maureen John, Hendre Ganol yn 70 oed.

Georgina Luke, Maes Y Bryn, Llandysilio yn 18 oed ar Hydref 29ain.

Bethan Lloyd yn 50 oed ar y 10fed o Dachwedd.

Barbara Llewellyn, Maesycelyn yn 60 oed ar Dachwedd 20fed.

Anne Marie Llewellyn, Heol y Llan a fydd yn 50 oed ar 16eg o Ragfyr.

Nia Farnden, merch Delyth a Michael Roblin yn 30 oed ar Ionawr 19eg.

Capel Pisga

Braf yw cyhoeddi bydd gwasanaeth Plygain eleni yn dechrau am 11.30 yr hwyr ar 24ain o Ragfyr. Croeso i bawb.

Cinio Pensiynwyr

Braf y'w cyhoeddi fod cinio y Pensiynwyr wedi ail ddechrau eto, ar ôl cyfnod y Covid. Mae'r cinio ymlaen ar yr ail ddydd Mercher o bob mis, yn Neuadd Llandysilio.

Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio

Mis yma cynhelir ein cyfarfod blynyddol. Mis nesaf ar 5ed o Ragfyr bydd Nia Davies yn dysgu ni wneud torch Nadolig. Ac yna bydd ein cinio Nadolig ar 12fed o Ragfyr yng Ngwesty Nantffyn.

Pwyllgor Neuadd Llandysilio

Trefnwyd Bore Coffi llwyddiannus gan bwyllgor Neuadd Pentre' Llandysilio ar ddydd Sadwrn 15fed o Hydref. Roedd pawb yn hapus i gymdeithasu a hefyd cawsom wers gan Tony Wall (un o'r Ymatebwyr Cyntaf) am ddefnyddio'r diffibriliwr sydd ar wal ffrynt y Neuadd yn gwynebu'r heol.

Dysgom, bod rhaid galw 999 yn y lle cyntaf i dderbyn côd i agor y bocs. Os ffôn symudol sy'n cael ei ddefnyddio bydd y côd yn cael ei anfon 'nôl mewn tecst. Bydd angen ysgrifennu'r côd i lawr os defnyddir ffôn y tŷ.

Roedd Tony Wall yn awyddus i sicrhau pawb bod ddim angen ofni'r peiriant diffibriliwr. Mae recordiad yn y peiriant yn rhestru'r hyn sydd angen ei wneud yn y drefn gywir. Na gyd sydd eisiau gwneud yw dilyn y cyfarwyddiadau.

Dyma'r elusennau wnaeth elwa o'r rhoddion a'r raffl ar y dydd:

Paul Sartori £300; British Heart Foundation Cymru £100; Tenby and Saundersfoot Community First Responders £100.

Diolchwn i bawb am eu cyfraniadau.

Dewch i ymuno â Phwyllgor Neuadd Llandysilio, ar yr ail nos Lun o bob mis, yn Neuadd Llandysilio am 7.30. Byddai'n braf eich gweld. Dyddiad pwyllgor nesaf fydd 12fed o Rhagfyr.

CYLCH MEITHRIN LLANDYSILIO

**Neuadd Llandysilio, Llandysilio,
Clunderwen, Sir Benfro SA66 7SY**

**Ar Agor: pob bore
9.00 yb - 12.00**

**Arweinydd: Liz Lewis
Rhif Ffôn: 07760135392**

neu: cmllandysilio@outlook.com
Rhif Elusen Cofrestredig - 1089716

Cylch Ti a Fi Llandysilio

**I blant 0-4 oed a'i
Rhieni/gwarchodwyr**

**Pob prynhawn Mercher
12.00 - 1.30yp
£2.50**

Neuadd Llandysilio



NEWYDDION BLAENCONIN

Cwrdd y Cadeiriau

Ar y Sul cyntaf o Dachwedd daeth yr Eglwys ynghyd i 'groesawu' dwy Gadair Eisteddfodol yn ôl i Flaenconin. Enillwyd Cadair Eisteddfod Blaenconin 1925 gan Edgar Phillips, 'Trefn' – y Prifardd a'r Archdderwydd. Daethpwyd o hyd i'r Gadair yng Nghapel Rehoboth, ger Mathri ac wedi i'r Capel gau, braf oedd cael derbyn y Gadair oddi wrth Swyddogion yr Eglwys. Cludwyd y Gadair yn ddiogel o Rehoboth i Flaenconin. Yn ystod y Cyfarfod adroddodd Hilary Watkins hanes Eisteddfod Blaenconin a braf oedd clywed am y dechreuadau.

Dechreuwyd cynnal Eisteddfod yng Nghlunderwen yn 1953 a'r flwyddyn ganlynol, enillwyd y Gadair gan Tomi Evans, Tegryn. Roedd Tomi yn Ewylth i Wyn 'Tegryn' Evans a dymuniad Wyn oedd gweld y Gadair yn dychwelyd i'r fro. Gwnaed trefniadau a chafwyd cyfweiliadau yn recordio Wyn yn adrodd hanes 'Wncwl Tomi' a'i lwyddiant yng Nghlunderwen yn 1954 ac yn Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman yn 1970.

Bu farw Wyn cyn gweld y gadair yn cyrraedd Blaenconin. Hyfrydwch pur oedd gweld Heather yn y gynulleidfa ym Mlaenconin yn tystio i'r weithred o osod y gadair yn y Capel. Roedd Maureen John wedi wedi bod yn ymchwilio i hanes yr Eisteddfod a diddorol oedd derbyn y wybodaeth.

Bellach, mae rhan o ddod yr Eglwys yn perthyn i'r heddiw. Diolch i Hilary a Maureen am eu gwaith ac edrychwn ymlaen at ddysgu mwy am y ddwy Eisteddfod.

SUL Y COFIO 2022

Daeth y gymuned ynghyd o flaen y Gofeb yn Llandysilio fore Sul, 13eg Tachwedd i gofio am y bechgyn hynny o'r fro a fu farw ar faes y gad. Dadorchuddiwyd y Gofeb ar 1af o Fawrth 1922 felly, mae trigolion yr ardal wedi bod yn dod ynghyd i gofio am gan mlynedd. Dadorchuddiwyd Cofeb Clunderwen ar y 9fed o Fedi 1922.

Mae Cyngor Cymuned Clunderwen yn bwriadu trefnu Te Prynhawn i nodi'r Canmlwyddiant. Bydd manylion pellach am y dyddiad ar gael yn fuan. Diolch i bawb ddaeth i 'gofio'.

MYFYRDODAU'R ADFENT 2022

Yn ystod Tymor yr Adfent cyflwynir cyfres o Fyfyrdodau wythnosol yn seiliedig ar rhai o gymeriadau stori'r Geni. Er i enwau cymeriadau ddrama'r Geni fod yn gyfarwydd i bob un ohonom mae ganddynt stori a chefnidir fydd, gobeithio, yn dwyn golau newydd ar hanes geni Iesu.

Thema'r Gyfres yw: 'Pwy yw Pwy wrth y Preseb ?

Bydd y gyfres yn dechrau ar y Sul cyntaf o'r Adfent sef 27ain o Dachwedd.

PROVENANCE

Ym myd yr hen bethau mae'r gair 'Provenance' yn bwysig iawn. Ystyr y gair yw 'tarddiad' ac os ydych yn medru cyflwyno tystiolaeth sy'n profi oedran neu tarddiad darn arbennig, yna, mae gwerth y darn yn codi yn sylweddol.

Yn ystod yr Oedfa Ddiolchgarwch cyflwynodd Heather lun i'r Eglwys ac yn llun gwelir Cadair Eisteddfod Clunderwen ac yn eistedd yn y Gadair mae'r Bardd bud-dugol, Tomi Evans.

Felly, mae 'provenance' y Gadair yn eglur. Byddai'n braf petai'n bosibl enwi pawb sydd ar y Llwyfan. Diolch i Heather am y Gadair a'r llun.



Trefn yr Oedfaon

Dydd Sul, 4ydd Rhagfyr am 10 y bore - GLANDWR

Dydd Sul, 11eg Rhagfyr am 10.30 y bore
OEDFA GYMUN

Dydd Sul, 18fed Rhagfyr am 10.30 y bore
OEDFA BREGETH

Dydd Sul, 25ain Rhagfyr am 6 y bore - PLYGAIN

Dydd Sul, 1af Ionawr - DIM OEDFA

Dydd Sul, 08 Ionawr am 10.30 y bore
OEDFA GYMUN



NADOLIG LLAWEN

a

BLWYDDYN NEWYDD DDA

**oddi wrth aelodau Blaenconin i holl ddarllenwyr
'Y Cardi Bach'**

EFAILWEN

Llongyfarchiadau

Ganwyd ŵyr bach cyntaf Liz ac Emrys Llewelyn, sef Wil Tomos Wyn Pearce ar Hydref 27ain. Mae nain a dadcu, Dolawel, Efailwen wrth eu bodd. Llongyfarchiadau i'r teulu i gyd.

Diwrnod Plant Mewn Angen



Bu Pudsey yn Ysgol Beca i ymweld â'r plant - pawb yn eu dillad gwely.

RHYDYCEISIAID

Pulpud

Pleser oedd cael gwasanaeth y Parchedig Guto Llywelyn yn oedfa'r Cymun ar Sul, Tachwedd 6ed a diolch iddo.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Rhodri a Vicky Lloyd, Myrtle, Llanboidy ar enedigaeth merch sef Dianna Eleri Lloydhefyd i Haydn Lloyd, Ffynnonlwyd ar ddod yn ddatcu; Marlene Lewis, Hafan Glyd a Nain Lloyd, Llanarmon ar enedigaeth gor wyres

....hefyd i Ronnie a Mair Morgan, Piccadilly, Llanboidy ar ddod yn hen ddatcu a hen famgu i Megan Haf, sef merch fach i Michael ac Abbi Phillips, Crymch.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Eifiona Lewis, 3 Llyscoed, Llangynin ar ôl cael llawdriniaeth i'w llaw yn Ysbyty Werndale.


Cydymdeimlwn â Sheila, Raymond a Tomos Rees, Tŷ Hawddgar, San Cler ar farwolaeth perthynas sef Robert Benjamin o Hendygywyn.

Penblwyddi

Penblwydd hapus i Gwennie Rees a fydd yn 89 oed ar Dachwedd 29ain; Mair Morgan yn 84 oed ar Ragfyr 18fed a Ronnie Morgan yn 88 oed ar Ragfyr 23ain.



CYFROL YN DATHLU PENBLWYDD YR URDD YN 100 OED!



I nodi canmlwyddiant Urdd Gobaith Cymru, cyhoeddir *Ein Urdd Ni* gan Mari Emlyn (y Lolfa) – yr anrheg perffaith i'r hosan Nadolig. Yn y llyfr lloffion hwn, clywir gan rai o bobl fwyaf adnabyddus Cymru am y rhan y mae'r mudiad wedi ei chwarae yn eu bywydau. Ochr yn ochr â lluniau personol, cyflwynir pythau o brofiadau amrywiol er mwyn cael cipolwg

ysgafn a gwahanol i'r arfer o weithgaredd a gwerth yr Urdd.

Ymysg y cyfranwyr mae Angharad Mair, Beca Lyne-Pirkis, Bethan Gwanas, Beti George, Bryn Fôn, Bryn Williams, Caryl Parry Jones, Casi Wyn, Cleif Harpwood, Dafydd Iwan, Dylan Ebenezer, Ed Holden, Elin Fflur, Ffion Dafis, Gareth Potter, Gwennan Harries, Heather Jones, Huw Stephens, Ian Gwyn Hughes, Jason Mohammad, Laura McAllister, Lauren Morais, Llŷr Gwyn Lewis, Mared Williams, Mark Drakeford, Matthew Rhys, Nic Parry, Rhuanedd Richards, Richard Lynch, Sian Eleri Evans, Sian Lewis, Stifyn Parri a llawer mwy.

Yn y llyfr, sonia'r Prif Weinidog, Mark Drakeford, am y balchder y mae'n deimlo ynglŷn â'i gysylltiad â'r Urdd. Meddai: 'Mae'n symbol o'r gwerthoedd rydyn ni'n eu rhannu, ein hiaith, ein cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol, a'r ffordd rydyn ni'n gallu dod ynghyd i wneud gwahaniaeth.' Yr un yw byrdwn cyflwynydd Radio 1, Sian Eleri Evans: 'Roedd yr Urdd yn rhan mor allweddol o 'mywyd i'n tyfu fyny. Fues i 'rioed yn arbennig o lwyddiannus a wnes i 'rioed bod ddigon dewr i gystadlu yn unigol, ond roedd y perthyn a'r hwyl oedd yn tanlinellu pob gweithgaredd mor bwysig i fi a fy ffrindiau. Mae 'na lwythi o atgofion melyn yn sicr!'

Maent oll yn gytŷn yn eu diolch i'r Urdd am ffrindiau newydd, am atgofion i'w trysori, am gyfoethgi eu bywydau, am siapio eu hieuenctid, am agor drysau ac am gyfleoedd a phrofiadau heb eu hail – a'r cyfan drwy'r Gymraeg. Wrth ddathlu cyrraedd carreg filltir nodedig, mae yna hen edrych ymlaen at y ganrif nesaf. Fel y dywed Ffion Dafis: 'Ti reit arbennig 'sdi. Dim lot o bethau sy'n goroesi ac yn esblygu fel chdi.'

Ganwyd a magwyd Mari Emlyn yng Nghaerdydd. Mae wedi dilyn gyrfa fel actores, sgriptwraig, golygydd ac awdur llyfrau, yn ogystal â threulio pum mlynedd fel Cyfarwyddwr Artistig Galeri, Caernarfon. Mae'n rhedeg cwmni Gola: cwmni dylunio a chreu lamplenni.

Te prynhawn i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gaerfyrddin

Gwnaeth dros 100 o drigolion Sir Gâr deithio i Westy Parc y Strade yn Llanelli ddydd Sul, Hydref 9fed i de brynhawn arbennig er mwyn codi arian ar gyfer cronfa Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023.

Jennifer Maloney a fu'n gyfrifol am drefnu'r digwyddiad, a braf oedd gweld pawb yn mwynhau'r holl ddanteithion melys a sawrus oedd i'w fwyta yn ystod y prynhawn.

Y gyflwynwraig Heledd Cynwal a gafodd y dasg o arwain yr adloniant yn ystod y prynhawn. Y Soprano a'r de-lynores Joy Cornock Thomas o Dalyllychau oedd yn gyfrifol am gychwyn yr adloniant drwy berfformio dwy gân 'Y Caeau Aur' ac 'Esgair Llyn'. Yna, tro Cadi Lois o Rydaman oedd hi, ac fe wnaeth hi ganu addasiad o gân enwog Elton John 'Your Song' ac yna addasiad o'r gân 'Part of Your World' o'r ffilm Disney 'Little Mermaid'. Daeth Noah Potter i ddiddanu'r gynulleidfa wrth gloesio yng nghanol yr ystafell. I fyd y sioeau cerdd aeth Carys Hâf o Caio a'r gynulleidfa gyda'i pherfformiad o 'Yn cau amdanaf i' o'r sioe gerdd Pum Diwrnod o Ryddid, ac yna 'Rwy'n dy weld yn sefyll' o'r sioe gerdd 'Ann' gan Gwmni Theatr Maldwyn. Penderfynodd Eirian Davies o Langadog ganu'r clasuron 'Cilfan y Coed' ac 'Os allaf helpu rhywun', cyn cloi'r prynhawn gyda deuawd yng nghwmni Carys Hâf gyda pherfformiad hynod deimladwy o 'An-fonaf Angel'. Diolch yn fawr iawn i Meinir Richards ac i Eifion Price am gyfeilio i'r artistiaid.

Yn ystod y prynhawn hefyd bu cyfle i brynu rhai o nwyddau'r Eisteddfod megis yr ymbarel, bag, cwpan coffi, y teclyn ar gyfer y ffôn a 'Rhost yr Urdd' sef coffi arbennig a lansiwyd yn ddiweddar gan Gwmni Coffi Alffi a Chaffi'r Atom yng Nghaerfyrddin er mwyn codi arian at goffrau'r Eisteddfod.

Llwyddwyd i godi £1050 tuag at goffrau'r Eisteddfod. Heb amheuaeth roedd llwyddiant y digwyddiad o ganlyniad i ffrwyth gwaith Jennifer Maloney, a charai'r pwyllgor ddiolch o galon iddi hi a Gwesty Parc y Strade am brynhawn arbennig.

Byddwn fel Pwyllgor Gwaith a Phwyllgorau Lleol yn parhau i gynnal digwyddiadau i godi arian a chodi ymwybyddiaeth am yr Eisteddfod ar draws y sir am y misoedd nesaf. Am y wybodaeth ddiweddaraf, cofiwch ddilyn Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023 ar Facebook.



 **Tomos Rees**
NEW HOUSE GARAGE

 **Atgyweirio a M.O.T.**

Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr

ALLPUMP SERVICES

ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON
A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR

Fferm Ffynnonlwyd Llangynin
San Clêr SA33 4LD

Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693

e.bost: enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SION HARRIES
SEIRI COED

EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED

FFÔN:-
01994 240857



YSGOL GRIFFITH JONES

Diwrnod T.Llew Jones

neuadd yr ysgol. Diolch i Sian Gibbon am gyflwyno'r stori hydrefol, swynol hon sy'n annog hunan-dderbyniad ac i ni gofleidio ein gwahaniaethau.



Dosbarth Pwyll Bl. 6 tu all i'r Egin

Ar Hydref 11eg cafodd Dosbarth Pwyll (Blwyddyn 6) gyfle i ymweld â Chanolfan S4C Yr Egin er mwyn cymryd rhan yng ngweithdai Dathlu diwrnod T.Llew Jones.

Dechreuwyd y sesiwn gyda darlenniad diddorol o'r stori 'Lleuad yn Olau.' Yna cafwyd cyfle i greu stori hudol ac i gynllunio a chreu drws 'Tylwyth Teg'. Bu'r plant yn brysur ac yn frwdfrydig yn ystod y ddau weithdy, prynhawn wrth eu boddau!

Rygbî'r Urdd

Bu tîm rygbi merched yr ysgol yn cystadlu yn Nhwrmament yr Urdd ar gaeau y Cwins yn Abergwili.

Y Gât

Aeth disgyblion Dosbarth Culhwch i ganu yng Nghanolfan Y Gât, Sanclêr ar brynhaun Iau, Hydref y 13eg. Mwynhaodd y gynulleidfâ'r te prynhawn tra'n gwrando ar y canu.

Gêmau Buarth

Daeth Betsan o Fenter Gorllewin Sir Gâr i'r ysgol ar fore Gwener, Hydref y 14eg i gynnal sesiynau Gêmau Buarth. Cafodd ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen hwyl a sbri yn chwarae gêmau newydd cyffrous.

Diwrnod Shwmae Su mae

Roedd hi'n hyfryd clywed disgyblion yr ysgol yn cyfarch ei gilydd a'r staff gyda gwên a 'Shwmae'. Roedd y dosbarthiadau yn llawn cyffro a chynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau i ddathlu'r diwrnod arbennig hwn.

Lawnsio llyfr Newydd

Fel rhan o ddathliadau Wythnos Mabwysiadu Genedlaethol, bu disgyblion dosbarthiadau Arthur, Gwenllïan, Hywel, Olwen a Rhiannon yn lawnsiad y llyfr newydd 'Y Bwmpen Berffaith Amherffaith' gan Rachel Cook yn

Gwasanaeth Diolchgarwch



Braf oedd croesawu rhieni disgyblion Blwyddyn 6 i ymuno â ni yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch eleni. Cyflwynwyd eitemau amrywiol gan y disgyblion. Diolch yn fawr i'r Parchedig Guto Llywelyn am ei gyflwyniad diddorol. Casglwyd tuag at Fanc Bwyd Hendy-gwyn. Diolch am bob cyfraniad. Diolch yn fawr i Helen Ryan o Fanc Bwyd Hendy-gwyn a ddaeth i gasglu'r holl fwyd ac am esbonio sut mae'r Banc Bwyd yn gweithredu.

Pêl-droed

Llongyfarchiadau i Noah Brown ac Alfie Jones am gael eu dewis ar gyfer Carfan pêl-droed Ysgolion Sir Gaerfyrddin.

Ffilmio



Cafodd ddisgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 ddiwrnod arbenig yn creu fideo addysgiadol am hanes Hywel Dda ar gyfer plant ysgolion Cymru. Cawsant eu ffilmio gan

Gwmni Rondo yn yr ysgol ac yng Ngerddi Hywel Dda, Hendygwyn ar Dâf.

Y Frigad Dân

Cyn y gwyliau cawsom ymweliad gan Elinor o'r Frigad Dân. Bu'n atgoffa'r disgyblion o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar Noson Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt.

Parti Calan Gaeaf CRAFF

Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang nos Fawrth, Hydref y 25ain ym mharti Calan Gaeaf y gymdeithas. Roedd y disgyblion a nifer o rieni wedi gwneud ymdrech arbenig gyda'u gwisgoedd. Diolch i S&S Entertainments am gynnig eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

Gwersyll Pentywyn



Cafodd Blwyddyn 6 Mr. Toms a Mrs. Thomas amser hwylus iawn yng Ngwersyll Pentywyn. Bu'r plant yn cymeryd rhan mewn tasgau awyr agored gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau cyd-weithio fel tîm. Cafodd y plant gyfle i ddatblygu sgiliau gan gynnwys dringo, abseilio a chyfeiriannu.

Diolch i staff y gwersyll am eu brwdfrydedd wrth hyfforddi'r plant.

Rhaglen Gwenyn Coed y Mêl

Daeth Gemma Pugh o 2B Enterprising i'r ysgol yn ddiweddar i gyflwyno rhaglen sgiliau entrepreneuriaid i blant 5-8 oed. Cafodd ddisgyblion Dosbarth Gwenlian brynhawn hwylus yn ymarfer cyfathrebu â phobl newydd.

Diolch yn fawr i'r cwmni lleol Obsidian Developments Ltd am ariannu'r fenter. Roedd yn hyfryd cwrdd â Helen Morgan o'r cwmni.

Jambori Cwpan y Byd

Profiad bythgofiadwy oedd cael bod yn rhan o Jambori Cwpan y Byd yr Urdd ar fore Gwener, Tachwedd y 10fed i ddangos ein cefnogaeth i chwaraewyr pêl-droed Cymru. Roedd y plant yn morio canu Yma o Hyd gyda Dafydd Iwan, Mistar Urdd a chyflwynwyr Stwnsh Sadwrn.

Pob lwc i dîm pêl-droed Cymru.

YSGOL BRO BRYNACH

Chwaraeon



Llongyfarchiadau anferthol i dîm rygbi merched yr Ysgol a lwyddodd i ennill cystadleuaeth rygbi'r Urdd ar gyfer Rhanbarth Gorllewin Myrddin. Fe lwyddodd y merched i guro naw o ysgolion cyn cipio'r cwpan! Byddan nhw'n mynd ymlaen i'r rownd Genedlaethol nesaf yn Aberystwyth ym mis Mai. Diolch yn fawr Miss Gibby am yr holl waith hyfforddi.

Bu'r Llysgenhadon Efydd wrthi yn derbyn hyfforddiant ar gyfer eu rôl. Byddant yn arwain sesiynau cadw'n heini yn ystod y flwyddyn i weddill yr Ysgol.

Diwrnod Shwmae Su'mae?

Bu Criw y Siarter Iaith wrthi'n brysur yn trefnu gweithgareddau llawn hwyl a sbri i ddathlu diwrnod Shwmae Su'mae? Gwisgodd pawb liwiau baner Cymru ar gyfer disgo arbennig yn cynnwys hoff ganeuon Cymraeg yr ysgol. Trefnwyd cwis ar Gymru gyda phob plentyn yn yr ysgol yn cymryd rhan. Roedd yn gyfle gwych i atgoffa pawb fod yr iaith Gymraeg yn perthyn i ni gyd.

Diolchgarwch



Hyfryd oedd medru dychwelyd i Gapel y Trinity yn y pentref ar gyfer ein Gwasanaeth Diolchgarwch. Cyflwynodd pob dosbarth eitem hyfryd ar y thema caredigrwydd. Daeth y Parchedig Guto Llywelyn atom hefyd i anerch y plant, diolch yn fawr iddo am ei roi ei amser i ni. Ar ddiwedd y gwasanaeth bu'r Cyngor Ysgol yn casglu tuag at Apêl Wcraïn. Diolch i haelioni'r rhieni a'r gymuned, llwyddwyd i gasglu £248.

Hyfryd oedd medru dychwelyd i Gapel y Trinity yn y pentref ar gyfer ein Gwasanaeth Diolchgarwch. Cyflwynodd pob dosbarth eitem hyfryd ar y thema caredigrwydd. Daeth y Parchedig Guto Llywelyn atom hefyd i anerch y plant, diolch yn fawr iddo am ei roi ei amser i ni. Ar ddiwedd y gwasanaeth bu'r Cyngor Ysgol yn casglu tuag at apel yr Wcrain. Diolch i haelioni'r rhieni a'r gymuned, llwyddwyd i gasglu £248.

Ymwelwyr

Daeth yr heddlu mewn i siarad gyda phlant hŷn yr Ysgol am beryglon Noson Tân Gwyllt a Chalan Gaeaf.

Jambori Cwpan y Byd

Ymunodd yr Ysgol gyfan gyda disgyblion dros Gymru i ddangos eu cefnogaeth i dim pêl droed Cymru drwy ymuno mewn jambori o ganu a dawnsio. Bu'r plant yn canu 'Yma o Hyd' yn fyw, gyda Dafydd Iwan a miloedd o blant Cymru ar y sgrin. Profiad i'w gofio! Pob Lwc i'r tim yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd oddi wrth bawb yn Ysgol Bro Brynach.

YSGOL BECA

Ffarwelio â Miss Einir

Hoffem fel Ysgol, ddiolch o waelod calon i Miss Einir am ei holl waith caled ar ôl gweithio yn Ysgol Beca am ddeunaw mlynedd. Byddwn yn gweld eisiau eich gwen bob bore a dymunwn bob hwyl i chi i'r dyfodol.



Llwyddiant y Gwasanaeth Diolchgarwch

Ar fore Gwener, 21ain o Hydref aethom fel ysgol gyfan i Gapel Nebo er mwyn cynnal ein Gwasanaeth Diolchgarwch. Ar ôl wythnosau o ymarfer roedd y plant yn frwd ac yn barod i berfformio i'r gynulleidfa. Hoffem ddiolch i'r Parch. Huw George am annerch y plant ac i gymdeithas y capel am ein croesawu i'r capel. Diolch i rieni ac i'r gymuned am ddod i gefnogi ac am eu haelioni yn ystod y casgliad. Casglwyd £140 i elusen Acute Response Team Llanelli.

Cystadleuaeth CogUrdd

Bu criw o gogyddion Ysgol Beca yn brysur iawn ar brynhawn Ddydd Gwener, 21ain o Hydref. Eu sialens oedd paratoi 'Brechdan Fendigedig'. Ar ôl 45 munud o waith caled, roedd yn amser i'r beirniad dewis y frechdan fudugol. Llongyfarchiadau i Tomos a fydd yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf. Da iawn hefyd i Osian am ddod yn ail ac i Carys ac Alfie am ddod yn gydradd drydydd.



Diolch enfawr hefyd i Becws Bets am ddod i feirniadu'r gystadleuaeth!

Dysgu am fywyd ar y fferm



Cafodd disgyblion Ysgol Beca gyfle unigryw yn ddiweddar i fynychu digwyddiad 'Food Stori Bwyd' gan Gymdeithas Amaethyddol Sir Benfro. Treuliwyd y prynhawn yn mynd ar daith o un stori bwyd i'r llall. Cafodd y disgyblion wledd o wybodaeth a chyfleoedd ymarferol wrth ddysgu am fywyd amaethyddol lleol.

Diwrnod Shwmae Sumae



Cawsom ddiwrnod hwylus yn dathlu diwrnod Shwmae Sumae eleni, gyda'r Criw Twm Tanllyd wedi paratoi gweithgareddau ar gyfer y dydd. Aethant ati yn y bore i groesawu disgyblion a rhieni i'r ysgol a'u hannog i ddweud 'Shwmae Sumae'! Amser egwyl roeddent wedi trefnu chwarae cerddoriaeth Cymraeg i ddisgyblion yr ysgol ar yr iard chwarae. Ac yn y prynhawn, trefnwyd tasgau hwyl i ddatlu ym mhob dosbarth.

Gemau Buarth Menter Iaith



Diolch i Betsan o Fenter Gorllewin Sir Gâr am ddod i chwarae gemau buarth gyda disgyblion yr ysgol. Cafodd y disgyblion sesiynau hwylus wrth ddysgu gemau buarth newydd ac maent yn gyffrous i chwarae'r gemau newydd amser egwyl a chinio.

YSGOL BANCYFELIN

Croeso

Croeso i Charlie Edwards a Sonny Farnon sydd wedi dechrau yn Nosbarth y Llan tymor yma ac i Mrs Emma Williams sydd wedi dechrau gweithio yn y Ffederasiwn fel Swyddog Cynnal yr ysgolion. Gobeithio y byddwch chi gyd yn hapus yn ein mys.

Ymddeoliad hapus



Mrs Davies yng nghwmni'r plant

Mae Mrs Eileen Davies wedi ymddeol tymor yma wedi 25 mlynedd o wasanaeth teyrngar i Ysgol Bancyfelin. Diolch yn fawr iawn iddi am eu gwaith ar hyd y blynyddoedd yn rhoi addysg o'r radd flaenaf

i ddisgyblion yr ardal. Cynhaliwyd prynhawn o ddiolch iddi yn yr ysgol, lle bu'r plant yn canu iddi a chyflwynwyd tysteb hael ac haeddiannol iddi. Roedd hefyd yn braf cael aduniad o gyn aelodau o staff yn y prynhawn.

Tristwch

Tristwch o'r mwyaf oedd ein bod wedi colli aelod o staff gwerthfawr yn ystod y tymor, sef Miss Christine. Bu'n gweithio yn yr ysgol am flynyddoedd gan roi gofal tyner i'r holl ddisgyblion. Cydymdeimlwn â Mark, Amy, Louis a'r teulu i gyd.

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau mawr i Gwion James sydd wedi ei ddewis yn nhim rygbi'r cylch am eleni. Da iawn, Gwion a phob lwc yn ystod y tymor.

Cylch Meithrin



Roedd hi'n bleser gan Ddosbarth y Llan ymweld â'r Cylch Meithrin yn ddiweddar er mwyn cyd-goginio crymbl afal. Diolch yn fawr am y croeso a'r crymbl.

Cwrdd Diolchgarwch

Braf oedd cael mynd nol allan i'r gymuned eleni i gynnal ein cwrdd diolchgarwch. Roedd Capel Bancyfelin o dan ei sang o ddisgyblion, staff a rhieni'r Ffederasiwn. Diolch yn fawr i aelodau'r capel am y croeso ac i'r Parch Beti Wyn James am ei neges bwrpasol.

Sioe Mewn Cymeriad

Fel rhan o Wyl hanes Cymru bu disgyblion CA2 yn cymryd rhan mewn gweithdy a sioe Mewn Cymeriad yng Nghastell Talacharn am y Mabinogi.

Gweithdy Sbectrwm

Yn ystod y tymor bu'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithdai Sbectrwm er mwyn dysgu am berthnasoedd iach.

Prynhawn Coffi

Gweithiodd y Cyngor Ysgol yn galed i drefnu Parti Paned Pinc er mwyn codi arian at elusen Cancr y Fron. Codwyd £586.30 gan gymuned Ysgol Bancyfelin. Diolch i bawb am eu gwaith a'u cefnogaeth.

Joio yn y Jambori



Roedd yr ysgol yn fôr o goch a chanu ar Ddydd Iau, Tachwedd 10fed wrth i'r holl ddisgyblion gymryd rhan yn Jambori'r Urdd er mwyn dathlu bod tim pêl droed Cymru'n mynd i Gwpan y Byd. Pob lwc Cymru.

Cydymdeimlo

Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf a Mrs Trefina Jones, Pennaeth yr ysgol ar farwolaeth ei thad ddiwedd mis Medi.

YSGOL HAFODWENOG

Wythnos Beicio i'r Ysgol



Dyma lun rhai o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol ar feic yn ystod wythnos Beicio i'r Ysgol.

Diwrnod T Llew Jones



Daeth y disgyblion i'r ysgol wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad allan o lyfr T Llew Jones.

Diwrnod Shwmae Su'mae



Diwrnod Shwmae Su'mae anturus iawn eleni, gan gynnwys coginio pice ar y maen a chawl gan ddefnyddio llyisiau a dyfwyd gan y disgyblion.

Sefydliad y Merched

Diolch yn fawr i Sefydliad y Merched am y rhodd garedig a phlannu'r Ddraenen Wen Goch hon gyda'r disgyblion, i ddathlu Jiwbili'r Frenhines.

Diolchgarwch



Gwasanaeth Diolchgarwch gwych. Diolch i bawb a ddaeth /



cyfrannu ac i Blood Bikes Wales am gyflwyno eu hunain a'r gwaith anhygoel maent yn ei wneud ar draws Cymru!

Menter Gorllewin Sir Gâr



Diolch yn fawr i Menter Gorllewin Sir Gâr am wneud / hyfforddi disgyblion ar gemau buarth.

Cogurdd



Da iawn i bawb a fu'n cystadlu. Creu brechdanau blasus iawn oedd y dasg. Pob lwc i Anest yn y rownd nesaf.

Cymru yng Nghwpan y Byd



Ysgol Hafodwenog yn ymuno yn y wal goch ac yn joio yn y Jambori

wch. Braf oedd cael mynd yn ôl i'r capel a braf hefyd oedd cael y rhieni a'r gymuned yn rhan o'r gwasanaeth. Ein thema eleni oedd 'Gorau Chwarae-Cyd Chwarae' a diolch i'r plant am berfformio eu rhannau mor dda.



YSGOL LLYS HYWEL



Llongyfarchiadau mawr i Dion Bowen a Liam Wray o Ysgol Llys Hywel, Hendygywn, am gael eu dewis i garfan rygbi Ysgolion Rhanbarth Caerfyrddin. Pob lwc i chi fechgyn! Ewch amdani!



Diolch hefyd i'r Parchedig Sian Elin Thomas o Grymych a roddodd annerchiad arbennig a phwysig i'r plant, i aelodau Capel Pisga am adael i ni ddefnyddio'r Capel ac i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at ein casgliad i PATCH.

Cystadleuaeth Traws Gwlad y Sir

Da iawn i bawb a gymerodd rhan yng nghystadleuaeth Traws Gwlad y Sir ar brynhawn Iau, 27ain o Hydref yng Nghaerlŷr. Llongyfarchiadau i bawb am wneud mor dda.

Cogurdd



Da iawn i bawb a gymerodd rhan yng nghystadleuaeth Cogurdd a gynhaliwyd ar brynhawn Gwener, 28ain o Hydref. Diolch o waelod calon i Miss Shirley am roi ei hamser i feirniadu. Roedd y safon yn uchel iawn a llongyfarchiadau enfawr i Llŷr Blethyn a ddaeth yn fuddugol. Bydd Llŷr nawr yn cynrychioli Ysgol Brynconin yn rownd sirol.

Amser Cofio

Ar fore Gwener, 11eg o Dachwedd aeth plant o Fl-

YSGOL BRYNCONIN

Twrnament Rygbi'r Urdd

Cynhaliwyd Twrnament Rygbi'r Urdd ar Ddydd Iau, 20fed o Hydref yng Nghlwb Rygbi Arberth. Da iawn i bawb a gymerodd rhan a llongyfarchiadau i dimoedd rygbi'r Ysgol am wneud mor dda. Diolch i Mr Andy Cotter am roi ei amser unwaith eto i hyfforddi'r bechgyn a Miss Kim am hyfforddi'r merched.

Jambori i Blant Dosbarth Diemwnt (Bl.1 a 2)

Cafodd blant Blwyddyn 1 a 2 amser wrth eu boddau yn y Jambori prynhawn Mawrth, 25ain o Hydref yn Neuadd Cilgerran. Diolch i Fenter Iaith Sir Benfro am drefnu y digwyddiad.

Cwrdd Diolchgarwch

Cafwyd bore arbennig yng Nghapel Pisga Dydd Mawrth, 25ain o Hydref pan gynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgar-

wyddyn 5 a 6 lan i'r Gofadail er mwyn cymryd rhan mewn gwasanaeth cofio arbennig. Cafwyd munud o dawelwch am 11 o'r gloch er mwyn cofio am y rhai sydd wedi colli eu bywydau mewn rhyfeloedd.

Sioe Bachgen Bach Gwyrdd

Cafodd blant o Flynyddoedd 3,4,5 a 6 amser da wrth wyluo sioe Bachgen Bach Gwyrdd gan Gwmni Mega yn Theatr Lyric, Caerfyrddin ar fore Llun 14eg o Dachwedd.

Diogelwch Tân

Diolch i Danny Lewis o'r Frigad Dân a ddaeth i rannu gwybodaeth pwysig am gadw'n ddiogel gyda phlant Blwyddyn 2 a 5 ar fore Mercher, 16eg o Dachwedd.

Plant Mewn Angen

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at godi arian i Blant Mewn Angen ar Ddydd Gwener, 18fed o Dachwedd. Diolch i aelodau Senedd yr Ysgol am baratoi a threfnu y gweithgareddau amrywiol. Gwisgodd pawb mewn pyjamas am y dydd, cafwyd stondin gacennau, stondin gemau bwrdd, disgo Cymraeg, dyfalu sawl losinen sydd yn y jar, dyfalu enw y tedi a chyfle i dynnu hunlun mewn ffram Pydsi. Codwyd swm arbennig o £300 i Blant Mewn Angen.

Cyflwyno sic i Gylch Meithrin Crymych

Mr Jac Vaughan yn cyflwyno sic o £747 i Gylch Meithrin Crymych. Trefnwyd taith tractorau ym mis Medi. Roedd yn llwyddiannus iawn. Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gefnogi'r daith.




Yn y llun mae Dafydd Vaughan, Cadeirydd, Michelle, staff, Mr Jac Vaughan, Wendy, Arweinydd y Cylch, Wendy John, staff a Nia Rees, ysgrifennydd y Cylch.

Cornel Llên

O'R DA I'R DIREIDUS

Hunangofiant Aled Hally w'r llyfr y mis hwn
(gydag Alun Gibbard)



Mae pawb yn gwybod am ddoniau Aled Hall fel canwr operau. Yn y llyfr mae'n sôn am ei fagwriaeth yn fab fferm yn Dolgran, Pencader ac am ei ddiddordeb mewn miwsig ers pan oedd yn ifanc iawn yn yr ysgol. Roedd yn cymryd rhan mewn eisteddfodau a chyngherddau ar hyd yr amser.

Mae'n gyfarwydd a llwyfan-nau opera ar draws y byd ac fel canwr proffesiynol. Ceir ei hanes yn yr ysgol, Coleg Aberystwyth ac am ei brofiadau amrywiol. Mae'n sôn am ei gariad at ei deulu a'i filltir sgwar yn Sir Gâr – gorfod iddo dreulio dwy flynedd gartref adeg y Covid, a dechreuodd hobi newydd i dynnu lluniau. Mae'r llyfr yn llawn hwyl a phrofiadau ym mhob rhan o'r byd gyda'i waith fel canwr operau ac mae pawb yn gyfarwydd a'i hiwmor.

Gwasg Y Lolfa. Pris £9.99

TACHWEDD

Edrychaf drwy ffenestri niwlog, llaith
Ar noethni blwyddyn bron a dod i'w hoed,
Mae dail amryliw'n cuddio'r llwybrau maith
A noeth a gwylaidd yw holl frigau'r coed.
Mae'r afon yn byrlymu ar ei thaith
Drwy'r dolydd, gan orlifo dros ei glan,
Ac nid oes golwg ar yr heulwen chwaith
Ond clywir sŵn y gwynt yn gwneud ei ran;
Mae natur yn gorffwyso, wedi rhoi
O'i chnwd, i'n cynnal rhag yr hirlwm ddaw,
Ond cysur geir ar ddiwedd dydd wrth droi
At dân ac aelwyd, a chael ysgwyd llaw.
Ni phery Tachwedd byth na'i ddyddiau blin,
Fel bywyd dyn, daw gobaith wedi'r drin.

N.E.

PREN DA

Gwaith coed o bob math

Dafydd Makepeace

Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen

Ffôn 07967 220289

DERI PAGE

CIGYDD



Cig o'r ansawdd gorau

Heol y Pentre
San Clêr

Ffôn: 01994 230062

Diolch am eich cefnogaeth



CONTRACTWRFFABRICADU

Gwasanaeth Cyflawn

Wernddu

Stryd y Brenin Edward

Harlebury, Gwynedd

SA34 0AA

Ffôn: 01994 240534

Ffôn: 01994 240534

Symudi: 07966 414443

Eisteddfod yr Hoelion Wyth

Cynhaliwyd Eisteddfod blynyddol yr Hoelion Wyth yng Ngwesty'r Talbot, Tregaron ar nos Wener, Hydref 28ain. Arweinydd y noson oedd John Jones, Ffair Rhos a'r ddau feirniad oedd y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan, Talybont a Sam Jones, Tregaron.

Cafwyd cystadlu brwd drwy gydol y nos a chyflwynwyd Tlws Beca i'r gangen a fwyaf o bwyntiau yn y cystadlaethau llwyfan i gangen Cors Caron a chyflwynwyd Tlws yr Eisteddfod i'r gangen wnaeth ennill y marciau uchaf hefyd i gangen Cors Caron. Enillwyd y gadair am ysgrifennu telyneg ar y testun "Cors" gan Eurfyl Lewis, Beca a'r goron am ysgrifennu cerdd ddigri ar y testun "Hoelen" gan Geraint Morgan, Cors Caron – llongyfarchiadau mawr i'r ddau ar eu llwyddiant.

Cyflwynwyd Tlws cangen Aberporth am y perfformiad gorau ar y llwyfan (dweud jôc) gan Wyn Evans, Sion Cwilt. Cyflwynwyd tlws coffa Huw Griffiths i Eurfyl Lewis, Beca – ar ran Cor buddugol y gangen.

Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni'n gilydd a diolchodd Peredur Evans, Cors Caron i Gwenallt a Sam am feirniadu, i John am arwain y noson yn ei ffordd uni-gryw, i Westy'r Talbot am ddarparu cawl ac am ganiatau i ni gynnal yr Eisteddfod yno ac i aelodau'r canghen-nau am eu cefnogaeth. Roedd hi'n wych cael dod at ein gilydd unwaith yn rhagor ar ôl cyfnod dieflyg y Covid a treuliwyd amser hyfryd yn cymdeithasu'n braf ar derfyn yr Eisteddfod.

Dyma restr y canlyniadau:-

Dweud Jôc

1. Wyn Evans, Sion Cwilt
2. Charles Arch, Cors Caron
3. Eifion Evans, Beca

Carioci

1. Huw Davies, Cors Caron
2. Iwan Davies, Sion Cwilt

Cor

1. Beca
2. Sion Cwilt a Cors Caron

Brawddeg ar y gair "CYMYDOG"

1. Calfin Griffiths, Sion Cwilt
2. Eurfyl Lewis, Beca
3. Alun Davies, Cors Caron

Brysneges ar y lythyren "P"

1. Haydn Lewis, Sion Cwilt
2. Alun Davies, Cors Caron
3. Odwyn Davies, Cors Caron

Limrig yn cynnwys y llinell "Ma'r Steddfod wedi bod yn Nhregaron".

1. Eurfyl Lewis, Beca
2. John Jones, Cors Caron
3. Peredur Evans, Cors Caron

Telyneg ar y testun "Cors"

1. Eurfyl Lewis, Beca
2. John Jones, Cors Caron

Cerdd ddigri ar y testun "Hoelen".

Geraint Morgan, Cors Caron

Sgetsh

1. Cors Caron
2. Sion Cwilt
3. Beca

Parti Gor adrodd

1. Cors Caron
2. Beca
3. Sion Cwilt



Eurfyl Lewis, enillydd y gadair a
Geraint Morgan, enillydd y goron



Samm Jones a Gwenallt Llwyd Ifan, beirniaid
archus yr eisteddfod

Emrys ac Ann Murrow

Motel Nantyffin Llandissilio



Bwyty • Neuadd Wleda
ar gyfer priodasau,
cynadleddau, dawnsfeydd,
cyngherddau



Croeso cwrtais bob amser

Ffôn: 01437 563423
Ffacs: 01437 563329

Celia Vlismas
OPTEGYDD

Croeso i
gleifion GIG!

Profion golwg GIG ar gael
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un
sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG

Castell Newydd Emlyn 01239 711888
Crymych 01239 831555
Arberth 01834 861373
www.celiavlismasopticians.co.uk



Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf

Robert W. R. Morgan



CYMERADWYEDIG GAN
NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygnwyrn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robbrmd28@gmail.com



**ARBENIGWR
LAND ROVER
ANNIBYNNOL**



MOT



♦CEIR ♦BEICIAU MODUR ♦FANIAU ♦4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf





Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin
Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.
Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

♦RHANNAU SPAR ♦GWASANAETH ♦TEIARS
♦BATRIS ♦WELDIO ♦TRACIO PEDAIR OLWYN
♦TYMHERU AER

Ffôn: 01994 232960 ♦ Symudol: 07968 868313
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



George's
o San Clêr

Pysgod a Sglodion traddodiadol rhagorol



**Pysgod - Sglodion - Risols
Selsig - Cyw lâr - Dioddydd**

Ar agor Llun i Sadwrn
11.30 - 20.30
Croeso i chi archebu
ar y ffôn
01994 231482
Heol yr Orsaf,
San Clêr





Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login
Hendygywn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk**




Nifer y dyddiau

Rhagfyr

Sad 10 **Nadolig Gerddi Kew** 2

Sad 17 *Sioe Gerdd - Les Miserables, CMC a Bae Caerdydd* 1

Ionawr 2023

Sad 28 *Sioe Gerdd - Strictly Ballroom, CMC a Bae Caerdydd* 1

Chwefror

Gwe 24 **Riviera Lloegr - Paignton** 4

Ebrill

Sad 1 *Mother Goose, CMC a Bae Caerdydd* 1

Sad 24 *Sioe Gerdd - Jersey Boys, CMC a Bae Caerdydd* 4

Llun 26 **Gwesty Warner - Nidd Hall, Swydd Efrog** 4

Sad 29 *Sioe Gerdd - The Bodyguard, CMC a Bae Caerdydd* 1

Mai

Sad 6 *Sioe Gerdd - Charlie & The Chocolate Factory, CMC* 1

Llun 15 **Hyfrydwch Sir Lincoln** 5

Llun 22 **Petalau, Pabi a Phorslen** 5

Sad 27 *Sioe Gerdd - The Commitments, CMC a Bae Caerdydd* 1

Mehefin

6 a 7 *Coldplay - Stadiwn Principality (Bws yn unig)* 1

20 a 21 *Harry Styles - Stadiwn Principality (Bws yn unig)* 1

Mer 21 **Diwrnod y Merched - Royal Ascot** 3

Mer 28 *Yr Alban - Ucheldiroedd, Tren & Dolffiniaid* 7

Nifer y dyddiau

Gorffennaf

Sad 1 *Sioe Gerdd Take That - Greatest Days, CMC a Bae Caerdydd* 1

25 a 26 *Sioe Frehinol Cymru* 1

Awst

Llun 7 **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** 6

Gwe 11 *Eisteddfod Genedlaethol Cymru* 1

Medi

Sad 2 **Jersey** 7

Llun 11 **Windsor a Gerddi Wisley** 5

Llun 18 **Cider with Roses - Swydd Dyfnaint** 5

Llun 25 **Iwerddon - Mynyddoedd Wicklow a Dilyn** 6

Hydref

Llun 16 **Gwesty Warner - Heythrop, ardal y Cotswolds** 5

Maw 24 **Llandudno - Gwesty'r Tynedale** 5

Tachwedd

Sad 25 *Sioe Gerdd - Shrek, CMC a Bae Caerdydd* 1

Llun 27 **Twrci a Tinsel - Torquay (Gwesty'r Headland)** 5

Rhagfyr


Gwe 8 **Nadolig Chatsworth a Chaer** 3

Sad 23 **Gwyliau Nadolig - Lleoliad i'w gadarnhau** 5

Llyfryn newydd 2023 ar gael nawr!!

Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!

Calendr Yr Awen



Sylweddolais yn ddiweddar fod rhai o'm lluniau gorau wedi eu tynnu mewn tywydd eithafol neu ar ddyddiau oer rhewllyd, pan roedd rhan fwyaf o bobl yn cwtsho'n synhwyrol ger y tân. Dyma dri rheswm pam fy mod yn ffotograffydd; y niwl yn gorchuddio Dyf-fryn Taf ar godiad haul yn y gaeaf,

murmur yr adar ar fachlud haul a swm adenydd gwenyn i fynyn agos ataf. Mae natur yn fy ysbyrdoli i ddal harddwch moment ddigymell a'i rannu ag eraill. Galwodd yr hen feirdd yr ysbyrdoliaeth hwnnw yn "awen", sef thema fy nghalendr ar gyfer 2023.

Mae'r calendr hwn yn gyfangwbl yn Gymraeg. Rwy'n dysgu "yr iaith brydferth" (fel galwodd J. R. R. Tolkien hi), ac rwy'n gwrandao ar fy ngwersi yn aml, drwy glustffonau, tra allan yn cerdded gyda fy nghamera! Nid fy mwriad yw eithrio siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl fel fi, ond annog a rhoi cyfle i ymwneud â'r Gymraeg bob dydd. Mae pob mis yn cynnwys llun ysbyrdoledig a dynnwyd yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, ynghyd â hen ddjarhebion Cymraeg i gynnig geiriau o ddoethineb i chi drwy gydol y flwyddyn – gyda lle i wneud nodiadau hefyd.

Croeso i ymholiadau cyfanwerthu a chomisiynau. Byddaf i bob amser yn gwerthfawrogi derbyn awgrymiadau a mynediad at lefydd lleol i dynnu lluniau. Gellir cysylltu a mi drwy e-bost: karen@cardiukaren.cymru neu ymwelwch a'm gwefan – www.cardiukaren.cymru

Mae'r calendr hefyd ar werth yn y siopao canlynol:

J.K. Lewis, Glandy Cross.	• Siop Sian, Crymch.
Caffi Beca, Efailwen.	• Bwyd y Byd, Crymch.
Spar Llanboidy.	• Rosslyn Stores, Blaenffos.

CYSTADLEUAETH GWOBR GOFFA

RICHARD A WYN

Pan gynhaliwyd Gŵyl Fel 'Na Mai am y tro cyntaf yn 2022 lansiwyd cystadleuaeth i gofio am gyfraniad Richard a Wyn Jones, Ail Symudiad i'r sîn roc Cymraeg. Mae pwyllgor yr Ŵyl, gyda chefnogaeth y teulu yn bwriadu trefnu cystadleuaeth flynyddol i wobrwyo artistiad ifanc newydd o Sir Benfro, Sir Gâr neu Geredigion a rhoi hwb i'w gyrfa cerddorol.

Bydd cyfle i fandiau neu unigolion i gystadlu a chynhelir noson arbennig i glywed y talentau newydd yng Nghannolfan Hermon ar nos Wener, 10fed Chwefror fel rhan o ddathliadu Dydd Miwsig Cymru yn yr ardal.

Felly, os ydych yn fand neu yn artist ifanc, neu o bosib yn bwriadu dechrau perfformio, beth am fod yn rhan o'r gystadleuaeth gyffrous hon.

Gofynnir i bawb fydd yn cystadlu berfformio set o ddim mwy na chwarter awr ac os oes gennych gân newydd, wreiddiol, gorau i gyd ond nid yw hyn yn orfodol. Gall y perfformiadau fod yn cynnwys canu neu offerynnol ond rhaid perfformio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Beirniaid y gystadleuaeth fydd Dafydd ac Osian Jones ac Elidyr Glyn. Bydd y gyflwynwraig lleol Mirain Iwerydd yn llywio'r noson a'r wobrw fydd Tlws Her Gwobr Goffa Richard a Wyn ynghyd â £200 a chyfle i berfformio yng Ngŵyl Fel 'Na Mai yng Nghrymch ar ddydd Sadwrn, 6ed Mai, 2023.

Yn dilyn y gystadleuaeth edrychwn ymlaen at groesawu un o fandiau mwya poblogaidd Cymru sef Bwncath i berfformio unwaith eto yn yr ardal.

I gofrestru neu i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Dafydd Vaughan drwy anfon ebost at dafydd@menter-sirbenfro.com



Preselstorage cyf.

Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.

Llanddewi Elfelfre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd



01834 860227



R. M. JONES

CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD

Bridge End House
Clunderwen

Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigi@hotmail.com



Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebst: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

CAPEL YN CAU ER MWYN EI AIL AGOR

Yr oedd yn ddiwrnod trist yn fy hanes pan gefais wahoddiad 'nôl i oedfa dadgysegru capel Brynmyrnach lle y treuliais 20 mlynedd hapus o'm taith gweinidogaethol. Gan nad wyf yn gyrru ar hyn o bryd gwerthfawrogaf hynawsedd a charedigrwydd Terry Reynolds ac Aled Francis am fy nghludo 'nôl a 'mlan yn ddiogel, er mwyn gwneud hi'n bosibl i mi fod yno. Cefais y dasg o ddarllen a chan nad oeddwn yn medru ar fy nrhaed yn hir methais ddweud gair o werthfawrogiad o'r amser gynt.

Yr wyf yn hyderu drwy garedigrwydd y papurau bro Clebran, Y Cardi Bach ar Tyst y caniatewch i mi gywiro'r cam. Pan oeddwn yn eistedd yng nghornel y sedd fawr yn disgwyl i'm tro i ddarllen, fe grwydrodd fy meddwl i dri digwyddiad mewn hanes. Mae'r cyntaf i'w weld yn Efengyl Luc pennod 16. Yno mae hanes am rhyw berchennog busnes a ganddo gwsmeriaid lawer. Penododd oruchwiliwr i ofalu am eu dyledion. Daeth i glyw y perchennog fod y goruchwiliwr yn anonest, ac fe'i galwyd ato er mwyn ei ddi-swyddo. Sylweddolodd y goruchwiliwr beth oedd yn digwydd. Er mwyn iddo gael croeso ganddynt pan fyddfe fe allan o waith, dyma fe mynd at ei ddyledwyr a hanneru maint eu dyledion. Canmolodd y perchennog ef nid am ei anonestrwydd, ond am ei fod wedi bod yn gall drwy ddweud fod meibion y byd hwn yn gallach na meibion y goleuni yn eu hymwneud a'u tebyg. Mae plant y goleuni yn methu cadw capeli ar agor, ond mae plant y byd hwn yn gweld defnydd arall iddynt er lles y gymdeithas ehangach.

Dymunaf yn dda i'r fenter a'r weledigaeth newydd yma. Pan oedd fy mam yn ferch ifanc yn Hermon, Cynwyl Elfed dyma un o'r swyddogion yn dweud wrth y gweinidog y Parch W. J. Rees "Mewn rhai blynyddoedd ni fydd capeli'n bodoli, ac ateb y gweinidog oedd, "Rwyf yn dweud y gwir, ond os na fydd capeli ar agor byddant yn adeiladu carchardai yn ei lle. Mae'r cyfnod hwnnw wedi cyrraedd. A'r rhybudd arnynt "yn llawn cyn ei bod yn agor".

Fe symudwyd Capel Undodaidd Penrhyw o Drefach Felindre i'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan lle y bues i yn gofalu amdano pan oeddwn yn gweithio yno. Fe hysbyswyd yn helaeth yn y papurau ei fod yn cael ei ailagor a'i gysegru yn ei safle newydd ar dir yr Amgueddfa. Yr oedd yna gymeriad yn byw yn Drefach o'r enw John Evans neu ar lafar gwlad (John y Gwas) wedi cael ei ddewis i siarad yn yr agoriad a dyma a ddywedodd "nad oedd e'n credu y byddai Duw yn diolch i Dr. Iorwerth Peate (Curadur yr Amgueddfa) am "Adverteiso un o'i ffeiliers". Tybed a odi'r Duw Tragwyddol yn diolch i aelodau Brynmyrnach trwy ddweud fod plant y byd hwn yn gallach na phlant y goleuni trwy ymwneud â'i tebyg. 'Rwy'n cofio'n dda y diwrnod cyntaf i mi gyrraedd y lle, i Sally Lewis, Glandwr (gan mae yno yr oeddwn yn y bore) ffonio Jane James, Brynmyrnach yn gofyn iddi ddangos y ffordd i Lwynyrhwrdd. Gan fod y ddwy Eglwys yn gweithio'n dda gyda'i gilydd penderfynodd Jane ddod gen i. Teithio trwy bentre Glog, ac i fyny y ffordd gul hebio i chwareli cerrig y Glog. Hanner ffordd dyma fi'n gofyn i Jane i ble rown ni'n mynd. Atebodd i Lwynyrhwrdd, ac mi feddyliais mae fi

oedd oedd yr hwrdd mwya yn meddwl am y syniad o symud i'r fath le. Sylweddolais yn fuan iawn wedi cyrraedd, fod yr ardal yn ardal ddiwylliedig iawn. Yr oedd y Parch Lloyd Harries wedi bod yn weinidog yma am flynyddoedd lawer, ond yn anffodus mi gafodd strôc pan oeddwn i yn dechrau. Gan fod ni'n dau yn hannu o'r un ardal sef Cynwyl Elfed, mi fyddai wedi cyfoethogi fy ngwenidogaeth yn fawr iawn. Wrth ymweld ag e yn ei gartref yn Cilgerran fe deimlais y golled honno. Pan gyrhaeddais i Brynmyrnach yn sylweddoli fod yna dîm o weithwyr yn barod am waith. Nid wyf am enwi neb rhag ofn i mi yn anfwriadol adael rhywun allan. Fel pob tîm yr oedd yna adrannau, ac mi ddefnyddiaf y termau Saesneg i'w disgrifio gan ei bod yn fwy cyfarwydd i'r darllenwr cyffredin.

Yr oedd gen i "Forwards", y diaconiaid, nad oedd gwell gan neb, ac mi fedrem ddibynu arnynt. Rhai yn y canol "y centres" rhai yn cefn "full backs" rhai bob ochr "outside left" ar "outside right" a rhai hefyd ddim yn dod i'r oedfa ond yn meddwl y byd o'r tîm "left outside". Wrth fugeilio, yn cael yr un croeso gan bob adran fel gilydd. 'Doedd neb ohonynt yn chwarae "off side". Yr oeddent hefyd yn cydnabod mae fi oedd capten y tîm, am fod pob un ohonynt yn nabod y rheolwr Iesu, ac yn dod yn rheolaidd ar y Sul i'w addoli. Yr oedd y Gymanfa Ganu a'r Gymanfa Bwnc yn ei hanterth a thrafodaethau brwd wrth drafod y gair. Credaf mae Ysgol Sul Brynmyrnach a roddodd weinidog i'r Bedyddwyr a minnau wedi chwarae rhan fach iawn yn y datblygiad hwnnw. Hyfryd oedd cael bod yn ei chyrddau ordeinio yng Nghastell Newydd Emlyn i ddymuno'n dda iddi ar ran Brynmyrnach wrth iddi ddechrau ar ei thaith gweinidogaethol ar ddiwrnod ofnadwy o wlyb. Y diwrnod yn siwto'r Enwad. Dymunaf yn dda a phob bendith i Sian Elin Thomas yn y gwaith.

Y teimlad sydd gen i fod yr oes fodern hon am gael gwared ar rheolwr a chymryd yr awenau i'w dwylo ei hunain, ac felly mae'r llefydd ymarfer yn cau, ac yn cael ei defnyddio i bwrpas arall ar timau yn peidio â bod. Y perygl yw fod yna dueddiad ynom heddiw i gael ein denu i chwarae "off side" a gadael i dîm y byd sgorio yn ein herbryn. Yr ydym mewn creisis economaidd heddiw am ein bod mewn creisis ysbrydol. Ateb Cesar oedd codi trethu, ateb Sunak hefyd yw codi trethu er mwyn cwrdd â'r broblem, ond ateb Duw i'r un broblem oedd rhoi mab ar Galfaria ac i ni ei dderbyn fel Gwaredwr. Er bod syrjeri Brynmyrnach yn cau y mae'n hollol sicr na fedrwn ni gau yr achos gan nid ni bia'r achos.

Gweddill aelodau Brynmyrnach ymunwch â thimau eraill yn y cylch. Efallai mae ar y fainc y byddwch am beth amser, a gan fy mod yn eich adnabod yn dda a phan welant eich doniau 'rwy'n siwr mi fyddwch ddim yn hir cyn cael mynediad i'r tîm llawn.

Pob bendith i chi gyd a phob tîm arall sydd yn yr ardal.

Collwyd apêl y capeli-a gwelw

Yw golau'n y festri

Maen wrth faen yw'r sylfeini

Heddiw'n drech na'r ddau neu dri.

Y Parch Hywel Mudd

Cyfarfodydd Hanner Blynyddol Gymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion.

Cynhaliwyd cyfarfodydd hanner blynyddol Gymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion yng nghapel Seion, Llangadog ar brynhawn Mawrth, Tachwedd 8fed. Diolch yn fawr am y croeso arbenning yn Nyffryn Tywi er waetha'r glaw!

Yn dilyn trafod materion y Gymanfa yn y gynhadledd yn y prynhawn, cafwyd anerchiad wych gan Y Parch. Jeff Thomas, ficer Llangadog ar y thema 'Y Gyfraith a Chrefydd' ac yna pregeth afaelgar gan y Parch. Peter M Thomas, Aberystwyth yn yr oedfa bregeth i gloi gweithgareddau'r dydd.



Parchedig Peter Thomas, pregethwr gwadd; Ann Bowen Morgan, Cyn Lywydd; Eurfyl Lewis, Is Lywydd; Parchedig Mary Davies, Llywydd; Alwena Roberts, ysgrifennydd Capel Seion; Rhidian Evans, Ysgrifennydd; Sian Evans, organyddes a Wyn Evans, Trysorydd.

PENBLWYDD HAPUS I SIOP Y PENTAN YN 50 OED



Yn mis Hydref eleni, roedd Siop y Pentan yn dathlu penblwydd arbenig- yn 50 oed!

Efallai fod rai ohonoch chi'n cofio'r siop yn agor -am y tro cyntaf - yn Heol Dwr, Caerfyrddin yn 1972. Wyn Thomas, o Lanpumpsaint, oedd perchennog y siop Gym-

raeg gyntaf o'i bath yn nhref Caerfyrddin. Gwelwyd sawl siop Gymraeg arall ar hyd a lled Cymru, yn agor yn ystod y cyfnod yma hefyd. 'Roedd yn amlwg fod yr amser wedi dod i gael siopau fyddai'n cynnig amrywiaeth o nwyddau, a chardiau cyfarch Cymraeg, ac wrth gwrs - y llyfrau Cymraeg-i oedolion a phlant.

Yn fuan iawn, symudodd Siop Y Pentan i'r hen farchnad yng Nghaerfyrddin, ac yn y fan honno y buodd tan 2009, pan symudodd i'r farchnad newydd sbon ynghanol y dref. Erbyn hyn 'roedd y siop bron a bod yn 38 oed, ac fe werthwyd Siop y Pentan i Andrew a Llio Davies. 'Roedd Andrew yn fab i Nansi Davies, o Lanpumpaint, a fu'n gweithio yn y siop am 27 o flynyddoedd, ac mi roedd cysylltiadau agos iawn rhwng y ddau deulu. 'Roedd Andrew a Llio wrth ei bodd yn cael y cyfle - a'r fraint - i fod yn berchnogion ar siop oedd wedi bod yn rhan bwysig iawn o dref Caerfyrddin dros y blynyddoedd. Yn anffodus, mi fu farw'r annwyl Andrew, yn 52 oed, yn 2016, ar ôl bod yn berchennog y siop am 7 mlynedd.

Mi aeth Llio ymlaen i redeg y siop tan 2018, pan benderyfnodd Brieg, y mab hynaf, y bydda'i ef yn falch iawn o gymeryd yr awenau, a phrynu'r siop. Yn mis Mehefin 2019, lansiwyd gwefan newydd sef www.siopypentan.co.uk a dyma pryd y daeth Iago, y mab ieuengaf hefyd i weithio yn y siop.

Er i'r siop, fel sawl busnes arall, fynd drwy gyfnod heriol yn ystod y cyfnod clo, bu cynnydd mawr ar werthiant ar y we, ac wrth gwrs 'roedd pobl wrth ei bodd yn cael dod yn ol i'r siop wedyn! Mae'n siop gymunedol a chymdeithasol, gyda chwsmeriaid ffyddlon, annwyl a hael. Mae hefyd nifer dda o ymwelwyr yn dod draw dros wyliau'r haf.

Yn ddiweddar, agorwyd Siop y Pentan newydd - a hynny yn nhref Llanelli. 'Roedd agor siop newydd hefyd yn ffordd o ddathlu'r 50 mlynedd ers cychwyn y siop yng Nghaerfyrddin.

Bu Siop y Pentan yn dathlu ei phenblwydd arbennig yn ddiweddar drwy roi anrhegion o bob math i'w cwsmeriaid ffyddlon, a hynny i ddangos diolchgarwch i'r gefnogaeth arbennig a fu i Siop Y Pentan dros yr holl flynyddoedd.

Brieg

Dymuna papur bro Y Cardi Bach longyfarch Siop y Pentan ar ddathlu carreg filltir nodedig. Diolch iddynt am ddarparu gwasanaeth gwyb i'w cwsmeriaid a dymuniadau gorau ar gyfer yr hanner canrif nesaf.

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr
Siop Radio a Theledu
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

MASNACHWYR ADEILADU DAVIES
Cyflenwyr Adeiladu a D.I.Y.
Arddangosfa Ceginau
ac Ystafelloedd Ymolchi
ar agor
Heol yr Orsaf
Hendygywn
Ffôn:
01994 240228

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

Apêl am siaradwyr Cymraeg i sgwrsio gyda ddysgwyr

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn chwilio am siaradwyr Cymraeg i ymuno yn eu cynllun 'Siarad', sy'n paru siaradwyr Cymraeg gyda ddysgwyr.

Mae cannoedd o ddysgwyr ledled Cymru eisoes yn rhan o'r cynllun, ac wedi eu paru, ond mae cannoedd mwy ar restr wrth gefn, yn aros i gael eu paru.

Nod y cynllun ydy rhoi cyfle i ddysgwyr fagu hyder trwy sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg a'u cyflwyno i gyfleoedd i ddefnyddio eu Cymraeg yn lleol.

Un o'r siaradwyr Cymraeg sydd wedi bod yn rhan o'r cynllun yw Margaret Davies o Gaerfyrddin. Dywedodd,

"Mi wnes i a fy mhartner siarad, Gwenda, gyfarfod trwy gydol y cyfnod y clo ac mi oedd hynny yn fendigedig gan ei bod yn gwmni difyr. Mi oedd hi mor awyddus a mor dda, mi oedd yn bleser cael sgwrs fach. Dw i wedi gwneud ffrind oes.

"Mae unrhyw un sydd â diddordeb yn yr iaith ac ym mharhad yr iaith yn mynd i weld pa mor bwysig yw'r cynllun. Mae'n rhoi rhyw wefr i chi pan 'dych chi'n gweld nhw'n dod mlaen gyda'i Cymraeg."

Ychwanegodd Gwenda Sippings, partner siarad Margaret, "Y peth gorau i mi am y cynllun Siarad yw ei fod yn rhoi hyder i chi gael sgwrs werthfawr, nid dim ond sgwrs sydyn wrth basio yn y stryd. Mae'n hyfryd cael rhywun 'dw i'n ymddiried ynnddi, sy'n fodlon fy rhoi ar ben ffordd.

"Mae'r cynllun Siarad wedi bod yn gymaint o help i mi groesi'r bont rhwng dosbarthiadau a'r gymuned Gymraeg. Mae'n bwysig iawn ein bod ni'n clywed iaith naturiol ac mae'n gymaint o help cael sgwrsio gyda rhywun sy'n rhugl.

Ychwanegodd Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg, "Wrth ddysgu unrhyw sgil newydd, mae angen ymarfer. A dyw dysgu iaith ddim yn eithriad.

"Felly, roeddem ni eisiau rhoi cyfle i siaradwyr newydd sgwrsio rhwng gwersi ond hefyd eu cyflwyno i gyfleoedd yn y gymuned i siarad Cymraeg.

"Rydym yn gofyn am ymrwymiad o 10 awr – ac mi all hynny fod tra'n sgwrsio dros banded, mewn gêm bêldroed, yn y côr, wrth fynd am dro neu lle bynnag sy'n apelio."

Mae galw am bobl ar draws Cymru ac mae modd cofrestru trwy ymweld â gwefan dysgucymraeg.cymru neu e-bostio swyddfa@dysgucymraeg.cymru

Difyrion Digidol

Y mis hwn, rwyf am drafod un ffordd hwylus iawn a didraffeth o gyrraedd gwefan benodol ar eich ffôn neu dabled heb orfod teipio ei chyfeiriad yn llawn.

Ydych chi wedi sylwi ar gornel posteri neu docynnau rhyw gôd rhyfedd yr olwg? Ydych chi wedi meddwl beth yw pwynt y côd hwn? i ateb y cwestiwn, dyma beth sy'n cael ei alw'n gôd QR neu Quick response i roi ei enw llawn. Mae'r dull hwn wedi bodoli ers blyneddau, yn mynd a dod o ran poblogrwydd ond mae'r côd hwn wedi ennill ei blwyf fel ffordd hwylus o allu cael mynediad sydyn a diffwdan at wefan. Os ydych y tu allan yn yr awyr agored ac eisiau manylion pellach am ddigwyddiad neu weithgaredd, mae'n gyfleus ac yn hawdd.

O ran gwella hygyrchedd i bobl sy'n cael trafferth teipio, mae QR yn ffordd wych o allu osgoi y rhwystr hwnnw. Y cwbl sydd angen i chi ei wneud yw agor camera eich ffôn a'i bwyntio at y côd a'i ddal yno am eiliad er mwyn ei sganio. Wedyn fe ddaw cyfeiriad y wefan i'r golwg, yna, pwyswch ar y ddolen ac fe fydd hynny yn eich arwain at y wefan. Mae'n bosib canfod codau QR mewn pob math o sefyllfaoedd bellach ond yn tueddu i fod yn boblogaidd gyda thocynnau digwyddiadau, yn rhoi gwybodaeth am leoliad o bwys amgylcheddol, safleoedd hanesyddol neu atyniadau twristaidd a llawer iawn mwy. Mae rhai sefydliadau yn defnyddio codau QR i greu helpa drysor er enghraifft i blant. Felly cadwch lygaid am y côd QR ac ewch ati i'w sganio os ydych yn chwilfrydig. Mae'n bosib hefyd i greu eich côd QR am ddim eich hun i hyrwyddo unrhyw fath o ddigwyddiad ar boster, er mwyn gallu tywys y defnyddiwr i ganfod manylion pellach ar eich gwefan Facebook.

Mae yna sawl gwefan yn cynhyrchu codau QR am ddim e.e. <https://www.the-qr-code-generator.com/> Er mwyn creu eich côd QR unigryw, mae'n rhaid copïo a phasio cyfeiriad llawn y wefan yn y blwch ac mae'r wefan uchod yn trosi'r cyfeiriad yn gôd QR yn awtomatig, gallwch wedyn ei lawrlwytho fel delwedd ffeil png/jpg i'w ddefnyddio mewn dogfen Photoshop neu Word er mwyn ei osod ar ddelwedd arall. Mae'n bosib hefyd i greu codau QR sy'n storio neges destun yn cynnwys gwybodaeth bellach am ddigwyddiad, lleoliad, hanes neu rywogaeth ym myd natur. Mae llwybrau treftadaeth yn tueddu i gynnwys QR ar hysbysfwrdd i roi gwybodaeth ar hyd y daith am leoliadau pwysig neu sydd o ddiddordeb. Ond mae'n bosib hefyd i arwain y defnyddiwr at ddogfen PDF neu ap cysylltiedig. Mae'r potensial yn ddibendraw. Felly, beth am roi tro arni? Creuwch eich côd QR eich hun a'i osod mewn hysbyseb? Mae'n hwyluso mynediad i bawb ac yn arbed y drafferth i bobl orfod teipio'r cyfeiriad hir.

Os hoffech chi fel mudiad neu gymdeithas arweiniad pellach ar godau QR, neu'n awyddus i gael hyfforddiant am ddim ar wella ymgysylltiad cymunedol trwy'r cyfryngau cymdeithasol, cysylltwch gyda mi deian. apRhisiart@wales.coop



Bysiau Cwm Taf

Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol



TEITHIAU 2023

Gwener 13eg Ion	ADUNIAD BLYNYDDOL YN Y BELGRAVE SANDS TORQUAY	£230	4 Diwrnod
Gwener 20ain Ion	PENWYTHNOOS ARBENNIG YN GWESTY'r PALACE PAIGNTON	£230	4 Diwrnod
Gwener 3ydd Chwef	DARTMOOR ac ARFORDIR DE DYFNAINT	£295	4 Diwrnod
Iau 9fed Chwef	Rygbi y Chwe Gwlad ALBAN v CYMRU yn CAEREDIN	£349	4 Diwrnod
Llun 13eg Chwef	WESTON SUPER MARE	£355	5 Diwrnod
Llun 20fed Chwef	MORDAITH DYCHMYGOL - NGWESTY'r TYNEDALE LLANDUDNO	£495	5 Diwrnod
Gwener 24ain Chwef	PENWYTHNOS O SEIBIANT YN BIDEFORD	£275	4 Diwrnod
Sul 5ed Mawrth 2023	GOGONEDDAU ARFORDIR CERNYW - ST AGNES	£300	4 Diwrnod
Gwener 10fed Mawrth	Hwyl a Ssbri gyda CLIVE a'i Ffrindiau yn y CELTIC CAERNARFON	£220	3 Diwrnod
Gwener 17eg Mawrth	PENWYTHNOS CABARET YN TORQUAY	£300	4 Diwrnod
Sul 19eg Mawrth	YNYS WYTH - SANDOWN - ISLE OF WIGHT	£410	5 Diwrnod
Llun 27ain Mawrth	BOURNEMOUTH - "NEW FOREST a BEAULIEU"	£375	5 Diwrnod
Llun 3ydd Ebrill	RHEILFFYRD RHAMANTUS GOGLEDD CYMRU	£495	5 Diwrnod
Gwener 14eg Ebrill	MOETHUSRWYDD GWESTY'r BELGRAVE SANDS TORQUAY	£330	4 Diwrnod
Sul 16eg Ebrill	?????????? TAITH DDIRGEL MIS EBRILL i ?????????	£495	5 Diwrnod
Gwener 21ain Ebrill	PENWYTHNOS GYMREIG YN Y TYNEDALE LLANDUDNO	£405	4 Diwrnod
Gwener 28ain Ebrill	TAITH Y LLWYBRAU BLODAU EVESHAM	£285	4 Diwrnod
Sul 7fed Mai	SBAEN - YSBLANDER CANTABRIA	£1,100	10 Diwrnod
Sul 7fed Mai	SCARBOROUGH	£560	6 Diwrnod
Gwener 19eg Mai	HYFRYDWCH DARTMOOR ac ARFORDIR HARDD DYFNAINT	£330	4 Diwrnod
Gwener 26ain Mai	SIOE FLODAU CHELSEA	£375	3 Diwrnod
Gwener 26ain Mai	CRWYDRO'R ALBAN - YNYSOEDD LEWIS a SKYE HEBRIDEAN	£1,070	8 Diwrnod
Llun 5ed Mehefin	GERDDI SWYDD LINCOLN a'I HANES DIDDOROL	£395	4 Diwrnod
Mercher 7fed Mehefin	TAITH YSBLENNYDD O'R IWERDDON	£1,275	11 Diwrnod
Gwener 16eg Mehefin	SIOE FAWREDDOG "BBC GARDENERS WORLD"	£195	2 Ddiwrnod
Llun 19eg Mehefin	TREN, CWCH a CASTLE HOWARD YN EFROG, LLOEGR	£485	5 Diwrnod
Iau 22ain Mehefin	CYFLYMDER CEIR RASIO YN GOODWOOD	£365	3 Diwrnod
Sadwrn 24ain Mehefin	TRENNAU BACH Y RHINEYN YR ALMAEN	£1,150	8 Diwrnod
Mawrth 27ain Mehefin	LLANDUDNO YN YR HAF	£520	5 Diwrnod
Sul 2ail Gorff	ARFORDIR CYFAREDDOL KENT A CHASTELL LEEDS	£495	5 Diwrnod
Gwener 7fed Gorff	SIOE FLODAU FAWREDDOG HAMPTON COURT	£360	3 Diwrnod
Llun 10fed Gorff	O AMGYLCH FFINIAU CYMRU		
Iau 13eg Gorff	TAITH FACH FYR I'R COTSWOLDS	£290	3 Diwrnod
Sul 16eg Gorff	SUFFOLK	£550	5 Diwrnod
Gwener 28ain Gorff	CYCHOD A THRENNAU Y TYROL YN YR AWSTRIA	£995	8 Diwrnod
SUL 30ain Gorff	CAMBRIDGE	£525	5 Diwrnod
Sul 6ed Awst	"PEAK DISTRICT" CANOLBARTH A GOGLEDD LLOEGR	£495	5 Diwrnod
Gwener 11fed Awst	GWYL RHYNGWLADOL BALWNS BRYSTE	£255	3 Diwrnod
Llun 14eg Awst	DURHAM A BEAMISH	£515	5 Diwrnod
Llun 21ain Awst	WINDSOR FRENHINOL a'r GOGONEDDUS WISLEY	£535	5 Diwrnod
Mercher 23ain Awst	SIOE AGER A HEN BEIRIANNAU DORSET - BOURNEMOUTH	£395	4 Diwrnod
Llun 28ain Awst	TEITHIO A HWYLIO YN ARDAL Y LLYNOEDD	£530	5 Diwrnod
Sadwrn 2ail Medi	LLANDUDNO A CHAMLAS LLANGOLLEN	£545	5 Diwrnod
Gwener 8fed Medi	GWESTY'R BELGRAVE SANDS TORQUAY	£375	4 Diwrnod
Llun 11fed Medi	NORFOLK - SANDRINGHAM	£565	5 Diwrnod
Sul 17eg Medi	DUMFRIES a GALLOWAY YR ALBAN	£520	5 Diwrnod
Sul 24ain Medi	ARFORDIR A CHLOGWYNI DONEGAL YR IWERDDON	£675	6 Diwrnod
Llun 25ain Medi	GOLEUADAU A GOLEUANNAU BLACKPOOL	£360	5 Diwrnod
Sul 1af Hydref	NEWCASTLE a NORTHUMBRIA	£535	6 Diwrnod
Gwener 6ed Hyd	LOOE ac ARFORDIR CERNYW	£355	4 Diwrnod
Gwener 13eg Hyd	HWYL a SBRI gyda CLIVE a'i Ffrindiau yn BOURNEMOUTH	£410	4 Diwrnod
Gwener 20fed Hyd	AWYRENNAU, TRENNAU A CHERBYDAU	£410	4 Diwrnod
Gwener 27ain Hyd	WESTON SUPER MARE	£335	4 Diwrnod
Gwener 3ydd Tach	TWRCI A THINSEL AR DARTMOOR	£345	4 Diwrnod
Gwener 10fed Tach	UCHELWYDD A GWIN YN BABBACOMBE	£295	4 Diwrnod
Llun 13eg Tach	CELYN AC UCHELWYDD YN LLANDUDNO	£515	5 Diwrnod
Gwener 17eg Tach	MARCHNADOEDD NADOLIG - CHELTENHAM a GLOUCESTER	£245	3 Diwrnod
Sul 19eg Tach	TWRCI A THINSEL NADOLIG YN SCARBOROUGH	£510	6 Diwrnod
Llun 27ain	TWRCI A THINSEL YN Y BELGRAVE SANDS TORQUAY	£440	5 Diwrnod

Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau

Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni

01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk



PENBLWYDD HAPUS



cc



Penblwydd hapus i Mabon mab Iwan a Sarah, ac ŵyr Robert a Diane Evans, Hendygywyn, a Ken a Kath Turner, Port Talbot, a fydd yn 2 flwydd oed ar 29ain o Ragfyr ac i'w dad ar 22ain o Ragfyr. Llauer o gariad.



Penblwydd hapus i Elspeth Scott Robinson a oedd yn 7 oed ar Hydref 23ain ac i'w chefnider Cai Alexander Booth yn 7 oed hefyd ar Dachwedd 27ain. Yn y llun hefyd mae Taliesin Angus, brawd mawr Elspeth a oedd yn dathlu'i benblwydd ef yn 10 oed ar Fehefin 3ydd. Maent yn blant i Siriol a Nia, gynt o Garnwen, Llangynin. Cyfarchion cynnes iawn a chariad mawr i chi'ch tri wrth Grannie, Grampa a Li.



Penblwydd hapus iawn i Ema Farnden a fydd yn 4 oed ar Ionawr 8fed. Llauer o gariad oddi wrth Mami, Dadi a'r teulu Roblin a Farndens. X



Penblwydd hapus iawn i'r ddwy chwaer yma o Feisgyn. Fe fydd Efa-Grug yn ddeg oed ar y 27ain o Dachwedd a'i chwaer Mari Elli yn wyth oed ar yr 2il o Ragfyr. Cariad mawr wrth, Mami, Dadi, Betsi Haf, Mamgu a Geraint, Carreglwyd, Llangynin a Hen-Ddadcu, Tymore, Llangynin. Xxx



Penblwydd hapus i Rhys Biggs a fydd yn 10 oed ar Ionawr 15fed. Mae Rhys yn byw yn Warrington gyda'i rieni a'i frawd Glyn ac mae'n ŵyr i Iori a Ceri Saer, Blaenffynnon, Cwmfelin Mynach. Gyda llauer o gariad wrth Dad, Mam, Glyn a'r teulu i gyd xxx



Penblwydd hapus iawn i Gwen Rees o Tymawr, Pentregalar, Crymch a fydd yn 5 mlwydd oed ar Dachwedd y 30ain. Cariad mawr wrth, mam, dad, Megan, Lleucu, Mamgu a Dadcu Golygfa'r Cwm, Mamgu Tymawr a'r teulu i gyd xx



Penblwydd hapus i Llew Owen-Jenner a oedd yn bum mlwydd oed ar Dachwedd 18fed. Mae Llew yn fab i Gwilym Jenner ac yn ŵyr i Anthony a Ceirios o Efailwen.





Anrheg Nadolig



CYSTADLEUAETH Cyfle i un darlennydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Eleni, mae Bwgi-bo, y bwgan brain mud, wedi prynu anrheg Nadolig arbennig iawn i Mam-gu Iet-wen. Aildrefnwch y llythrennau i ddarganfod beth yw'r anrheg gwerthfawr.



Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/01/23

Ateb Cystadleuaeth Gaeafgyssu:

H (broga), Y (gwiwer), D (llyffant), R (ystlum), E (neidr) a F (draenog). Y crwbau oedd ar goll.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer. www.wenfro.cymru

© y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2022



Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.



Cyfarchion yr Ŵyl



Pob dymuniad da i'r teulu, cymdogion a ffrindiau dros yr Ŵyl ac i'r Flwyddyn Newydd. **Tony a Meinir Eynon, Penbontbren, Cwm-Miles.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, cymdogion a ffrindiau oddi wrth **Gareth ac Angela Murray, 2 Piccadilly, Llanboidy.**

Dymuna **Mr Tom Morris, Cartref Carreg Lwyd, San Clêr** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w gymdogion, ffrindiau a pherthnasau oll.

Dymuna **Brian John, Rose Cottage, Cwmfelin Mynach** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w gwsmeriaid, teulu a ffrindiau.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n teulu, ffrindiau a chymdogion. **Teulu Merlais**

Dymuna **Teulu, 25 Gorsfach, Pwlltrap** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl berthnasau, cymdogion a ffrindiau. Pob hwyl dros yr Ŵyl. **Rose ac Elgar Saer, 10 Stryd y Parc, Hendygywn.**

Dymuna **Wyn a Meirwen Evans** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

Dymuna **Ernest a Janet Jones, Heol Bronwydd, Caerfyrddin** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl deulu, cymdogion a ffrindiau.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ffrindiau, a pherthnasau - **Peter a Menna Lewis, Dinbych y Pysgod.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, ffrindiau a chymdogion - **Rodney ac Eiry Williams, Yr Hen Ffatri Bop, Llanboidy.**



Dymuna **Liz a Rob Burns, Cold Blow, Arberth** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, ffrindiau a chymdogion.

Dymuna **Roy Reynolds, Tymore, Llangynin** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i deulu a ffrindiau oll. **Dewi Griffiths, Cartref Clyd, Lôn Hafren, San Clêr.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, ffrindiau a chymdogion - **Merle Evans, Delfryn, Llanboidy.**

Cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cymdogion a ffrindiau. - **John a Megan Phillips, Croeso, Pwlltrap.**

Dymuna **Glyndwr Davies, Cartref Carreglwyd**, gynt o Llysmeini, Llangynin Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w deulu, ffrindiau a chymdogion.

Nadolig Llawen a iach a dymuniadau gorau am y Flwyddyn Newydd i bawb. **Brenda Bowen a'r teulu, Blaen-dôl-Frwynog, Llandissilio.**

Dymuna **Eurfyl, Jill, Ifan, Elen a Tomos, Lluest, Llanglydwen** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion.

Dymuna **Meurig a Pat Davies, Llygad yr Haul, Gerddi'r Ffynnon, Hendygywn** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cymdogion a ffrindiau.



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, ffrindiau a chymdogion oddi wrth **Grismond a Mary, Llwynllwyd.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'm ffrindiau, perthnasau a chymdogion. **Henry Morris 1 Rock House, Llandissilio.**

Dymuna **Norah Heseltine** ddanfôn cyfarchion yr Ŵyl i'w pherthnasau a ffrindiau.

Cyfarchion y tymor i'r teulu, cymdogion a ffrindiau - oddi wrth **Llinos a Geraint, Carreglwyd, Llangynin.**

Dymuna **Dorothy Jenkins, Gwynfa, Hendygywn** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, ffrindiau a chymdogion. Pob hwyl dros yr Ŵyl.

Dymuna **Susan, Maes y Werin, Llanboidy** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

Cyfarchion yr Ŵyl i'n cymdogion, ffrindiau a'r teulu oll. Oddi wrth **Eileen John a Graham, Marlowe, Gerddi'r Ffynnon, Hendygywn.**

Dymuna **Margaret a Dion, Cilowen, Login** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ffrindiau a pherthnasau.

Dymuniadau gorau am y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i'n teuluoedd, cymdogion a ffrindiau wrth **Elfed ac Eifiona Lewis, Llyskoed, Llangynin.**

Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen

Cyfarchion y tymor i'n cyfeillion i gyd yn yr ardal a thu hwnt. Pob dymuniad da am y flwyddyn sydd i ddod.

Dymuna **Nansi Evans, Penybont, Cwmfelin Mynach** Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion i gyd.

Cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl berthnasau, ffrindiau a chwsmeriaid - oddi wrth **Carwyn, Sarah, Jac a Josh Llanybri.**

Cyfarchion yr Ŵyl a dymuniadau gorau ar gyfer y Flwyddyn Newydd i'm teulu a ffrindiau. Pob bendith - **Merle Jenkins, Cartref Dolyfelin, San Cler.**

Cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion - oddi wrth **Roy a Rhoswen, Bro Gronw, Cwmfelin Mynach.**

**NADOLIG
LLAWEN**

Cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion - oddi wrth **Don a Rita James, Hafan Hedd, Pwlltrap**

Dymuna **Islwyn a Novella, Nantycyw, Trelech** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl berthnasau, cymdogion a ffrindiau.

Dymuna **Simon, Faith, Carys, Dafydd, Kelly, Emily a Noah, Carydd, Clunderwen** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion.

Nadolig Llawen a dedwydd i'n cymdogion, teuluoedd a ffrindiau oddi wrth **Anthony, Ceirios, Gwilym, Llew ac Owen, Efailwen.**

Dymuna **Mefin Lewis, Huan Aur, Login** Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau i gyd.

Dymuna **Tegwen James, Penybryn, Blaenwaun** Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion i gyd.

Dymuna **Granville, Mary a Hilda, Angorfa,** Llangynin Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb.



Dymuna **Tudur, Rhodri, Gwyndaf a Nia,** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Cardi Bach.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, cymdogion a ffrindiau - **Richard a Non Murray a'r teulu, Maes-y-Ffynnon, Login.**

Cyfarchion y tymor i'm perthnasau, cymdogion a'm holl ffrindiau a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. **Mel Jenkins, Ger y nant, Hendygywn.**

Hoffai **Wyn Owens. Llwynhelyg, Mynachlogddu** ddiolch i'w deulu, ffrindiau a holl ddarllenwyr Y Cardi Bach. Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Mae'r **Cyng. Jean, Ambrose a Gwawr** yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i drigolion Ward Trelech, cymdogion, ffrindiau a pherthnasau.

Diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Os oes angen cymorth plis cysylltwch ar 01994 484334 neu JeanLewis@carmarthenshire.gov.uk



Cyfarchion yr Ŵyl a phob bendith a iechyd i bawb yn y flwyddyn newydd.

Os am gymorth trwy'r adeg pryderus yma cofiwch gysylltu

Hoffwn ddiolch i bawb am eich cymorth trwy'r flwyddyn.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda .

Cofion

Cyng. Dorian Phillips MBE

Cyfarchion y tymor a dymuniadau gorau i'm ffrindiau, a chymdogion i gyd wrth **Sally Davies, Lluest, Pwll Trap.**

Cyfarchion Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i ffrindiau a chymdogion oll - **John Arfon Cilhaul, Hendygywn ar Daf.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'm holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion. Diolch i bawb am eu caredigrwydd. **Doreen Adams, Llain Alaw, HDG.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, cymdogion a ffrindiau - **Geraint a Beti James, Coedllys.**

Dymuna **Mary Llewellyn, Gwynlais, Maenclochog** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, cymdogion a ffrindiau.

Sefydliad DPJ

Mae diwydiant ffermio yn gwynebu cyfnod heriol ar hyn o bryd, gyda chostau cynyddol cyflenwadau fferm, costau byw, newid hinsawdd, a phwysau ffermio dyddiol yn achosi cryn dipyn o straen ar ffermwyr a'r cyhoedd. Nawr yn fwy nag erioed mae'n bwysig ein bod yn gofalu am ein gilydd, ac yn rhoi help llaw pan fydd pethau'n mynd yn anodd.

Mae Sefydliad DPJ yma i chi, i wrando ac i'ch cefnogi drwy unrhyw anhawster. Fel mae'r dywediad yn deud, 'mae problem wedi ei rannu yn broblem wedi ei haneru', hynny yw mae siarad am yr hyn sydd yn eich poeni gyda rhywun arall yn help, dyma yw'r cam cyntaf i allu cael cymorth. Da' ni gyd yn mynd drwy gyfnodau anodd mewn bywyd, mae'n bwysig ein bod yn estyn allan am gymorth pan fydd ei angen, yr un modd a da ni'n cael gweld doctor pan ydym ni'n sâl neu wedi brifo, mae ein hiechyd meddwl angen yr un sylw.

Yma yn Sefydliad DPJ rydym yn rhedeg gwasanaeth 'Rhannwch Y Baich' sef llinell ffon a thestun sy'n gwbl gyfrinachol. Mae'n agored pob awr, pob dydd o'r flwyddyn ac yn cael ei redeg gan ein gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi gan y Samariaid i allu eich helpu. Maent hefyd a chyswllt o fewn amaethyddiaeth, felly yn gallu cydnabod eich problemau. Unwaith bydd rhywun yn cysylltu a'r gwasanaeth, bydd y gwirfoddolwyr ond yn gofyn am enw cyntaf a'r ardal ble mae'r unigolyn yn byw, ar ôl siarad byddent yn cael eu rhoi mewn cyswllt a chwnselydd. Mae cwnselydd yn cysylltu â'r rhai sy'n galw, o fewn 48 awr ac yn cael eu gweld o fewn wythnos. Cynigir cwnsela ar y fferm, ar-lein, dros y ffon neu wyneb yn wyneb mewn lleoliad oddi ar y fferm. Mae ein cwnselwyr yn siarad Cymraeg a Saesneg ac wedi ei lleoli ym mhob rhan o Gymru.

Math o therapi yw cwnsela, lle diogel a chyfrinachol i chi siarad â rhywun proffesiynol am eich materion a'ch pryderon. Mae'n gyfle i chi allu siarad am unrhyw beth, bydd y therapydd yn gwrando arnoch a'ch cynghori sut i ddarganfod ffyrdd i allu delio a'ch emosiynau. Mae'n haws weithiau gallu siarad â rhywun dieithr am yr hyn sydd yn eich poeni, peidiwch cadw popeth i chi eich hun, mae'n bwysig cymryd y cam cyntaf a gofyn am help.

Os da chi ddim yn teimlo fel chi'ch hun a bod rhywbeth yn eich poeni e.e. mynd drwy gyfnod anodd mewn perthynas, teimlo'n unig, wedi colli rhywun annwyl ac yn galaru, problemau ar y fferm, neu unrhyw beth arall sydd yn eich poeni, os yw yn fater bach neu fawr, gallwn helpu. Peidiwch â meddwl eich bod chi ar ben eich hun. Rydym yma i siarad, i helpu, pob awr o'r dydd, pob diwrnod o'r flwyddyn. Ffoniwch 0800 587 4262 / Testun 07860 048799

Yn ogystal a'r gwasanaeth 'Rhannwch Y Baich' rydym hefyd yn cynnal hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl mewn amaethyddiaeth, am ddim i gefnogi unrhyw un sy'n ffermio, yn byw yn y gymuned wledig neu'n darparu cymorth neu wasanaethau i'r gymuned ffermio yng Nghymru. Wrth fod yn aelod o Ferched y Wawr, Clybiau Ffermwyr Ifanc, pwyllgorau yn y gymuned, y neuadd gymunedol, ysgolion cynradd ac uwchradd, y dafarn leol a hefyd y siop leol, rydych yn rhan o gymuned ac yn gallu helpu rhywun. Mae'r hyfforddiant yn edrych ar:

- Sut i adnabod arwyddion rhywun sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl.
- Beth i'w wneud pan fyddwch yn sylwi ar yr arwyddion hyn.
- Ymwybyddiaeth o hunanladdiad.
- Annog rhywun i gael cymorth.
- Gofalu am eich iechyd meddwl eich hun

Gyda'r wybodaeth yma, fe allech chi achub bywyd rhywun. Dilynwch ni ar ein gwefan Eventbrite i gael cofrestru ar hyfforddiant yn y dyfodol. Rydym yn cynnig sesiynau ar lein neu wyneb yn wyneb, felly os hoffech chi gynnal hyfforddiant yn eich ardal chi, cysylltwch â'n rheolwr hyfforddiant – kay@thedpjfoundation.co.uk. Rydym hefyd yn cynnig nosweithiau clwb, ble mae ein gwirfoddolwyr yr ardal yn cynnal noson am Sefydliad DPJ. Os ydych â diddordeb cysylltwch ag Elen, cynorthwy-ydd marchnata ac ymgysylltu'r sefydliad – elen@thedpjfoundation.co.uk

Cofiwch, dydych chi byth ar ben eich hun, rydym ni yma i chi. Does dim cywilydd mewn gofyn am help. Ffoniwch 0800 587 4262 / Testun 07860 048799. Rhannwch y baich.



OWEN PHILLIPS
Llanddewi EfelFre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab

Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

olew oil
Trefigin
EST. 1982
Y Gwasanaeth sy'n Gwrsogi
THERMATIC TIT
DEAL FROM
LW2 OIL
HEATING OIL
DEAL
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol,
Teuluol, lleol, Cymraeg
0800 587 4262
www.trefigin-cymru
0800 587 4262

Clwb Rygbi San Cler - parhad o dudalen 52

Cawsom gêm galed hefyd yn erbyn Llandeilo yn y cwpan, a hynny mewn tywydd ofnadwy, ond er y sialens aruthrol, rydym drwyddo i'r rownd nesaf ac yn gobeitho allwn fynd o leia un cam ymhellach na beth wnaethom tymor diwethaf. Pob hwyl i chi bois!

Dyma restr y gemau dros yr wythnosau nesa :-
Tachwedd 18fed - Tim datblygu San Cler v Kidwelly
Rhagfyr:

3ydd - San Cler v Aberaeron

Tîm datblygu San Cler v Tîm datblygu Tymbl

10fed - Aberteifi v San Cler

Tîm datblygu San Cler v Tîm datblygu Athletic C'fyrddin
San Cler v Llanybydder

Mae'r tîm cynta dal yn ddi guro yn y gynghrair y tymor hwn ac edrychwn ymlaen i gynnal y momentwm yma dros y mis nesaf er mwyn parhau ar frig Adran 3A y Gorllewin.

Gwynndaf Williams



Dyma lun o gêm ddarbi rhwng San Cler a Talacharn

Llun: Chris Rees

Clwb Rygbi Hendygywyn

Dynion

Hydref 8fed- Colli erbyn Hendy 64-35. Sgoriwyd cais yr un gan Harry Fuller, Liam Price, Ceirion Evans, James Lewis a Geraint Jones. 5 trosiad gan Geraint Jones

15fed- Cwpan erbyn Tondy. Gohiriwyd y gêm achos marwolaeth Rob Benjamin.

22ain - I ffwrdd erbyn Castell Newydd Emlyn. Colli 36-6. 2 cic gosb gan Geraint Jones.

Tachwedd 12fed- Colli erbyn Llanelli Wanderers 17-34. Sgoriwyd cais yr un gan Jack Richards a Rhys Nicholas, 1 cic gosb a 2 drosiad gan Geraint Jones.

Menywod

Hydref 9fed - Ennill adre erbyn Blaendulais 54-36.

Sgoriwyd tair cais yr un gan Marged Williams, Danielle

Lawrence a Ceulyn Davies. 7 trosiad gan Macey Bowen.

16eg - Ennill i ffwrdd erbyn Llanbedd 5-20. Sgoriwyd dau gais gan Mari Griffiths a cais yr un gan Danielle Lawrence ac Amy Morgan.

Tachwedd 13eg - Colli erbyn Porth Tywyn 41-10.

Sgoriwyd cais yr un gan Emily Griffiths a Macey Bowen.

Ieuenctid

Hydref 22ain - I ffwrdd yn erbyn Arberth, colli 19 - 7.

Cais i Ieuan Hill, trosiad gan Lennon Reynolds.

Tachwedd 12fed - Adref yn erbyn Cwmgors, ennill 55 - 5. Sgoriodd Jack Worthing, Lewis Jones a Jake Williams ddau gais yr un a sgoriodd Ollie Bujega, Dan Howells a Tom Blake gais yr un. Tair trosiad i Lennon Reynolds a dwy i Tom Blake.

Suzanne Davies

Robert Benjanim (Benji) 1954 - 2022



Roedd tref Hendygywyn a thu hwnt yn drist iawn o glywed am farwolaeth Robert 'Benji' Benjamin rai wythnosau yn ôl. Roedd yn un o gymeriadau hoffus y dref. Chwaraeon oedd ei brif ddiddordeb, yn gyn-Ysgrifennydd Anrhydeddus ac yn aelod oes o Glwb Rygbi Hendy-gwyn ar Daf. Bu'n ysgrifennydd y clwb hwn am 26 mlynedd.

Roedd Benji yn adnabyddus trwy Sir Benfro yn y cylchoedd rygbi a chriced. ac yn gadeirydd clwb criced Hendy-gwyn ar Daf ers dwy flynedd. Roedd bob amser yn cael amser i sgwrsio a gwneud ffrindiau newydd ble bynnag yr aeth. Mae'r teyrngedau niferus y mae'r teulu wedi'u derbyn yn dyst i'r parch mawr oedd gan y gymuned chwaraeon at Benji.

Mae'r ddau fab Gethin a Sion yn ymwneud â'r clybiau rygbi a chriced ac roedd Benji hefyd yn chwarae criced yn gymdeithasol yng Nghlwb Criced Hendy-gwyn ac hefyd yn chwarae wrt dardiau o fri. Mwynhaodd Benji fynd ar deithiau'r clwb i Yugoslavia, Benidorm, y Trossacks, Tsiecoslofacia a llawer o wledydd eraill.

Mae'r gymuned chwaraeon yng Ngorllewin Cymru yn lle tlotach yn dilyn marwolaeth Benji ac mae ein meddyliau gydag Ann-Marie, Gethin, Sion a'r teulu i gyd.

CHWARAEON

Clwb Pel-droed Llanboidy

Tîm 1af

Dros y mis diwethaf mae tîm cyntaf Llanboidy wedi chwarae 4 gêm, ennill 1 a cholli 3. Collwyd 6-1 yn erbyn tîm cryf Crymych yng Nghwpan J Emrys Morgan gyda'r unig gol yn dod gan Dafydd Jones. Colli o 10-1 oedd hanes yn yr wythnos ganlynol eto yn erbyn tîm cryf Ffostrasol yng Nghwpan Cynghair Ceredigion; Nathan Davies yn sgorio i Llanboidy.

Dychwelyd yn ôl i gemau'r adran gyda gêm oddi cartref yn erbyn Llandysul. Cafwyd gem dda iawn mewn amodau caled rhwng y gwynt a'r glaw ond ennill oedd hanes y tîm o 3-2 gyda goliau yn dod gan Gethin Scourfield a 2 gan Jac Griffiths. Gem cynghair arall cafwyd yn yr wythnos ganlynol, ond colli eto o 5-0 yn erbyn Ffostrasol.

Gobeithio am ganlyniad yn well dros y cyfnod nesaf.

2il dîm

Dim ond dwy gêm mae'r 2il dim wedi chwarae, un yn erbyn Felinfach a'r llall yn erbyn Maesglas.

Colli bu hanes y tîm yn erbyn Felinfach o 2-1 gyda'r unig gol yn dod gan Teilo Davies. Ond cafwyd buddugoliaeth dda iawn yn erbyn Maesglas, gan ennill 9-0. Goliau yn dod gan Huw Howells (2), Chris Bowen y capten (2), Will Abbott (2) a Lewis Thompson (3).

Mae'r tîm cyntaf wedi bod yn ffodus o gael cit chwarae newydd eleni, gan ddiolch yn fawr iawn i gwmni Masnachwyr Adeiladu Dorian Phillips am noddi'r cit newydd. Mae'r Clwb hefyd wedi derbyn crysau polo newydd gyda diolch arbennig i Riverlea Ltd yn ogystal ag Euros Griffiths a Allpump Services am eu nawdd hael.

Cofiwch ein bod o hyd yn chwilio am noddwyr i'r Clwb, ac

os oes diddordeb gyda chi neu yn adnabod rhywun sydd â diddordeb - cysylltwch gydag Eirlys Williams ar pauleirlys@btinternet.com. Rhodri Lewis



Tîm cyntaf yn derbyn eu crysau chwarae newydd gan Masnachwyr Adeiladu DP



Crysau polo newydd y Clwb gyda diolch i Riverlea, Euros Griffiths a Allpump Services



Chris Bowen - Capten yr 2il dîm yn erbyn Felinfach

Clwb Rygbi San Cler

Dyma ganlyniadau y gemau diweddar :-

Hydref 22ain: San Cler 61 - Tyddewi 7

Hydref 29ain: Llandeilo 13 - San Cler 21 (Cwpan)

Tachwedd 12fed: Talacharn 6 - San Cler 10

Yn dilyn ein buddugoliaeth yn erbyn Llandeilo, rydym trwyddo i'r 16 olaf yng Nghwpan Cenedlaethol Adran 3 a byddwn yn chwarae i ffwrdd yn erbyn Talacharn yn y rownd nesaf ar Ionawr 21ain. Rydym yn disgwyl gem arall galed, wedi i ni sicrhau buddugoliaeth haeddianol yn ei herbyn ar Tachwedd 12fed, mewn gem hynod gorfforol ac agos, lle nad oedd neb yn ilidio yr un fodfedd! Sgoriodd Sam Miles gais i San Cler yn ystod chwarter olaf y gem a gwnaeth y bechgyn bwyso'n drwm ar sawl achlysur, yn agos i linell gais Talacharn, wrth i'r gem ddod i'w derfyn. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at ein hymweliad nesaf a Talacharn yn y flwyddyn newydd. **parhad ar dud. 51**